



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dadansoddiad o effaith diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system les ar aelwydydd yng Nghymru

Ionawr 2019

Dadansoddiad o effaith diwygiadau lles llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r system les ar aelwydydd yng Nghymru

Cynulleidfa

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn ar gyfer swyddogion polisi a dadansoddol Llywodraeth Cymru yn bennaf.

Trosolwg

Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i asesu effaith diwygiadau lles llywodraeth y DU yng Nghymru.

Camau i'w cymryd

Dim – er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Yr Is-adran Dyfodol Ffyniannus

Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 250331

e-bost: WelfareReformEnquiries@llyw.cymru

Copiâu ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn

<https://beta.llyw.cymru/cymunedau-ac-adyfwio>

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, ac eithrio lle nodir fel arall.

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	2
1. Cyflwyniad	12
2. Dadansoddiad o effaith diwygiadau lles unigol	13
Tynnu Budd-dal Plant yn ôl pan fydd gan rywun ar yr aelwyd incwm blynyddol trethadwy o fwy na £50,000	13
Dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr (sy'n cael ei adnabod fel y 'dreth ystafell wely' hefyd)	13
Cap budd-daliadau aelwyd	14
Disodli'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) gyda'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)	16
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (UC)	22
Rhewi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a Lwfansau Tai Lleol	37
Dileu'r elfen deuluol mewn credydau treth a'r Credyd Cynhwysol, a'r premiwm teuluol mewn Budd-dal Tai, ar gyfer hawliadau newydd	39
Torri cyfradd raddedig y Credyd Cynhwysol o 65 y cant i 63 y cant	39
Cyfyngu elfen plentyn credydau treth a'r Credyd Cynhwysol i ddau blentyn	39
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)	42
Cynnydd mewn rhai lwfansau gwaith Credyd Cynhwysol	43
3. Gwyrdroadau polisi	45
4. Effaith gronol diwygiadau treth a lles	47
5. Toriadau lles sydd i ddod o hyd	49
6. Casgliadau	50
Atodiad 1 – Cyflwyno gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol yng Nghymru fesul awdurdod lleol	52
Atodiad 2 – Oedi wrth gyflwyno'r Credyd Cynhwysol	54

Crynodeb Gweithredol

Mae Llywodraeth y DU wedi gweithredu diwygiadau sylweddol i fudd-daliadau lles a chredydau treth trwy Ddeddf Diwygio Lles 2012 a Deddf Lles a Gwaith 2016, gyda thoriadau lles sylweddol i ddod o hyd. Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar ddadansoddiad cynharach gan Lywodraeth Cymru ar effaith diwygio lles, a gyflawnwyd yn fewnol ac a gomisiynwyd yn allanol hefyd¹. Ei nod yw dwyn ynghyd yr ystadegau, y dadansoddiad a'r dystiolaeth allweddol ddiweddaraf ar effaith diwygiadau lles sydd wedi'u gweithredu a diwygiadau lles arfaethedig ar aelwydydd yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r prif ddiwygiadau a gyhoeddwyd hyd at ddiwedd mis Ionawr 2019.

Dadansoddiad o effaith diwygiadau lles unigol

Tynnu Budd-dal Plant yn ôl pan fydd gan rywun ar yr aelwyd incwm blynyddol trethadwy o fwy na £50,000

Mae dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) yn dangos y bydd tua 36 y cant, neu 370,000, yn fwy o deuluoedd yn y DU yn colli rhywfaint o Fudd-dal Plant yn 2019-20 nag yn 2013-14. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad yw'r trothwy o £50,000 wedi'i gysylltu â mynegai prisiau nac enillion. Maent yn amcangyfrif hefyd, erbyn 2022, y bydd mwy nag un o bob pump o deuluoedd â phlant yn colli o leiaf rhywfaint o'u Budd-dal Plant – cynnydd o un o bob wyth pan gyflwynwyd y polisi².

Dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr (sy'n cael ei adnabod fel y 'dreth ystafell wely' hefyd)

Ym mis Awst 2018, gwelodd 25,890 (12 y cant) o'r rhai a oedd yn derbyn Budd-dal Tai yng Nghymru ostyngiad yn y swm wythnosol a gawsant oherwydd y polisi hwn o'i gymharu â 35,710 ym mis Mai 2013. Mae hyn yn uwch na'r gyfran gyfatebol ar gyfer y Gwledydd Prydain (GP) (9 y cant) ym mis Awst 2018. Penderfynwyd bod y mwyafrif (81 y cant) o'r rhai a gafodd eu heffeithio yng Nghymru yn tanfeddiannu un ystafell yn eu heiddo. Y gostyngiad wythnosol cyfartalog ar gyfer ystafelloedd sbâr yng Nghymru ym mis Awst 2018 oedd £15.83 o'i gymharu â £15.33 yn y GP.

Cap budd-daliadau aelwyd

Mae ychydig dros 8,000 o aelwydydd yng Nghymru wedi cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio rywbryd ers cyflwyno'r cap budd-daliadau ym mis Ebrill 2013 a mis Awst 2018. Ym mis Awst 2018, cafodd 2,870 o aelwydydd yng Nghymru eu Budd-dal Tai wedi'i gapio. Roedd gostyngiad o 2 y cant, neu 70 o aelwydydd wedi'u capio, o gymharu â'r chwarter blaenorol (Mai 2018). Y rheswm dros y gostyngiad hwn yw bod llai o aelwydydd yn cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio am y tro cyntaf y chwarter hwn o'i gymharu â nifer yr aelwydydd sy'n symud oddi ar y cap.

Ym mis Awst 2018, roedd bron pob un o'r aelwydydd yng Nghymru a oedd â'u Budd-dal Tai wedi'i gapio yn cynnwys plant; roedd gan 90 y cant rhwng 1 a 4 o blant ac roedd gan 10 y cant 5 neu ragor o blant. Roedd 77 y cant o aelwydydd yng Nghymru yr oedd eu Budd-dal Tai wedi'i gapio ym mis Awst 2018 yn deuluoedd un rhiant. Ym mis Awst 2018, roedd 61 y cant o aelwydydd â chap yng Nghymru wedi cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio £50 neu lai yr wythnos, gyda 29 y cant arall o aelwydydd wedi'u capio rhwng £50 a £100 yr wythnos.

¹ [Dadansoddi effaith diwygiadau lles llywodraeth y DU yng Nghymru](#)

² Emmerson, C., Joyce, R., and Waters, T. (2019) [Stealthy changes mean that soon one in five families with children will be losing some Child Benefit](#)

Roedd 10 y cant o aelwydydd wedi cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio fwy na £100 yr wythnos ym mis Awst 2018, gan gynnwys 0.5 y cant wedi'i gapio fwy na £150 yr wythnos.

Ers mis Hydref 2016, mae 110 o aelwydydd yng Nghymru wedi cael eu Credyd Cynhwysol (UC) wedi'i gapio. Ym mis Awst 2018, roedd 70 o aelwydydd yng Nghymru wedi cael eu Credyd Cynhwysol wedi'i gapio. Mae hwn yn nifer fach o'i gymharu â nifer yr aelwydydd sydd wedi cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio. Fodd bynnag, disgwylir i nifer yr aelwydydd ar y Credyd Cynhwysol yr effeithir arnynt gan y cap budd-daliadau gynyddu wrth i'r broses gyflwyno barhau. Roedd yr holl aelwydydd yng Nghymru a gafodd eu Credyd Cynhwysol wedi'i gapio ym mis Awst 2018 yn cynnwys plant. Ym mis Awst 2018, roedd y mwyafrif (71 y cant) o aelwydydd yng Nghymru a oedd wedi cael eu Credyd Cynhwysol wedi'i gapio wedi cael eu capio gan swm cyfwerth â £50 neu lai yr wythnos.

Mae'r Pwyllgor Gwaith a Phensiynau'n cynnal ymchwiliad i'r cap budd-daliadau. Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2018, cyfeiriodd Dirprwy Gyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Carl Emmerson at ymchwil flaenorol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a adolygwyd gan gymheiriaid yn y sefydliad. Dangosodd hyn fod y cap budd-daliadau'n cynyddu'r tebygolrwydd y byddai aelwyd yn symud i Gredyd Treth Gwaith, ac felly'n symud i waith â thâl o bosib, a bod rhai o'r rhai a gollodd symiau mawr iawn wedi cael eu cymell i symud tŷ. Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif helaeth yn ymateb naill ai trwy symud i waith na thrwy symud tŷ.

Disodli'r Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) gyda'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)

Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos bod hawliad PIP yn cael ei dalu i 138,370 o bobl yng Nghymru ddiwedd Gorffennaf 2018, cynnydd o 4,340 (neu 3 y cant) ar y ffigwr chwarterol blaenorol (Ebrill 2018). O'r hawliadau hyn oedd yn cael eu talu, roedd 81,380 yn hawliadau ailasesiad o'r DLA, sy'n gyfwerth â 59 y cant o gyfanswm y llwyth achosion PIP (53 y cant yn y GP).

Gall hawlwr sy'n dymuno anghytuno â phenderfyniad ar eu cais PIP ofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau ailystyried y penderfyniad yn y lle cyntaf. 'Ailystyriaeth orfodol' yw hyn ac mae'n cynnwys ystyried sail yr anghydfod a chwblhau adolygiad o'r penderfyniad cychwynnol. Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos bod 832,000 o ailystyriaethau gorfodol wedi'u cofrestru yn y GB yn erbyn hawliadau rheolau arferol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2018 (ni chyhoeddir data ar lefel Cymru). Roedd 804,300 o'r rhain wedi'u clirio. Erbyn diwedd mis Gorffennaf 2018, arweiniodd 17 y cant o ailystyriaethau gorfodol o hawliadau newydd a 23 y cant (ac eithrio rhai a dynnwyd yn ôl) o ailystyriaethau gorfodol a ailaseswyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer rheolau arferol at newid y dyfarniad. Gall hyn gynnwys hawliadau na chafodd eu caniatáu'n flaenorol sy'n cael eu caniatáu yn awr, neu hawliadau a gafodd eu caniatáu yn flaenorol ond mae eu hail-ystyried wedi arwain at newid yn yr hawliad (e.e. adolygu sgôr asesu) ac mae hyn wedi effeithio ar lefel y dyfarniad.

Os nad yw hawlwr yn hapus â chanlyniad yr ailystyriaeth orfodol, gallant gyflwyno apêl i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi wedyn. Yn ystod y cyfnod o 2013-14 i 2017-18, gwnaed penderfyniad ar gyfran sylweddol a chynyddol o apelau PIP a DLA a gliriwyd yn y gwrandawriad o blaid yr hawlwr. Er enghraifft, yn 2017-18, gwnaed penderfyniad mewn 68 y cant o drosglwyddiadau PIP a gliriwyd mewn gwrandawriad yn y GP o blaid yr hawlwr. Y ffigwr cyfatebol ar gyfer trosglwyddiadau DLA oedd 60 y cant.

Ym mis Mawrth 2017, ataliodd Llywodraeth y DU bobl rhag cymhwyso am daliadau uwch o fewn elfen symudedd y PIP oherwydd "trallod seicolegol". Fodd bynnag, arweiniodd y

penderfyniad hwn at her gyfreithiol gan ymgyrchwyr. Yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys ym mis Rhagfyr 2017 bod yr asesiadau PIP a wnaed hyd yma wedi bod yn amlwg yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â namau iechyd meddwl, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2018 y byddai'n ailasesu pob cais PIP a wnaed hyd yma. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd y broses hon yn arwain at ddyfarniadau uwch ar gyfer hyd at 220,000 o hawlwr PIP, a fydd yn costio cyfanswm o ryw £3.7 biliwn erbyn 2022-23.

I ddechrau, disgwyliwyd i'r PIP arwain at ostyngiad mewn baich achosion a gwariant o'i gymharu â'r DLA. Fodd bynnag, nid yw'r gostyngiad hwn yn y llwyth achosion wedi digwydd. Er bod Cyllideb 2015 yn rhagweld y byddai'r baich achosion ar gyfer budd-daliadau anabledd yn y GP yn gostwng 6 y cant rhwng 2014-15 a 2017-18, mae data a rhagolygon diweddaraf yr Adran Gwaith a Phensiynau'n awgrymu y bydd yn cynyddu 8 y cant yn ystod y cyfnod hwn.

Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (UC)

Erbyn hyn rhagwelir y bydd y Credyd Cynhwysol yn fwy hael i hawlwr na'r system fudd-daliadau etifeddol, fel yr amlinellir yn Economic and Fiscal Outlook 2018 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) 2018. Mae hyn oherwydd cyfuniad o newidiadau rhagweld yn ogystal ag effaith Cyllideb 2018. Fodd bynnag, mae'r effaith gyffredinol ar incwm yn ddibynnol ar y graddau y mae nifer y bobl sy'n manteisio arno'n cynyddu, sy'n un o amcanion allweddol y Credyd Cynhwysol. Hyd yn oed os yw'r Credyd Cynhwysol yn rhoi ychydig mwy ar gyfartaledd o gymharu â'r system etifeddol yn hytrach na rhoi rhywfaint llai, mae'n dal i fod yn newid sylweddol gyda rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled, ac mae angen ei ystyried yng nghyd-destun y toriadau sylweddol i fudd-daliadau oedran gweithio a gyflwynwyd ers 2015 a'r toriadau hynny sydd i ddod o hyd.

Dywed y Sefydliad Astudiaethau Cyllid y bydd gan tua thraean o aelwydydd oedran gweithio hawl i rywfaint o Gredyd Cynhwysol. O'r rheini, bydd tua thraean (2.4 miliwn) o leiaf £1,000 y flwyddyn yn waeth eu byd o dan y Credyd Cynhwysol nag o dan y system etifeddol, a bydd tua chwarter (1.7 miliwn) o leiaf £1,000 y flwyddyn yn well eu byd. Mae'r rhain yn effeithiau tymor canolig, gan na fwriedir i bobl fod ar eu colled o ran arian parod wrth iddynt symud i'r Credyd Cynhwysol (oni bai bod eu hamgylchiadau'n newid). Yn dibynnu ar y math o deulu, mae bron pob un o'r rhai sydd mewn gwaith yn ennill neu'n colli rhywbeth (h.y. mwy na £100 y flwyddyn). Mae'r rhai â phlant ac sydd mewn gwaith yn arbennig o debygol o fod ar eu hennill. I'r rhai hynny sy'n ddi-waith, ychydig iawn sydd ar eu hennill o fwy na £100 y flwyddyn, ac mae cyfran fawr yn colli symiau eithaf sylweddol (mwy na £1,000 y flwyddyn).

Mae Achos Busnes Llawn Rhaglen Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018 yn amcangyfrif y bydd cynnydd o tua 200,000 o bobl mewn cyflogaeth mewn cyflwr cyson o ganlyniad i'r Credyd Cynhwysol. Priodolir hyn i dri ffactor: cymhellion gwaith ariannol; amodoldeb ychwanegol; a symlrwydd y system / trosglwyddo'n llyfnach i waith. Fodd bynnag, dywed y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) eu bod nhw, a'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn amau a fydd hi byth yn bosib mesur a yw'r nod economaidd uchod sydd gan y Credyd Cynhwysol o gynyddu cyflogaeth wedi'i gyflawni. Mae hyn, ynghyd â'r amserlenni estynedig a'r gost o redeg y Credyd Cynhwysol o gymharu â'r system fudd-daliadau y mae'n ei disodli, wedi arwain y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i ddod i'r casgliad nad yw'r Credyd Cynhwysol yn cynrychioli gwerth am arian ar hyn o bryd, ac nad yw ei werth am arian yn y dyfodol wedi'i brofi.

Serch hynny, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ceisio profi'r effaith y mae'r Credyd Cynhwysol yn ei chael ar gyfranogiad yn y farchnad lafur trwy gymharu hawlwr y Credyd

Cynhwysol â hawlwr Lwfans Ceisio Gwaith tebyg. Mae dadansoddiad o ddata gweinyddol yn awgrymu bod y Credyd Cynhwysol yn cael effaith gadarnhaol o safbwynt y farchnad lafur ar y grŵp cyfyngedig sydd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad (hawlwr di-waith sengl heb blant). Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ategu'r dadansoddiad hwn gyda chanfyddiadau arolygon, a welodd rai canlyniadau cadarnhaol o ran nifer yr oriau a dreuliodd yn chwilio am waith gan ymatebwyr y Credyd Cynhwysol o gymharu ag ymatebwyr y Lwfans Ceisio Gwaith.

Fodd bynnag, canfu tystiolaeth o arolygon eraill y DWP nad oedd llawer o hawlwr yn cwblhau'r dasg o chwilio am swyddi a oedd yn ofynnol fel y nodwyd yn eu hymrwymiad hawlydd ac yn aml roeddynt yn teimlo bod chwilio am y nifer gofynnol o swyddi yn heriol.

Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos bod nifer y bobl sydd ar y Credyd Cynhwysol yng Nghymru wedi cynyddu i 62,380 ym mis Hydref 2018, sy'n fwy na dwbl y ffigur cyfatebol ar gyfer blwyddyn yn gynharach (Hydref 2017). Mae nifer y bobl ar y Credyd Cynhwysol yng Nghymru ym mis Hydref 2018 yn gyfwerth â 5 y cant o'r cyfanswm yn y GP (1,317,320). Roedd y broses o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn gynnar yn canolbwyntio'n anghymesur ar ddynion, pobl ifanc, a'r rhai sy'n chwilio am waith. Mae hyn yn adlewyrchu'r meini prawf cymhwysedd cyfyngedig oedd ar waith bryd hynny. Wrth i'r broses gyflwyno fynd rhagddi ac wrth i'r meini prawf cymhwysedd ledu, mae grwpiau demograffig eraill wedi dechrau bod yn gyfran gynyddol o'r baich achosion.

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cyhoeddi ystadegau ar nifer yr aelwydydd sydd ar y Credyd Cynhwysol hefyd. Ym mis Awst 2018, roedd 47,560 o aelwydydd yng Nghymru ar y Credyd Cynhwysol. Erbyn i'r Credyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn, rydym yn amcangyfrif y bydd tua 400,000 o aelwydydd yng Nghymru ar y Credyd Cynhwysol. Ym mis Awst 2018, roedd tua 12 y cant o'r aelwydydd hyn ar y Credyd Cynhwysol.

O'r 22,630 o aelwydydd yng Nghymru sy'n derbyn taliad Credyd Cynhwysol gyda hawl i gymorth ar gyfer costau tai ym mis Awst 2018, mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos bod 20 y cant wedi cael talu eu costau tai'n uniongyrchol i landlord. Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos hefyd mai dim ond 1 y cant (540) o aelwydydd yng Nghymru oedd yn derbyn taliad Credyd Cynhwysol ym mis Awst 2018 a gafodd eu taliad wedi'i rannu dros y mis i'w dalu mewn dau neu bedwar rhandaliad, trwy Daliadau Amlach y Trefniadau Taliadau Amgen (APA). Roedd nifer fach iawn o aelwydydd yn cael eu taliad Credyd Cynhwysol wedi'i rannu rhwng y ddau aelod o gwpl, trwy Daliad Hollt APA.

Mae yna alw am rannu taliadau cwpl y Credyd Cynhwysol yn ddiodyn yn hytrach nag mewn achosion eithriadol fel y mae ar hyn o bryd (fel yr adlewyrchir gan y nifer fach iawn o Daliadau Hollt drwy APA). Mae Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Senedd y DU wedi rhybuddio eu bod, fel rhan o'u hymchwiliad, wedi clywed tystiolaeth na ellir ei gwadu y gallai taliadau unigol o'r Credyd Cynhwysol i aelwydydd roi hawlwr sy'n byw gyda cham-drin domestig mewn perygl o niwed.

Mae ystadegau ad hoc yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y GP (nid yw data'n cael ei gyhoeddi ar lefel Cymru) yn dangos bod nifer y rhagdaliadau Credyd Cynhwysol gwasanaeth llawn sy'n cael eu talu wedi cynyddu'n sylweddol rhwng mis Mai 2016 (1,000) a mis Gorffennaf 2017 (12,800), sy'n adlewyrchu'r cynnydd o ran cyflwyno'r Credyd Cynhwysol.

Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos, o'r aelwydydd ar wasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol yn y GP ym mis Awst 2018, fod 97 y cant o'r aelwydydd a dalwyd yn

derbyn rhywfaint o'r taliad ar amser, tra bod 94 y cant o'r aelwydydd a dalwyd yn derbyn taliad llawn ar amser. Wrth edrych ar brydlondeb taliadau ar gyfer hawliadau newydd yn hytrach na phob hawliad, mae cyfran yr aelwydydd sy'n derbyn taliad llawn neu rannol ar amser yn is. Esbonia'r Adran Gwaith a Phensiynau fod hyn oherwydd nifer o brosesau dilysu unwaith ac am byth y mae'n rhaid eu cwblhau ar ddechrau'r hawliad i gadarnhau amgylchiadau presennol yr hawlydd/hawlwyr a'u hawl i'r Credyd Cynhwysol.

Mae nifer o broblemau wedi codi wrth gyflwyno'r Credyd Cynhwysol hyd yn hyn. Mae'r adroddiad hwn wedi canolbwyntio ar dri maes allweddol: yr effaith ar ôl-ddyledion rhent, banciau bwyd, a gwneud cais am y Credyd Cynhwysol ar-lein.

Mae yna dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai cynllun trefniadau gweinyddu taliadau'r Credyd Cynhwysol, ac yn arbennig yr elfen costau tai, fod yn creu ôl-ddyledion rhent ychwanegol. Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi tystiolaeth arolygon, dywed adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad yw'r adran Gwaith a Phensiynau wedi cyflawni unrhyw ddadansoddiad cenedlaethol a chynrychiadol i weld a yw'r Credyd Cynhwysol yn creu ôl-ddyledion rhent ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i adeiladu ar y dystiolaeth sydd ar gael, yn enwedig ar lefel Cymru.

Mae ymchwil gan Ymddiriedolaeth Trussell wedi amlygu'r cysylltiadau rhwng y Credyd Cynhwysol, caledi ariannol a'r defnydd o fanciau bwyd. Gan ddefnyddio data atgyfeirio ar gyfer 2017-18 o dalebau banc bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yn y DU, canfu'r ymchwil, ar gyfartaledd, bod banciau bwyd wedi gweld cynnydd o 52 y cant mewn galw 12 mis ar ôl cyflwyno'r credyd Cynhwysol mewn ardal o gymharu â chynnydd o 13 y cant yn ardaloedd lle nad oed y Credyd /cynhwysol wedi'i gyflwyno eto neu ei fod wedi'i gyflwyno ers 3 mis neu lai. Mae'r ymchwil yn honni bod eu dadansoddiad gwrthffeithiol yn cefnogi'r farn na ellir priodoli'r cynnydd hwn i'r ffordd y dewiswyd banciau bwyd ar hap a'i fod yn bodoli ar ôl ystyried amrywiadau tymhorol ac amrywiadau eraill. Cydnabyddir nad y Credyd Cynhwysol yw'r unig broblem sy'n sbarduno cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd, ond mae Ymddiriedolaeth Trussell yn ei ystyried yn ffactor arwyddocaol mewn sawl maes. Canfuwyd bod disgwyl am y taliad cyntaf yn achos allweddol, ynghyd â diffyg cymorth i wneud cais ar-lein, anallu taliadau i dalu am y gost o fyw, a gweinyddu gwael.

Archwiliodd arolwg ffôn hydredol a gomisiynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o hawlwyr gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol y profiadau o hawlio ar-lein. Canfu'r arolwg bod 98 y cant o'r ymatebwyr wedi hawlio ar-lein. Cofrestrodd tua eu hanner eu hawliad ar-lein heb gymorth, tra bod tua un o bob pump wedi'i gwblhau ar-lein ond gyda rhywfaint o help. Fodd bynnag, roedd ychydig o dan draean o'r rhai a gofrestrodd eu hawliad ar-lein wedi gweld y broses yn anodd, yn enwedig y broses o wirio eu hunaniaeth. Yn gyffredinol, dywedodd 43 y cant o'r hawlwyr eu bod angen mwy o gymorth i gofrestru eu hawliad Credyd Cynhwysol a dywedodd 31 y cant y byddent angen mwy o gymorth parhaus i ddefnyddio eu cyfrif Credyd Cynhwysol digidol.

Mewn ymateb i dystiolaeth ar effaith camau cynnar cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o newidiadau polisi i helpu i gynorthwyo'r rhai mwyaf anghenus. Er enghraifft, lleihau cyfradd raddedig y Credyd Cynhwysol, gwneud newidiadau i ragdaliadau, dileu'r cyfnod aros saith diwrnod, a chynyddu rhai o lwfansau gwaith y Credyd Cynhwysol. Mae newidiadau niferus wedi'u gwneud i'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r Credyd Cynhwysol hefyd.

Rhewi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a Lwfansau Tai Lleol

Mae effaith wirioneddol y rhewi nominal yn dibynnu ar lwybr chwyddiant, fel yn absenoldeb y rhewi, byddai ffigurau chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr mis Medi wedi cael eu defnyddio i gynyddu gwerth budd-daliadau. Mae'r ffigurau hyn wedi bod yn uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol yn 2015 pan gyhoeddwyd y rhewi. Yn gyffredinol, mae'r gostyngiad gwirioneddol i fudd-daliadau yn sgil y rhewi pedair blynedd yn fwy na 6 y cant o'i gymharu â'r 4.6 y cant a ragwelwyd yn wreiddiol.

Mae dadansoddiad gan y Resolution Foundation yn dangos bod cyfanswm o 11 miliwn o aelwydydd yn y DU wedi gweld gostyngiad yn eu budd-daliadau rhwng 2016-17 a 2019-20 o ganlyniad i'r rhewi. Mae'r dadansoddiad hwn yn dangos bod aelwydydd tlotach yn profi'r golled fwyaf o ran arian parod ac fel cyfran o'u hincwm, ac mai rhieni sy'n teimlo effaith y rhewi waethaf. Bydd effaith gyffredinol y rhewi pedair blynedd yn golygu bod cwpl cyfartalog gyda phlant yn hanner isaf y dosbarthiad incwm £580 yn dlotach yn 2019-20 na phe bai cynnydd ar sail chwyddiant wedi digwydd ers 2016-17, ac amcangyfrifir bod rhiant sengl cyfartalog ar incwm isel £710 yn dlotach. Amcangyfrifir bod effaith gyffredinol y rhewi'n lleihau incwm aelwydydd oedran gweithio £4.4 biliwn yn 2019-20 (llawer uwch na'r rhagolwg gwreiddiol o £3.9 biliwn). Daw cyfran fawr (£1.5 biliwn) o'r cyfanswm arbed hwn o rewi'r flwyddyn nesaf yn unig, gyda chyplau incwm isel â phlant yn colli £200 ar gyfartaledd ac mae rhieni sengl incwm isel yn colli £250 ar gyfartaledd.

Dileu'r elfen deuluol mewn credydau treth a'r Credyd Cynhwysol, a'r premiwm teuluol mewn Budd-dal Tai

Disgwylir i'r newid hwn arbed £2 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU yn y tymor hir, ac mae'n effeithio ar oddeutu 4 miliwn o deuluoedd³. Disgwylir i'r niferoedd sy'n cael eu heffeithio yng Nghymru i gynyddu i oddeutu 200,000 o deuluoedd yn y tymor hwy, gan ddefnyddio stoc teuluoedd 2014-15 sy'n derbyn Credydau Treth Plant fel procsi ar gyfer y boblogaeth yr effeithir arnynt⁴.

Torri cyfradd raddedig y Credyd Cynhwysol o 65 y cant i 63 y cant

Mae'r newid hwn, y disgwylir iddo gynyddu gwariant £700 miliwn yn 2020-21⁵, yn hwb incwm cymharol fach sydd o fudd i oddeutu tair miliwn o aelwydydd yn y GP. Mae dadansoddiad y Resolution Foundation yn dangos bod yr enillion mwyaf o'r gostyngiad yng nghyfradd raddedig y Credyd Cynhwysol oddeutu £500 y flwyddyn i deulu sy'n ennill £30,000 y flwyddyn (ond mae llai na 10 y cant o deuluoedd ar y Credyd Cynhwysol yn ennill mwy na'r swm hwn)⁶.

Cyfyngu elfen plentyn credydau treth a'r Credyd Cynhwysol i ddau blentyn

O fis Ebrill 2017 ymlaen, mae'r cymorth a ddarperir trwy elfen plentyn y Credyd Treth Plant wedi'i gyfyngu i ddau blentyn, sy'n golygu nad yw unrhyw blant dilynol a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017 yn gymwys i gael cymorth pellach. Mae teuluoedd yn dal i dderbyn elfen plentyn ar gyfer mwy na dau o blant os cafodd eu plant eu geni cyn 6 Ebrill 2017. Mae

³ Hood, A., Keiller, A.N., and Waters, T. (2017) [Significant cuts to two parts of the benefit system to be phased in from next week](#)

⁴ Amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar [Child and Working Tax Credits Statistics Finalised Annual Awards 2014-15 – Geographical Analysis](#), CThEM

⁵ HM Treasury (2018) [Budget 2018 Universal Credit](#)

⁶ Resolution Foundation (2016) [Bending the rules – Autumn Statement Response](#)

cymorth o dan y Credyd Cynhwysol wedi'i gyfyngu i ddau o blant hefyd. Ar gyfer y rheiny sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol yn barod, ni fydd unrhyw gynnydd ar gyfer plant dilynol sy'n cael eu geni ar 6 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny. Mae hawliadau newydd ar gyfer y Credyd Cynhwysol gan deuluoedd sydd â mwy na dau o blant yn barod wedi cael eu hailgyfeirio i gredydau treth tan fis Chwefror 2019. Roedd y polisi i fod yn berthnasol i unrhyw un a wnaeth hawliad newydd i'r Credyd Cynhwysol o fis Chwefror 2019 ymlaen, waeth pryd y cafodd eu plant eu geni (oni bai bod yr eithriadau'n berthnasol). Fodd bynnag, cyhoeddodd llywodraeth y DU ar 11 Ionawr y byddai teuluoedd sy'n gwneud cais Credyd Cynhwysol newydd a bod eu plant i gyd wedi'u geni cyn gweithredu'r polisi (h.y. 6 Ebrill 2017) yn cael eu heithrio o'r polisi hwn (Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n amcangyfrif bod hyn o fudd i 15,000 o deuluoedd). Mae hyn yn mynd i'r afael â phroblem 'ôl-weithredu'. Fodd bynnag, ar gyfer teuluoedd lle caiff y trydydd plentyn ei eni ar ôl Ebrill 2017, ni fydd y newid hwn yn cael unrhyw effaith ac ni fydd yn newid effaith y polisi yn y tymor hir, gan y bydd pob plentyn yn cael ei eni ar ôl Ebrill 2017 yn y pen draw.

Mae cyhoeddiad gan Gyllid a Thollau EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos bod cyfanswm o oddeutu 3,000 o aelwydydd Credyd Treth Plant ac aelwydydd Gwasanaeth Llawn y Credyd Cynhwysol yng Nghymru wedi cael eu heffeithio gan y polisi hwn ar 2 Ebrill 2018. Roedd oddeutu 120 (4 y cant) o'r aelwydydd hyn yn derbyn eithriad. Nid oedd y 2,880 o aelwydydd sy'n weddill (96 y cant) yn derbyn elfen neu swm plentyn ar gyfer o leiaf un plentyn ar eu haelwyd. Ar draws holl wledydd y DU, aelwydydd â genedigaeth luosog oedd y math mwyaf cyffredin o eithriad, a dyna oedd 93 y cant o aelwydydd yng Nghymru.

Bydd y niferoedd a effeithir yn cynyddu dros amser gan y bydd gan fwy o aelwydydd â dau neu fwy o blant sy'n hawlio Credyd Treth Plant neu'r Credyd Cynhwysol blentyn sydd wedi'i eni ar 6 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny.

O ystyried y newid a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019, ni ddisgwylir i'r effaith hirdymor gael ei themlo'n llawn tan ganol y 2030au. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd y polisi hwn yn arbed tua £2 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU (yn nhermau heddiw), gyda 700,000 o deuluoedd yn cael eu heffeithio yn y DU (os yw'r boblogaeth yn debyg i'r hyn yw nawr ac nad oes unrhyw ddiwygiadau pellach i fudd-daliadau). Byddai'r rhai yr effeithir arnynt gan y terfyn dau blentyn yn cael cyfartaledd o £3,000 y flwyddyn yn llai nag y byddent wedi'i gael fel arall. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd y toriad hwn yn cynyddu tlodi plant yn y DU (yn seiliedig ar fesurau swyddogol Llywodraeth y DU ac ar ôl costau tai) oddeutu 300,000, yn dibynnu pa fesur o dlodi a ddefnyddir yn union. Yng Nghymru, mae'r sefydliad yn amcangyfrif y bydd yn cynyddu'r gyfradd tlodi absoliwt gyffredinol (ar ôl costau tai) yng Nghymru 0.6 pwynt canran yn 2019-21.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)

Mae taliadau'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (a'r elfen Gallu Cyfyngedig i Weithio'r Credyd Cynhwysol) ar gyfer y rhai y penderfynir eu bod yn gallu cyflawni gweithgareddau cysylltiedig â gwaith (h.y. y rhai yn y grŵp gweithgaredd cysylltiedig â gwaith (WRAG)) wedi'u halinio â'r Lwfans Ceisio Gwaith a chyfradd safonol y Credyd Cynhwysol. Mae hyn wedi bod yn berthnasol i hawliadau newydd yn unig o 3 Ebrill 2017 ymlaen. Mae cyfradd y Grŵp Cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth /Cyfradd Gallu Cyfyngedig i Weithio a Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith yn dal i gael ei dalu i'r rheini sydd â'r anabledau ac anawsterau iechyd mwyaf difrifol sy'n cyfyngu ar weithio. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n amcangyfrif y bydd 500,000 o deuluoedd yn y GP yn cael eu heffeithio yn y tymor hwy, gan ddefnyddio'r stoc o hawlwy'r WRAG fel procsi ar gyfer y boblogaeth yr

effeithir arnynt, ac y bydd y golled dybiannol⁷ ar gyfer y rhai yr effeithir arnynt oddeutu £28 yr wythnos, gan arbed oddeutu £640 miliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU yn 2020-21. Gan ddefnyddio data cyfatebol ar gyfer Cymru, rydym yn amcangyfrif y bydd tua 35,000 o hawlwr yr effeithir arnynt yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ganfyddiadau eu hymchwiliad i achos sylweddol unigol gwallau tan-dalu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, sy'n ymwneud â phobl y cafodd eu hawliad budd-dal presennol ei drosi i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth ac a oedd â hawl i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm ond y dyfarnwyd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth seiliedig ar gyfraniadau'n unig iddynt. Arweiniodd y gwall hwn at bobl yn methu'r cyfle i gael taliadau premiwm anabledd ychwanegol (e.e. anabledd uwch, anabledd difrifol, premiymau gofalwr a phensiynwr). Dywed y Swyddfa Archwilio Genedlaethol bod amcangyfrif o 70,000 o bobl a drosglwyddodd i Lwfans Cyflogaeth a Chymorth o fudd-daliadau eraill heb gael eu talu ddigon gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ers 2011. Byddem yn disgwyl i oddeutu 6 y cant (tua 4,000) o'r bobl hyn fod yng Nghymru yn seiliedig ar ddata'r Adran Gwaith a Phensiynau ar y nifer o bobl ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yng Nghymru fel cyfran o'r rhai ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn y GP yn gyffredinol rhwng 2011-2017 (ffynhonnell: Adran Gwaith a Phensiynau Stat-Xplore). Dywed y Swyddfa Archwilio Genedlaethol mai amcangyfrif cyfartalog y tan-daliad yw oddeutu £5,000. Fodd bynnag, bydd llawer mwy yn ddyledus i rai pobl. Dechreuodd yr Adran Gwaith a Phensiynau gysylltu â phobl a gwneud taliadau o fis Awst 2017 ymlaen ac mae wedi ymrwymo i gywiro'r gwall hwn a thalu ôl-ddyledion erbyn mis Ebrill 2019.

I ddechrau, dim ond ôl-ddyledion oedd yn dyddio'n ôl cyn belled â 21 Hydref 2014 oedd hawlwr yn mynd i gael eu talu (h.y. dyddiad dyfarniad tribiwnlys cyfreithiol, yr oedd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn honni ei fod yn eu hatal rhag talu ôl-daliadau cyn y dyddiad hwn). Amcangyfrifodd yr Adran Gwaith a Phensiynau fod oddeutu £100 miliwn - £150 miliwn o dan-daliadau a gronwyd cyn 21 Hydref 2014, na fyddai'n gallu eu talu. Roedd oddeutu £340 miliwn i'w dalu i hawlwr am y cyfnod ar ôl 21 Hydref 2014. Fodd bynnag, yn dilyn pwysau gan grwpiau fel y Grŵp Gweithredu ar Diodi Plant, a gymerodd gamau cyfreithiol, cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018 bod tan-daliadau cyn belled yn ôl â 2011 yn cael eu had-dalu. At ei gilydd, mae hynny'n golygu bod y swm y mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n disgwyl ei ad-dalu oddeutu £500 miliwn.

Cynnydd mewn rhai lwfansau gwaith Credyd Cynhwysol

Cyhoeddodd Cyllideb 2018 Llywodraeth y DU gynnydd mewn rhai lwfansau gwaith Credyd Cynhwysol (y swm y gall teuluoedd ei ennill cyn i'r Credyd Cynhwysol ddechrau cael ei dynnu'n ôl) o fis Ebrill 2019 ymlaen, gan roi hwb o £630 i rai teuluoedd sy'n gweithio (y rhai â phlant neu hawlwr anabl). Mae hyn yn gwneud iawn am hanner y toriad gwreiddiol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Haf 2015 Llywodraeth y DU. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn amcangyfrif y bydd y newid hwn o fudd i 2.4 miliwn o deuluoedd, ac yn gadael lwfansau gwaith ar gyfer rhentwyr yn uwch nag yr oedden nhw cyn Cyllideb Haf 2015, ac yn is ar gyfer perchen-ddeiliaid (ac eithrio teuluoedd nad ydynt yn anabl heb blant y mae eu lwfansau gwaith yn dal i fod yn sero).

Er bod effeithiau tymor hirach y cynnydd yn rhai o lwfansau gweithio'r Credyd Cynhwysol yn gwella'r darlun dosbarthiadol, nid yw'r enillion o'r newid hwn yn ddigonol i wneud iawn am effaith blwyddyn olaf y rhewi budd-daliadau i'r aelwydydd hynny ar yr incymau isaf. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn gwneud y pwynt hefyd fod hwn yn gynnydd bach o ran

⁷ Mae colled dybiannol yn fesur o'r hawliad y byddai hawlwr yn gymwys i'w gael pe na bai'r polisi wedi newid, yn hytrach na hawlwr sy'n colli incwm yr oeddent eisoes wedi'i dderbyn (h.y. colled mewn arian parod).

haelioni o'i gymharu â'r toriadau i fudd-daliadau oedran gweithio a gyflwynwyd ers 2015 a'i fod yn fach o gymharu â'r toriadau sydd eto i ddod.

Gwyrddroadau polisi

Cyhoeddwyd yng Nghyllideb Haf 2015 na fyddai gan rai pobl ifanc 18 i 21 oed sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol hawl i gael cymorth gyda chostau tai o 1 Ebrill 2017 ymlaen. Fodd bynnag, ar ddiwedd mis Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n diwygio'r rheoliadau fel y bydd gan bawb rhwng 18 i 21 oed hawl i hawlio cymorth ar gyfer costau tai o fewn y Credyd Cynhwysol.

Cyhoeddodd yr Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref 2015 fwriad i gapio swm y rhent y bydd y Budd-dal Tai yn ei dalu yn y sector rhentu cymdeithasol i'r lefel Lwfans Tai Lleol perthnasol. Y bwriad hefyd oedd cynnwys cymhwyso cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn y sector tai â chymorth a sefydlu cronfa ddatganoledig i wneud iawn am y diffyg rhwng y cyfraddau Lwfans Tai Lleol a chost y ddarpariaeth. Roedd landlordiaid y sector cymdeithasol yn pryderu y byddai'r cap Lwfans Tai Lleol yn y sector rhentu cymdeithasol yn arwain at ddiffygion rhwng y rhent sy'n ddyledus a hawl hawlwr i Fudd-dal Tai, a allai, yn ei dro, arwain at ôl-ddyledion rhent ac effaith ar ffrydiau refeniw landlordiaid. Yn ogystal, byddai mwy o berygl o ddigartrefedd i denantiaid yr effeithir arnynt. O gofio'r pryderon hyn, ym mis Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fyddai cyfraddau Lwfans Tai Lleol yn cael eu cymhwysu i dai cymdeithasol anghenion cyffredinol, ac na fyddent yn cael eu cymhwysu i dai â chymorth. Ym mis Awst 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai budd-dal tai yn cael ei gadw ar gyfer pawb sy'n byw mewn tai â chymorth hefyd.

Effaith gronol diwygiadau treth a lles

Mae dadansoddiad a wnaed gan Landman Economics ac Aubergine Analysis ar ran y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, yn crynhoi canfyddiadau ar effaith gronol diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU, gan gynnwys ar lefel Cymru. Mae'r adroddiad yn dadansoddi diwygiadau treth a lles a gyhoeddwyd rhwng mis Mai 2010 a mis Ionawr 2018 (ac yn cynnwys effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol hefyd). Ni ystyrir unrhyw newidiadau treth a lles a gyhoeddwyd ers hynny. Fodd bynnag, mae dadansoddiad mwy diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar lefel y DU yn dangos nad yw'r newidiadau treth a lles a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2018 yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth i incwm aelwydydd, ar gyfartaledd.

Mae'r dadansoddiad a gomisiynwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn amcangyfrif y bydd aelwydydd yng Nghymru yn colli 1.5 y cant o'u hincwm net ar gyfartaledd (neu tua £480 y flwyddyn) yn sgil y pecyn cyffredinol o ddiwygiadau treth, lles a Chyflog Byw Cenedlaethol a gyhoeddwyd ers 2010. Yn gyffredinol, mae'r newidiadau hyn yn anflaengar, gyda'r effeithiau mwyaf yn cael eu teimlo gan bobl ar yr incwm isaf. Amcangyfrifir bod aelwydydd â phlant yn dioddef colledion llawer mwy nag aelwydydd heb blant. Mae hyn yn arbennig o wir i rieni unigol yng Nghymru sy'n colli tua £3,720 y flwyddyn ar gyfartaledd, a theuluoedd mawr hefyd. Mae'r teuluoedd hynny sydd â thri neu ragor o blant yng Nghymru yn colli tua £4,110 y flwyddyn ar gyfartaledd. Amcangyfrifir y bydd tlodi plant cymharol yng Nghymru yn cynyddu'n sylweddol, gyda'r diwygiadau'n gwthio 50,000 yn ychwaneg o blant i dlodi erbyn iddynt gael eu rhoi ar waith yn llwyr.

Mae yna effaith negyddol anghymesur hefyd ar incwm nifer o grwpiau gwarchoddedig, gan gynnwys pobl anabl, rhai grwpiau ethnig, a menywod, ac effeithiau arbennig o negyddol ar grwpiau croestoriadol sy'n dioddef anfanteision lluosog (er enghraifft, rhieni unigol sydd â phlant anabl).

Mae'r effeithiau negyddol hyn yn deillio o'r newidiadau i'r system fudd-daliadau gan mwyaf, yn enwedig y rhewi mewn cyfraddau budd-daliadau oedran gweithio, newidiadau i fudd-daliadau anabled a gostyngiadau mewn cyfraddau Credyd Cynhwysol.

Disgwylir i bron i hanner yr aelwydydd yng Nghymru fod ar eu colled yn sgil y pecyn cyffredinol o ddiwygiadau i drethi uniongyrchol, taliadau trosglwyddo a'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn gyffredinol.

Mae dadansoddiad blaenorol gan Lywodraeth Cymru ac ymchwil a wnaed gan Brifysgol Sheffield Hallam hefyd yn dangos mai Cymoedd y De, sy'n cynnwys yr ardaloedd yng Nghymru sydd â'r cyfraddau uchaf o hawlwr budd-daliadau oedran gweithio, yw'r ardaloedd yng Nghymru sy'n cael eu heffeithio waethaf gan y newidiadau lles, ac nid yw hynny'n syndod.

Toriadau lles sydd i ddod o hyd

Dim ond yn rhannol y mae llawer o'r toriadau i fudd-daliadau a gyhoeddwyd ers 2015 wedi'u gweithredu. Mae dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn dangos bod y toriadau i fudd-daliadau sydd i ddod o hyd oddeutu £4 biliwn y flwyddyn.

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno diwygiadau sylweddol i fudd-daliadau lles a chredydau treth drwy Ddeddf Diwygio Lles 2012 a Deddf Diwygio Llesiant a Gwaith 2016), gyda thoriadau mawr i ddod eto hefyd. Y newid pwysicaf yw cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, sy'n disodli chwech o fudd-daliadau a chredydau treth o oedran gweithio a oedd yn dibynnu ar brawf modd. Mae hyn yn newid strwythur y system fudd-daliadau'n sylweddol i bobl o oedran gweithio. Newidiadau allweddol eraill yw cyflwyno Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), rhewi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a dderbynnir gan y rhai o oedran gweithio am bedair blynedd, a chyfyngu elfen blentyn credydau treth a Chredyd Cynhwysol i ddau blentyn. Mae'r newidiadau hyn, a lluo o newidiadau eraill i fudd-daliadau lles, yn effeithio'n wahanol ar wahanol bobl yn dibynnu ar eu hamgylchiadau (e.e. lefelau incwm a math o deulu) a'u nodweddion (e.e. oedran a statws anabled).

Mae'r adroddiad hwn yn ddatblygiad o ddadansoddiad cynharach gan Lywodraeth Cymru ar effaith diwygiadau lles, a gynhaliwyd yn fewnol a'i gomisiynu'n allanol⁸. Ei nod yw cyfuno'r ystadegau, dadansoddiad a thystiolaeth allweddol ddiweddar o effaith y diwygiadau lles a gyflwynwyd a'r rhai sydd i'w cyflwyno ar aelwydydd yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r prif ddiwygiadau a gyhoeddwyd hyd at ddiwedd mis Ionawr 2019.

Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am ddatblygu polisi diwygio budd-daliadau a gweinyddu budd-daliadau lles. Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr holl adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â holl effaith y newidiadau hyn, fodd bynnag, mae'n parhau i liniaru, lle bo'n bosibl, ac wedi buddsoddi cyllid ychwanegol, er enghraifft, i ddarparu gwasanaethau cynghori rheng flaen, a phrydau ysgol am ddim. Bydd canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cael eu defnyddio i helpu i lywio datblygiad polisi Llywodraeth Cymru ar liniaru effaith diwygiadau lles.

Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu fel a ganlyn. Mae adran 2 yn egluro'r prif ddiwygiadau lles gyda chanfyddiadau o ddadansoddiad a thystiolaeth o'u heffaith debygol a gwirioneddol ar aelwydydd, gan ganolbwyntio ar Gymru. Ceir amlinelliad o ddiwygiadau polisi Llywodraeth y DU hefyd. Mae adran 3 yn crynhoi newidiadau polisi allweddol. Mae adran 4 yn amlinellu dadansoddiad o effaith gronol ragamcanol diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar effeithiau dosbarthiadol yn ôl grŵp incwm y cartref, math o gartref a nodweddion gwarchoddedig. Mae adran 5 yn edrych ar faint y toriadau lles sydd eto i ddod, ac adran 6 yn dod i gasgliad.

⁸ [Dadansoddi effaith diwygiadau lles llywodraeth y DU yng Nghymru](#)

2. Dadansoddi effaith diwygiadau lles unigol

Diwygiad lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad ac effaith debygol
1. Dileu budd-dal plant pan fydd gan rywun yn y cartref incwm blynyddol trethadwy dros £50,000	Ionawr 2013	Drwy newidiadau i dreth incwm, mae Budd-dal Plant (£1,079 y flwyddyn ar gyfer y plentyn cyntaf a £714 ar gyfer pob plentyn dilynol ar hyn o bryd) yn cael ei ddileu ar 1 y cant am bob £100 a enillir dros £50,000. Mae'r trothwy hwn wedi'i rewi mewn termau arian parod ers ei gyflwyno. Dengys dadansoddiad gan y Sefydliad Astudiaethau Ariannol (ISF) y bydd tua 36 y cant, neu 370,000, yn fwy o deuluoedd yn y DU yn colli rhywfaint o Fudd-dal Plant yn 2019–20 nag yn 2013–14, a'r prif reswm am hyn yw nad yw'r trothwy o £50,000 wedi'i gysylltu â phrisiau na chyflogau ⁹ . Maent hefyd yn amcangyfrif y bydd dros un o bob pump teulu â phlant yn colli o leiaf rhywfaint o'u Budd-dal Plant erbyn 2022 – cynnydd o un o bob wyth pan gyflwynwyd y polisi.
2. Dileu'r cymhorthdal ystafell sbâr (a elwir yn 'treth ystafell wely' hefyd)	Ebrill 2013	<p>Ers Ebrill 2013 cyfyngwyd ar faint o Fudd-dal Tai/elfen tai y Credyd Cynhwysol a dalwyd i hawlwyd o oedran gweithio sy'n byw men tai cymdeithasol ac yr ystyrir eu bod yn tanfeddiannu eu llety. Mae nifer yr ystafelloedd gwely gofynnol yn cael eu cyfrif fel nad oes rhaid i neb rannu ystafell wely oni bai eu bod yn: gwpl, dau blentyn o dan 10 oed; neu, ddau o'r un rhyw os ydynt o dan 16 oed. Ni ddylai mwy na dau berson rannu unrhyw ystafell wely. Caniateir ystafell wely ychwanegol o dan rai amgylchiadau ar gyfer gofaluwyr dros nos rheolaidd, gofaluwyr maeth, a phlant anabl sy'n methu rhannu ystafell wely, a phobl sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Nid yw ystafelloedd gwely a ddefnyddir gan fyfyrwyr ac aelodau'r lluoedd arfog yn cael eu hystyried yn rhai 'sbâr' os ydynt i ffwrdd ac yn bwriadu dychwelyd adref. Mae rhent sy'n gymwys am Fudd-dal Tai/elfen dai y Credyd Cynhwysol yn cael ei leihau: 14 y cant am un ystafell wely sbâr a 25 y cant am ddwy ystafell wely sbâr neu fwy. Yn Awst 2018, cafodd 25,890 neu 12 y cant o dderbynwyr Budd-dal Tai yng Nghymru ostyngiad yn eu dyfarniad wythnosol yn sgil y polisi hwn o gymharu â 35,710 ym May 2013. Mae hyn yn uwch na'r gyfran gyfwerth ar gyfer Prydain (9 y cant)¹⁰ yn Awst 2018. Ystyriwyd bod mwyafrif (81 y cant) y derbynwyr yr effeithiwyd arnynt yng Nghymru yn tanfeddiannu eu heiddo o un ystafell wely. Roedd y gostyngiad ystafell sbâr wythnosol cymedrig yng Nghymru yn Awst 2018 yn £15.83 o gymharu â £15.33 ym Mhrydain.</p> <p>Yn Rhagfyr 2015, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei hadroddiad terfynol o werthuso'r polisi hwn¹¹. Cynhaliwyd gwaith maes yn ystod 20 mis cyntaf gweithredu'r polisi sy'n rhoi cipolwg ar ymatebion hawlwyd (ymysg meysydd eraill). Canfu arolwg yr hawlwyd fod cyfran yr hawlwyd yr effeithiwyd arnynt a oedd wedi talu eu diffyg rhent cyfan wedi codi o 41 y cant yn 2013 i 50 y cant yn 2014, tra bod cyfran y rhai nad oedd wedi talu unrhyw swm o'u diffyg wedi gostwng o 20 y cant i 10 y cant. Canfu'r arolwg hefyd mai'r rhesymau mwyaf cyffredin dros beidio â chael eu heffeithio mwyach oedd canfod gwaith/cynnydd mewn enillion, ffrind neu berthynas yn symud i'r cartref neu newid yn oed plant a oedd yn golygu na ystyriwyd nhw fel rhai ag ystafell sbâr bellach. Mae'r arolwg landlordiaid yn awgrymu bod tua 45,000 o hawlwyd yr effeithiwyd arnynt ym Mhrydain wedi symud i gartref llai yn y sector cymdeithasol erbyn hydref 2014, o gymharu â thua 24,000 yn hydref 2013. Amcangyfrifwyd bod llai na 2.2 y cant o hawlwyd yr effeithiwyd arnynt wedi symud i'r sector rhent preifat.</p>

⁹ Emmerson, C., Joyce, R., a Waters, T. (2019) [Stealthy changes mean that soon one in five families with children will be losing some Child Benefit](#)

¹⁰ Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data o Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau

¹¹ Clarke, A. et al (2015) [Removal of the Spare Room Subsidy evaluation: final report](#)

Diwygiad lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad ac effaith debygol
3. Cap budd-dal tai	Cyflwynwyd yn Ebrill 2013 yn wreiddiol, gyda gostyngiad i'r cap budd-dal yn cael ei weithredu rhwng Tachwedd 2016 – Ionawr 2017	<p>Ers Tachwedd 2016, mae'r cap budd-dal tai, sy'n berthnasol i hawlwr o oedran gweithio, wedi'i dorri o £26,000 (£18,200 i oedolion sengl heb blant) i £23,000 (£15,410 i oedolion sengl heb blant) yn Llundain a £20,000 (£13,400 i oedolion sengl heb blant) y tu allan i Lundain. Nod y polisi yw gwella cymelliadau gwaith; hyrwyddo mwy o degwch rhwng y rhai ar fudd-daliadau allan o waith a threthdalwr mewn cyflogaeth, gan ddarparu cymorth i bobl fwyaf agored i niwed; a lleihau gwariant budd-daliadau.</p> <p>Mae'r cap yn berthnasol i'r incwm cyfunol o fudd-daliadau'n cynnwys: Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ac eithrio pan mae'r Elfen Gymorth yn y taliad), Budd-dal Tai, Budd-dal Plant, Credyd Treth Plant, budd-daliadau eraill fel y Budd-dal Analluogrwydd a'r Lwfans Profedigaeth, a'r Credyd Cynhwysol. Mae eithriadau'n bodoli ar gyfer cartrefi mewn gwaith, Lwfans Byw i'r Anabl a'r rhai yng ngrŵp cymorth Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, neu dderbynwyr Lwfans Gofalwr, Lwfans Gwarcheidwad ac elfen gofalwr y Credyd Cynhwysol.</p> <p>Mae'r cap budd-daliadau'n cael ei weithredu ar gyfer y cartref sydd wedi'u capio fwyaf drwy leihau faint o Fudd-dal Tai a dderbynnir, fel na fydd cyfanswm eu budd-daliadau'n fwy na lefel y cap mwyach. Gellir gweithredu'r cap budd-daliadau drwy'r Credyd Cynhwysol hefyd. O dan y Credyd Cynhwysol mae'r cap yn cael ei weithredu ar y dyfarniad llawn nid y costau tai yn unig.</p> <p>Budd-dal Tai</p> <p>Mae ychydig dros 8,000 o gartrefi yng Nghymru wedi cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio ar ryw bwynt ers cyflwyno'r cap yn Ebrill 2013 ac Awst 2018.</p> <p>Yn Awst 2018, cafodd 2,870 o gartrefi yng Nghymru eu Budd-dal Tai wedi'i gapio (5% o gyfanswm Prydain). O'r rhain, roedd y gyfran uchaf yng Nghaerdydd (20%), Casnewydd (8%) ac Abertawe (7%). Cafwyd gostyngiad o 2%, neu 70 o gartrefi, ar y chwarter blaenorol (Mai 2018). Mae'r gostyngiad hwn yn deillio o'r ffaith bod llai o gartrefi wedi cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio am y tro cyntaf y chwarter hwn o gymharu â nifer y cartrefi sy'n symud oddi ar y cap.</p> <p>Cafodd 270 o gartrefi yng Nghymru eu Budd-dal Tai wedi'i gapio am y tro cyntaf y chwarter hwn (Mehefin 2018 i Awst 2018). Cyrhaeddodd nifer y cartrefi yng Nghymru sy'n cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio am y tro cyntaf ei uchafbwynt yn Rhagfyr 2016 (1,460 o gartrefi), yn sgil cyflwyno'r lefelau capio is. Er bod nifer y cartrefi a oedd yn cael eu capio am y tro cyntaf wedi gostwng yn sylweddol ers hynny, mae nifer y cartrefi sy'n cael eu capio am y tro cyntaf wedi parhau i fod yn uwch nag ychydig cyn dechrau gweithredu'r lefelau capio is.</p> <p>Ledled Cymru, roedd 87% (2,500) o gartrefi a gafodd eu capio yn Awst 2018 wedi'u capio dim ond oherwydd bod y lefelau capio is wedi'u cyflwyno.</p>

Diwygiad Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad ac effaith debygol
Cap budd-dal tai (parhad)		<p>Yn Awst 2018, roedd bron y cyfan (99.5% neu 2,860) o gartrefi yng Nghymru a gafodd eu Budd-dal Tai wedi'i gapio yn cynnwys plant; roedd gan 90% (2,570) rhwng 1 a 4 plentyn a 10% (290) 5 neu fwy o blant. Roedd 77% (2,200) o gartrefi yng Nghymru a oedd wedi cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio yn Awst 2018 yn deuluoedd un rhiant. Mae Budd-dal Tai a Chredyd Treth Plant yn dod o dan gwmpas y cap Budd-dal Tai, felly mae cartrefi sy'n derbyn y budd-daliadau hyn yn fwy tebygol o fynd yn uwch na therfyn y cap a chael eu capio.</p> <p>Yn Awst 2018, cafodd 61% (1,770) o gartrefi capiedig Cymru eu Budd-dal Tai wedi'i gapio £50 neu lai yr wythnos, gyda 29% (830) o gartrefi eraill yn cael eu capio £50 i £100 yr wythnos. Roedd 10% (280) o gartrefi capiedig wedi cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio o fwy na £100 yr wythnos, yn cynnwys 0.5% (10) a oedd wedi'u capio o fwy na £150 yr wythnos.</p> <p>Credyd Cynhwysol</p> <p>Ers Hydref 2016, mae 110 o gartrefi yng Nghymru (15,000 ym Mhrydain) wedi cael eu Credyd Cynhwysol wedi'i gapio. Yn Awst 2018, roedd 70 o gartrefi yng Nghymru (7,770 o gartrefi ym Mhrydain) wedi cael eu Credyd Cynhwysol wedi'i gapio. Ychydig yw hyn o gymharu â nifer y cartrefi sydd wedi cael eu Budd-dal Tai wedi'i gapio. Fodd bynnag, mae disgwyl i nifer y cartrefi ar Gredyd Cynhwysol gynyddu wrth barhau â'r broses o'i gyflwyno.</p> <p>Roedd yr holl gartrefi yng Nghymru a oedd wedi cael eu Credyd Cynhwysol wedi'i gapio yn Awst 2018 yn cynnwys plant; roedd 43% (30) yn deuluoedd un rhiant a 57% (40) yn gyplau gyda phlant. Yn Awst 2018, roedd mwyafrif (71% neu 50) o gartrefi yng Nghymru a oedd wedi cael eu Credyd Cynhwysol wedi'i gapio gan swm sy'n gyfwerth i £50 neu lai yr wythnos.</p> <p>Mae Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Senedd y DU yn cynnal ymchwiliad i'r cap budd-daliadau¹². Mae'r ymchwiliad yn ceisio gweld a yw'r cap wedi ysgogi newid yn ymddygiad hawlwr ac wedi sicrhau arbedion i Ganghellor y DU, yn ôl y bwriad. Mae'r cwestiynau canlynol yn cael eu hystyried yn arbennig: I ba raddau mae ymddygiad hawlwr wedi ymateb i'r cap, drwy symud i waith, symud tŷ ac ati? Pa effaith mae'r cap is yn ei chael ar gymelliadau, beth yw'r rhwystrau i newid ymddygiad a sut gellir eu goresgyn? A yw'r cap yn mynd i'r afael â chyfraddau sylfaenol uwch o Fudd-dal Tai a chynhaliath plant mewn ffordd deg? Oes yna ganlyniadau anfwriadol (cadarnhaol neu negyddol) i'r cap? Wrth gyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor yn Hydref 2018, cyfeiriodd Dirprwy-Gyfarwyddwr yr IFS, Carl Emmerson, at waith ymchwil blaenorol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a adolygwyd gan yr IFS. Roedd hwn yn dangos bod y cap budd-daliadau wedi cynyddu'r tebygolrwydd o gartref yn symud i Gredyd Treth Gwaith, a symud i waith cyflogedig o bosibl. Cafodd y rhai a oedd wedi colli llawer o arian eu cymell i symud tŷ, ond ni symudodd y mwyafrif mawr i waith na symud tŷ¹³.</p>

¹² Y Pwyllgor Gwaith a Phensiynau (DWP) [Benefit cap inquiry](#)

¹³ [Dirprwy-Gyfarwyddwr yr IFS, Carl Emmerson yn rhoi tystiolaeth ar y cap budd-daliadau](#); Emmerson, C. a Joyce, R. (2014) [Coping with the cap?](#)

Diwygiad lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad ac effaith debygol
4. Cyflwyno Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn lle Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)	Mehafin 2013 ar gyfer hawlwr newydd yng Nghymru ac o Hydref 2013 i'r rhai sy'n derbyn DLA	<p>PIP yw'r prif fudd-dal oedran gweithio a delir i bobl anabl a allai fod yn wynebu costau byw ychwanegol, ac wedi bod yn disodli DLA yn raddol ers 2013. Nid yw'n dibynnu ar brawf modd ac mae'n cael ei dalu waeth a yw'r unigolyn yn gallu, neu yn gweithio.</p> <p>Ym Mehafin 2013, cyflwynwyd PIP ar gyfer hawliadau newydd yng Nghymru. O Hydref 2013, gan ddefnyddio proses gyflwyno strwythuredig i ardaloedd cod post, gwahoddwyd derbynwyr o oedran gweithio i hawlio PIP os: yw DWP yn derbyn gwybodaeth am newid mewn anghenion gofal neu symud a oedd yn golygu bod angen adnewyddu eu hawliad; oedd dyfarniad tymor penodol yr hawlydd ar fin dod i ben; plant yn troi'n 16 oed (oni bai eu bod yn derbyn DLA o dan y rheolau arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol); neu, bod yr hawlydd wedi dewis hawlio PIP yn lle DLA. O fis Gorffennaf 2015, dechreuwyd gwahodd gweddill derbynwyr DLA o oedran gweithio i hawlio am PIP. Y disgwyl oedd y byddai'r broses o drosglwyddo hawlwr DLA i PIP wedi'i chwblhau erbyn canol 2019. Fodd bynnag, nid dyma'r sefyllfa o reidrwydd, gan fod DWP yn parhau i adolygu cyflymder yr ailasesiadau o DLA i PIP yn rheolaidd i gael y cydbwysedd cywir rhwng gwahodd hawliadau am PIP a sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol i hawliadau newydd ac adolygiadau o ddyfarniadau.</p> <p>Yn y chwarter at Chwefror 2018, cafwyd 126,100 o daliadau achosion DLA yng Nghymru, sef 6 y cant o gyfanswm Prydain. Mae hyn yn is na'r 244,840 yn y chwarter at Mai 2013 (h.y. cyn dechrau cyflwyno PIP)¹⁴.</p> <p>Rhwng Ebrill 2013 a Gorffennaf 2018, yng Nghymru, roedd cyfraddau dyfarniadau (hawliadau normal h.y. y rhai nad ydynt yn cael eu prosesu o dan 'reolau arbennig ar gyfer pobl â salwch terfynol', a heb gynnwys hawliadau a dynnwyd yn ôl) ar gyfer hawliadau PIP newydd yn 42 y cant a 72 y cant ar gyfer hawliadau ailasesu DLA. Gwrthodwyd 58 y cant o hawliadau PIP newydd a 28 y cant o hawliadau ailasesu DLA. Dyfarnwyd PIP¹⁵ i bron y cyfan o hawlwr rheolau arbennig (salwch terfynol).</p> <p>Mae ystadegau DWP yn dangos bod gan 138,370 o bobl yng Nghymru hawliad PIP yn y broses o gael ei dalu, cynnydd o 4,340 (neu 3 y cant) ar ffigwr y chwarter blaenorol (Ebrill 2018). O'r hawliau hyn, roedd 81,380 yn hawliadau ailasesu gan DLA, sy'n gyfwerth â 59 y cant o gyfanswm llwyth achosion PIP (53 y cant ym Mhrydain).</p> <p>Mae amseroedd clirio'n ymwneud â'r amser mae'n ei gymryd i DWP broses a dod i benderfyniad ar achos. Ym mis Gorffennaf 2018, o'r hawliadau newydd a gliriwyd o dan reolau arferol, cymerodd yr hawliad PIP cyfartalog ym Mhrydain¹⁶: 14 wythnos o'r pwynt cofrestru i benderfyniad gael ei wneud ar yr hawliad; a 9 wythnos o'r pwynt atgyfeirio i'r darparwr asesu i benderfyniadau gael ei wneud ar yr hawliad. Mae hwn yn ostyngiad sylweddol o'r</p>

¹⁴ Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data o adnodd [Stat-Xplore](#) DWP

¹⁵ Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data o adnodd Stat-Xplore DWP. Mae cyfradd y dyfarniadau'n cynnwys pob maeth o gliariadau, yn cynnwys gwaharddiadau budd-dal, cyn ac ar ôl atgyfeirio i Ddarparwr Asesu.

¹⁶ Nid oes data ar gael ar gyfer Cymru.

Diwygiad lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad ac effaith debygol
Cyflwyno PIP yn lle DLA (parhad)		<p>uchafbwynt yng Ngorffennaf 2014 (42 a 35 wythnos yn y drefn honno). Er bod amseroedd clirio o'r pwynt atgyfeirio i'r darparwr asesu i wneud penderfyniad wedi cynyddu'n ddiweddar o 6 wythnos yn Ebrill 2018 i 9 wythnos yng Ngorffennaf 2018, maent dal i fod 2 wythnos yn is na'r adeg hon y llynedd¹⁷.</p> <p>Er mai dim ond pobl 16 i 64 oed sy'n gallu gwneud hawliad newydd am PIP, gall rhai hawlwr 65 oed a throsodd fel hawlwr o oedran gweithio barhau i fod ar PIP pan fyddant yn troi'n 65 oed. Ym mis Gorffennaf 2018, o'r hawliadau PIP i'w talu yng Nghymru, roedd tua 117,060 (85 y cant) yn hawlwr o oedran gweithio. Roedd y 21,300 (15 y cant) arall yn 65 oed neu drosodd.</p> <p>Ar hawliadau rheolau arferol yng Nghymru yng Ngorffennaf 2018 (h.y. 99% o'r holl hawliadau i'w talu), mae data DWP yn dangos bod¹⁸:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 22% yn derbyn Dyfarniad Byw Dyddiol yn unig, 3% yn derbyn Dyfarniad Symudedd yn unig, a 75% yn derbyn y ddau. • 67% yn derbyn o leiaf un elfen ar y gyfradd uwch, gyda 31% o'r rhain yn derbyn y lefel uchaf o ddyfarniadau ('uwch/cyfraddau uwch') ar gyfer elfennau Symudedd a Byw Dyddiol. • 23% wedi'u talu am lai na blwyddyn. <p>Gall hawlwr sydd am herio penderfyniad ar eu hawliad PIP ofyn i DWP ailystyried ei benderfyniad yn y lle cyntaf. Gelwir hyn yn 'ailystyriaeth orfodol' ac mae'n cynnwys ystyried y rhesymau dros yr herio a chwblhau adolygiad o'r penderfyniad cychwynnol. Mae ystadegau DWP yn dangos bod 832,000 o ailystyriaethau gorfodol wedi'u cofrestru ym Mhrydain yn erbyn hawliadau rheolau arferol erbyn diwedd Gorffennaf 2018. Roedd 804,300 o ailystyriaethau gorfodol ar gyfer ailystyriaethau gorfodol wedi'u clirio erbyn diwedd Gorffennaf 2018. Erbyn diwedd Gorffennaf 2018, arweiniodd 17% o ailystyriaethau gorfodol hawliadau newydd a 23% o ailystyriaethau gorfodol DLA a ailaseswyd (ac eithrio rhai a dynnwyd yn ôl) at newid dyfarniad¹⁹. Gall hyn gynnwys hawliadau a wrthodwyd o'r blaen ond sy'n cael eu dyfarnu yn awr, neu hawliadau a ddyfarnwyd o'r blaen ond bod ailystyriaeth wedi arwain at newid yn yr hawliad (e.e. diwygio sgôr asesu) a bod hyn wedi effeithio ar lefel y dyfarniad.</p> <p>Os nad yw hawlwr yn hapus gyda chanlyniad yr ailystyriaeth orfodol gallant gyflwyno apêl i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Mae Tabl 1 yn dangos bod cyfran sylweddol a chynyddol o apelau PIP a DLA a oedd wedi'u clirio mewn gwrandawriad wedi'u dyfarnu o blaid yr hawlydd yn ystod y cyfnod o 2013-14 i 2017-18.</p>

¹⁷ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018) [Personal Independence Payment – Official Statistics](#). Data i Gorffennaf 2018

¹⁸ Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru gan ddefnyddio data o adnodd Stat-Xplore DWP

¹⁹ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018) [Personal Independence Payment – Official Statistics](#). Data i Gorffennaf 2018. Dim ffigurau ar gyfer Cymru.

Diwygiad Iles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad ac effaith debygol					
Cyflwyno PIP yn lle DLA (parhad)		Tabl 1: Nifer yr achosion o PIP a DLA a gafodd eu clirio mewn gwrandawriad a'r gyfran oedd o blaid yr hawlydd, Prydain					
			2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18
		Nifer yr achosion PIP a gliriwyd mewn gwrandawriad	81	7,147	49,742	70,329	83,886
		Penderfyniad o blaid yr hawlydd	26%	50%	61%	65%	68%
		Nifer yr achosion DLA a gliriwyd mewn gwrandawriad	58,348	13,944	7,346	6,550	6,635
		Penderfyniad o blaid yr hawlydd	42%	49%	56%	58%	60%
Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2018) Official Statistics - Tribunals and gender recognition certificate statistics quarterly: April to June 2018 Prif dablau							
Ym Mawrth 2017, ataliodd Llywodraeth y DU bobl rhag bod yn gymwys ar gyfer taliadau uwch o fewn elfen symudedd PIP am resymau "trallod seicolegol". Fodd bynnag, arweiniodd y penderfyniad hwn at her gyfreithiol gan ymgyrchwyr. Yn dilyn penderfyniad gan yr Uchel Lys yn Rhagfyr 2017 bod yr asesiadau PIP a gynhaliwyd hyd yn hyn wedi "gwahaniaethu'n amlwg" yn erbyn pobl â namau iechyd meddwl ²⁰ , cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Ionawr 2018 y byddai'n ailasesu pob hawliad PIP a wnaed hyd yn hyn (tua 1.6 miliwn). Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif y bydd y broses hon yn arwain at ddyfarniadau uwch ar gyfer hyd at 220,000 o hawlwr PIP, ar gyfanswm cost o tua £3.7 biliwn erbyn 2022-23 ²¹ .							
Ar y dechrau, roedd disgwyl y byddai PIP yn arwain at leihau llwyth achosion a gwariant o gymharu â DLA. Fodd bynnag, fel y nododd IFS ²² , nid yw wedi lleihau'r llwyth achosion. Er bod Cyllideb 2015 yn rhagweld y byddai'r llwyth achosion ar gyfer budd-daliadau anabled ym Mhrydain yn gostwng 6 y cant rhwng 2014-15 a 2017-18, mae data a rhagolygon DWP yn awgrymu y bydd yn codi 8 y cant dros y cyfnod hwn ²³ . Mae hyn, ynghyd â nifer uwch na'r							

²⁰ Uchel Lys Cymru a Lloegr (2017) [Transcript between Resolution Foundation v Secretary for State for Work and Pensions](#)

²¹ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2017) [Changes to the Personal Independence Payment eligibility criteria](#); Senedd y DU (2018) [PIP Back Payments](#)

²² Emmerson, C. a Sturrock, D. (2017) [Disability benefit spending and the recent change to regulations](#)

²³ Yn cynnwys y llwyth achosion ar gyfer DLA a PIP: DWP (2018) [Benefit expenditure and caseload tables 2018](#) Outturn and forecast: Spring Statement 2018

Diwygiad lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad ac effaith debygol
Cyflwyno PIP yn lle DLA (parhad)		<p>disgwyl o unigolion yn derbyn y cyfraddau PIP uwch, yn golygu bod gwariant ar fudd-daliadau anabledd yn parhau i gynyddu'n gryf mewn termau real, yn groes i ragolygon blaenorol. Er enghraifft, cynyddodd gwariant DLA a PIP ym Mhrydain o £16.3 biliwn yn 2014-15 i £18.3 biliwn yn 2017-18. Y ffigurau cyfwerth ar gyfer Cymru yw £1.2 biliwn yn 2014-15, yn cynyddu i £1.3 biliwn yn 2017-18²⁴. Ymhellach, mae OBR yn rhagweld y bydd gwariant ar DLA a PIP ym Mhrydain yn cynyddu o £18.7 biliwn yn 2018-19 i £23.6 biliwn yn 2023-24²⁵ (nid oes rhagolygon ar gael ar lefel Cymru).</p> <p>Comisiynodd DWP Ipsos MORI i gynnal tair ton o ymchwil yn ystod 2016 a 2017 i edrych ar brofiadau hawlwr PIP o'r broses hawliadau PIP gyflawn, o'r penderfyniad i ymgeisio am PIP i ganlyniad yr apêl (os yn berthnasol). Roedd pob ton yn cynnwys arolwg a chyfweiliadau ansoddol i ystyried un cam o'r broses²⁶. Dyma oedd canlyniadau'r ymchwil, yn ôl casgliadau Ipsos Mori:²⁷</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae proses hawliadau PIP yn gweithio'n dda ar y cyfan: ym mhob cam roedd mwyafrif yr hawlwr yn deall y broses ac yn ei gweld mor hawdd ag yr oeddynt yn ei ddisgwyl neu'n haws. Roedd y ddealltwriaeth a adroddwyd o bob elfen o'r broses a'r camau oedd yn rhaid eu cymryd yn dda. Fodd bynnag, nid oedd dealltwriaeth o gamau diweddarach y broses nad oedd yr hawlwr wedi'u cyrraedd eto cystal. • Er bod yr arolwg yn dangos bod mwyafrif yr hawlwr yn gadarnhaol am bob elfen o'r broses hawliadau, nid oedd lleiafrif sylweddol yn teimlo felly. Awgrymodd yr ymchwil ansoddol fod yna is-set o hawlwr a oedd yn canfod y broses yn anodd i'w llywio, gan awgrymu bod rhai hawlwr (yn enwedig hawlwr mwy agored i niwed) angen mwy o gymorth gydol y broses. • Roedd gallu cael cymorth a chefnogaeth yn ystod y broses hawliadau yn bwysig iawn i hawlwr, yn arbennig ar gyfer dau gam: i gwblhau'r holiadur 'How your disability affects you' ac i fynd drwy'r broses ailystyried ac apelio. Roedd mwyafrif yr hawlwr yn derbyn cymorth yn eu hasesiad wyneb-yn-wyneb hefyd ac yn y triwlynys apelio os oeddynt yn cyrraedd y cam hwnnw, yn bennaf am resymau yn gysylltiedig â'u cyflwr iechyd neu ar gyfer cefnogaeth foisol. Roedd y rhai na fanteisiodd ar gymorth weithiau'n llai tebygol o herio eu penderfyniad gan nad oeddynt yn teimlo'n ddigon hyderus i apelio heb gymorth neu eu bod yn teimlo y byddai'n ormod o straen.

²⁴ Termau real (ffigurau 2018-19). Ffynhonnell: DWP (2018) [Benefit expenditure and caseload tables 2018](#) Benefit expenditure by country and region 1996/97 to 2017/18

²⁵ Ffynhonnell: OBR (2018) [Economic and fiscal outlook](#) Hydref 2018

²⁶ Yn y don gyntaf, canolbwyntiodd 1,106 o gyfweiliadau arolwg a 50 o gyfweiliadau ansoddol ar yr alwad ffôn gychwynol yn bennaf a chwblhau'r holiadur 'How your disability affects you'. Yn yr ail don, edrychodd 1,203 o gyfweiliadau arolwg a 50 o gyfweiliadau ansoddol ar brofiadau hawlwr o'r asesiad a'r camau penderfynu. Yn ystod y trydydd cam, canolbwyntiodd 1,205 o gyfweiliadau arolwg a 50 o gyfweiliadau ansoddol ar y prosesau ailystyriaeth orfodol ac apelio. Yn yr ail a'r trydydd don, roedd rhai o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn bobl newydd ac eraill yn hawlwr a gymerodd ran mewn ton flaenorol.

²⁷ Barry, J. et al (2018) [Personal Independence Payment Claimant Research – Final Report](#)

Diwygiad Iles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad ac effaith debygol
Cyflwyno PIP yn lle DLA (parhad)		<ul style="list-style-type: none"> • Roedd mwyafrif y rhai a ddefnyddiodd ffynonellau cymorth DWP (e.e. llinell gymorth) mewn gwahanol gamau yn teimlo eu bod yn ffynonellau gwybodaeth a chyngor defnyddiol. Fodd bynnag, nid oeddynt yn cael eu defnyddio cymaint ag y gallent bob amser, am amryw o resymau: ddim yn gwybod sut i ddefnyddio'r rhyngwyd neu ddim cysylltiad ag ef; sgiliau llythrennedd gwael/gallu canolbwytio isel neu broblemau cof a oedd yn effeithio ar allu hawlwr i ddarllen a deall y wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan DWP; hawlwr angen llawer mwyo gymorth wyneb-yn-wyneb, neu rywun a allai ffonio'r llinell gymorth, mynd ar y wefan, neu ysgrifennu llythyrau ar eu rhan; methu ymddiried yn DWP i ddarparu cyngor diduedd, neu ddymiad i gael ffynonellau gwybodaeth eraill a theimlo bod yr arweiniad yn fwy annibynnol; a ddim yn gwybod bod yr adnoddau hyn ar gael. • Yn ogystal, cysylltodd ychydig o hawlwr â DWP, fel arfer i ofyn cwestiynau trafodaethol am y broses a beth oedd angen iddynt ei wneud, yn hytrach nag am gyngor a chymorth cyffredinol. Yn lle hynny, gofynnodd hawlwr am wybodaeth a chyngor o fannau eraill, yn enwedig ffrindiau a theulu, elusennau a gweithwyr ieuchyd proffesiynol. • Dangosodd yr ymchwil fod arferion darparu tystiolaeth i gefnogi hawliad yn amrywio gan hawlwr gydol y broses hawlio. Yn ystod y cais cychwynnol, ni wnaeth grŵp bychan ddarparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi eu hawliad ac roedd eraill yn dweud eu bod am gyflwyno tystiolaeth ond nad oeddynt yn gallu gwneud hynny. Yn ystod y camau asesu, ailystyriaeth orfodol ac apelio, darparodd llawer o hawlwr dystiolaeth ond weithiau roedd y dystiolaeth hon yr un dystiolaeth â ddarparwyd eisoes yn hytrach na thystiolaeth newydd, ac roedd rhai yn dal i fethu darparu tystiolaeth. Roedd y rhwystrau i ddarparu tystiolaeth yn cynnwys methu sylweddoli y byddai'n ddefnyddiol, heb ei chael mewn pryd, ac amharodrwydd i dalu amdani neu fethu gwneud hynny. Yn ogystal, roedd rhai hawlwr o dan yr argaff y byddai DWP yn cael tystiolaeth gan eu meddyg teulu/gweithwyr meddygol proffesiynol eraill, neu y byddai'r broses asesu'n cynnwys archwiliad meddygol, felly nid oeddynt yn deall pwysigrwydd cyflwyno tystiolaeth eu hunain. • Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod amser yr asesiad wyneb-yn-wyneb yn gyfleus a'r lleoliad yn hygyrch, ond roedd cyfran llai (er dal yn fwyaf) yn teimlo bod yr asesiad yn hawdd i'w gyrraedd. Unwaith roeddynt yn yr asesiad, er bod y mwyafrif yn dweud eu bod yn cael gwrandawriad a'u bod yn gallu egluro sut mae eu cyflwr yn effeithio arnyn nhw, roedd gan leiafrif bryderon am ymddygiad yr asesydd. Roedd hyn yn gysylltiedig â bod yn fwy tebygol o ofyn am ailystyriaeth orfodol.

Diwygiad Iles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad ac effaith debygol
Cyflwyno PIP yn lle DLA (parhad)		<ul style="list-style-type: none"> • Roedd yna gysylltiadau clir rhwng y dyfarniad a dderbyniwyd (i ddechrau neu ar ôl ailystyriaeth orfodol neu apêl) a safbwyntiau hawlwr am bob cam o'r broses. Roedd y rhai na dderbyniodd ddyfarniad yn dueddol o fod â barn fwy negyddol am y prosesau asesu, ailystyriaeth orfodol ac apelio na'r rhai a oedd wedi derbyn dyfarniad. Rheswm posibl am hyn oedd bod y rhai nad oedd yn gallu egluro eu hunain yn llai tebygol o fod yn llwyddiannus, neu fod eu hanfodlonrwydd am y canlyniad yn effeithio ar eu canfyddiadau o'r broses wrth gael eu holi amdani wedyn. • Er bod y rhan fwyaf o hawlwr yn cytuno eu bod yn deall y llythyr penderfyniad, pan ofynnwyd iddynt am y manylion, roedd yna dystiolaeth nad oedd pawb yn deall eu dyfarniad yn llawn. Roedd y rhai na dderbyniodd ddyfarniad yn debygol o deimlo nad oeddynt yn deall agweddau penodol ar y wybodaeth yn y llythyr penderfyniad, a allai effeithio ar eu penderfyniadau dilynol i ofyn am ailystyriaeth orfodol ac apêl. Nid oedd rhai hawlwr yn deall yr hysbysiad ailystyriaeth orfodol a phenderfyniadau apelau yn llawn ac roeddynt yn teimlo, yn enwedig ar ôl ailystyriaeth orfodol, nad oedd yr holl dystiolaeth oedd ar gael wedi cael ei hystyried wrth ddod i benderfyniad. • O'r rhai a dderbyniodd PIP, y defnydd mwyaf cyffredin ar gyfer yr arian oedd i dalu costau byw a gwella ansawdd bywyd, gyda rhai'n nodi y byddai'n rhoi mwy o annibyniaeth iddynt neu'n eu galluogi i fyw'n fwy annibynnol. <p>Canfu adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Gwaith a Phensiynau Senedd y DU²⁸, a ystyriodd filoedd o brofiadau hawlwr unigol o broses hawlio PIP ac ESA (o'r ffurflen gais i'r apêl derfynol), bod methiannau contract cyhoeddus wedi arwain at golli ymddiriedaeth sy'n berygl o danseilio gweithrediad y budd-daliadau hyn. Mae'r adroddiad yn nodi bod hyn wedi golygu costau dynol anghynaliadwy i hawlwr a chostau ariannol i bwrs y wlad. Mae pryder am allu'r contractwr i gynnal asesiadau cywir yn ganolog i'r diffyg ymddiriedaeth hwn, ac roedd hon yn thema graidd ailadroddus. Mae'r adroddiad yn datgan bod y diffiniad o adroddiad "derbyniol" yn gadael digon o le i adroddiadau sy'n llawn camgymeriadau a hepgoriadau, ond er gwaethaf y bar isel hwn, methodd y tri chontractwr gyrraedd eu targed allweddol (h.y. bod llai na 3 y cant o'u hadroddiadau wedi'u hystyried yn "annerbyniol") mewn unrhyw gyfnod unigol. Mae'r adroddiad yn dangos bod 56 y cant o adroddiadau Capita wedi'u hystyried fel rhai o ansawdd annerbyniol dros y misoedd diwethaf. Er bod y contractau'n ceisio cyflwyno profion effeithlon, cyson a gwrthrychol i asesu cymhwysedd am fudd-daliadau, mae'r Pwyllgor yn adrodd ei bod hi'n anodd gweld sut y cyflawnwyd y nodau hyn.</p>

²⁸ Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Tŷ'r Cyffredin (2018) [PIP and ESA assessments](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
<p>5. Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol</p>	<p>O fis Ebrill 2014.</p> <p>Y cam nesaf a fwriedir ar gyfer y broses o gyflwyno Credyd Cynhwysol yw peilot o 'ymfudo a reolir'. Unwaith i 10,000 o hawlwr gael eu symud i Gredyd Cynhwysol fel rhan o'r gwaith ymfudo a reolir, ni chaiff hysbysiadau ymfudo eraill eu cyhoeddi. Bydd Llywodraeth y DU yn adrodd ar ganlyniadau'r peilot cyn cyflwyno deddfwriaeth i ymestyn y broses ymfudo a reolir.</p> <p>Bydd y peilot yn cychwyn ym mis Gorffennaf 2019 ac mae'r adran gwaith a phensiynau'n disgwyl i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno'n llawn erbyn 2023. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl dyddiad cyflawni hwyrach, sef canol 2024.</p>	<p>Un taliad misol ar gyfer pobl sydd mewn gwaith neu allan o waith yw Credyd Cynhwysol. Mae'n disodli chwe budd-dal a chredydau treth sy'n seiliedig ar brawf modd, sef: Lwfans Ceisio Gwaith Seiliedig ar Incwm, y Budd-dal Tai, y Credyd Treth Gwaith, Credydau Treth Plant, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm a Chymorth Incwm.</p> <p>Gwariant o'i gymharu â'r system etifeddol</p> <p>Bellach, mae disgwyl i Gredyd Cynhwysol fod yn fwy hael i hawlwr na'r system etifeddol, fel y nodir yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol 2018²⁹. Mae hyn yn sgil cyfuniad o newidiadau i'r rhagolygon ac effaith Cyllideb 2018. Fodd bynnag, mae'r effaith gyffredinol ar incwm yn ddibynnol ar y graddau y cynyddir nifer y bobl sy'n manteisio arno, sy'n un o brif amcanion Credyd Cynhwysol. Fel yr amlinellir gan y 'Resolution Foundation', os llwyddir i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar Gredyd Cynhwysol fel y rhagwelir gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, byddai'r system newydd £1.6 biliwn yn fwy hael nac y byddai'r system etifeddol y mae'n ei disodli wedi bod erbyn 2023-24, gyda 700,000 o deuluoedd ar eu hennill, a'r potensial i leihau tlodi. Fodd bynnag, os na welir y cynnydd hwn o ran nifer y bobl sy'n manteisio, yna bydd Credyd Cynhwysol £1.5 biliwn yn llai hael na'r system etifeddol.³⁰ Hyd yn oed os yw Credyd Cynhwysol, ar gyfartaledd, yn rhoi yn hytrach na'n cymryd i raddau bychan, mae'n dal i fod yn newid sylweddol o ran enillwyr a chollwyr - ac mae angen ystyried hyn yng nghyd-destun y toriadau sylweddol i fudd-daliadau oedran gweithio sydd wedi'u cyflwyno ers 2015, a'r toriadau sy'n dal i ddod.</p> <p>Credyd Cynhwysol: Enillwyr a Chollwyr</p> <p>Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn adrodd y bydd traean o aelwydyddhamgylchiadau'n hawl i dderbyn rhywfaint o Gredyd Cynhwysol. O'r rheiny, bydd gan oddeutu traean (2.4 miliwn) o leiaf £1,000 yn llai o dan Gredyd Cynhwysol nag o dan y system etifeddol a bydd gan oddeutu chwarter (1.7 miliwn o bobl) o leiaf £1,000 yn fwy'r flwyddyn. Dyma'r effeithiau tymor canolig, gan nid yw'n fwriad i bobl (nad yw eu hamgylchiadau'n newid) golli arian wrth symud i Gredyd Cynhwysol. Yn ôl math o deulu, bydd bron pawb sydd mewn gwaith yn ennill neu'n colli rhywbeth (hy. mwy na £100 y flwyddyn). Mae'r rheiny sydd mewn gwaith ac y mae ganddynt blant yn arbennig o debygol i fod ar eu hennill. I'r rheiny sydd allan o waith, prin iawn yw'r rhai fydd yn ennill o fwy na £100 y flwyddyn, a bydd cyfran go fawr yn colli symiau sylweddol (mwy na £1,000 y flwyddyn)³¹.</p>

²⁹Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2018) [Economic and Fiscal Outlook](#) Hydref 2018

³⁰ Resolution Foundation (2018) [Back in credit? Universal Credit after Budget 2018](#)

³¹ Johnson, P. (2018) 'Autumn Budget 2018: IFS analysis' [Sylwadau Agoriadol Paul Johnson](#); Waters, T. (2018) [Personal tax and benefit measures](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p><i>Effaith ar gymhelliannau gwaith a chyflogaeth</i></p> <p>Mae Achos Busnes Llawn y Rhaglen Credyd Cynhwysol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, yn amcangyfrif y bydd cynnydd o 200,000 o bobl mewn cyflogaeth gadarn o ganlyniad i Gredyd Cynhwysol.³² Priodolir hyn i dri ffactor: cymhelliannau gwaith ariannol (gan gynyddu cyflogaeth gan 110,000 o bobl); amodoldeb cynyddol (gan gynyddu cyflogaeth gan 30,000 o bobl); a, symlrwydd y system/trosglwyddo llyfnach i mewn i waith (gan gynyddu cyflogaeth gan 30,000 o bobl).</p> <p>Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn adrodd eu bod nhw, a'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn amau na fydd hi fyth yn bosibl mesur a gaiff nod Credyd Cynhwysol o gael 200,000 o bobl i mewn i waith ei gyflawni. Mae hyn, a'r amserlen estynedig a'r gost o gynnal Credyd Cynhwysol o'i gymharu â'r system fudd-daliadau y mae'n ei disodli, (ee. cost o £699 fesul hawliad ym mis March 2018 o'i gymharu â £173 fesul hawliad erbyn 2024-25, sy'n uchelgeisiol iawn) wedi arwain y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i ddod i'r casgliad nad yw Credyd Cynhwysol yn cynnig gwerth am arian nawr, ac na ellir profi ei werth am arian yn y dyfodol.³³</p> <p>Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd y 'Resolution Foundation' ddiweddariad o ddadansoddiad o Gredyd Cynhwysol ar gymhelliannau gwaith ariannol yn sgil y newidiadau a gyhoeddwyd i'r Gyllideb yn 2018³⁴. Dyma'r prif ganfyddiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcangyfrifir y bydd y cynnydd i rai lwfansau gwaith Credyd Cynhwysol a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2018 yn cynyddu nifer y teuluoedd sy'n gweithio sy'n ennill o'r newid i Gredyd Cynhwysol gan 200,000, i fyny o 2.2 miliwn o deuluoedd i 2.4 miliwn o deuluoedd. Ymhlith teuluoedd sy'n gweithio gyda phlant, mae'r nifer (1.5 miliwn) yr amcangyfrifir y bydd mwy o arian ganddynt o dan Gredyd Cynhwysol bellach yn gyfartal â'r nifer (1.5 miliwn) y rhagwelir y bydd ganddyn nhw lai o arian. • O'u cymharu â'r system Credyd Cynhwysol cyn Cyllideb Haf 2015, mae'r newidiadau diweddar i'r lwfansau gwaith a chyflwyno graddedig wedi adfer neu wella cymhelliannau i ymgymryd â gwaith ar gyflog isel i gyplau sydd â phlant ac sy'n rhentu; ac wedi lleihau cymhelliannau i ymgymryd â gwaith ar gyflog isel i rieni sy'n berchen ar eu cartref sy'n ennill cyflog cyntaf neu unig gyflog mewn cwpl, a phobl nad ydynt yn rhieni ac nad oes ganddynt anabledau. • Rhieni sengl a'r sawl sy'n ennill ail gyflog mewn cyplau sydd â phlant (ac mae'r ddau'n debygol iawn o fod yn fenyw) sy'n ymateb fwyaf i gymhelliannau gwaith. Mae pryder bod Credyd Cynhwysol yn parhau i gymell rhieni sengl (yn arbennig y rhai sy'n rhentu) i leihau eu horiau gwaith o dan y trothwy cyfredol, sef 16 awr, yn y system credydau treth. Yn ogystal, mae'n dal i fethu cynnig cymhelliannau digonol i rieni sy'n ennill yr ail gyflog.

³² Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018) [Universal Credit programme full Business Case summary'](#)

³³ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2018) [Rolling out Universal Credit](#)

³⁴ 'Resolution Foundation' (2018) [Back in credit? Universal Credit after Budget 2018](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Mae Credyd cymhwysol yn diddymu'r cyfraddau uchaf oll ar gyfer tynnu budd-daliadau yn y system etifeddol. Gall hyn adael pobl gyda llai na 10c am bob £1 ychwanegol a enillir. Fodd bynnag gan fod trethdalwyr ar Gredyd Cynhwysol yn cadw dim ond 25c o bob £1 ychwanegol a enillir (llai fyth os ydw i'n talu am gostau gofal plant), mae heriau'n parhau.</p> <p>Cyflwyno Credyd Cynhwysol (gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion).</p> <p>Cyn 5 Ebrill 2017, roedd Credyd Cynhwysol ar gael i geiswyr swyddi sengl ar draws Cymru gyfan ac i gyplau a theuluoedd yn Shotton, Sir y Fflint³⁵. Trosglwyddwyd i'r 'gwasanaeth Credyd Cynhwysol llawn' (hynny yw, hawliadau newydd gan bob math o hawlwr) yng Nghymru gam wrth gam o Ebrill 2017 – Rhagfyr 2018.</p> <p>Dechreuodd y trosglwyddiad ar 5 Ebrill 2017 yng Nghyngor Sir y Fflint. Yn raddol, dilynodd awdurdodau lleol eraill ac roeddent oll ar y gwasanaeth llawn erbyn diwedd Rhagfyr 2018. Ar ôl i'r gwasanaeth llawn gael ei gyflwyno, derbynir hawliadau gan bobl ar fudd-daliadau etifeddol y mae eu hamgylchiadau wedi newid. O ran yr hawlwr budd-daliadau etifeddol sy'n weddill, (hynny yw, y rheiny nad yw eu hamgylchiadau wedi newid), mae'r Adran gwaith a Phensiynau'n bwriadu peilota'r polisiau a'r rheoliadau ymfudo a reolir gyda nifer fechan o hawlwr rhwng Gorffennaf 2019 a Thachwedd 2020 i sicrhau bod ganddynt yr amser sydd ei angen i wneud pethau'n iawn. Nid yw wedi'i benderfynu eto pa hawlwr fydd y ffocws yn ystod y cyfnod hwn. Bwriedir cyflwyno ymfudo a reolir yn llawn rhwng Tachwedd 2020 a Rhagfyr 2023. Fodd bynnag, mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn disgwyl i'r dyddiad cyflwyno llawn fod yn hwyrach, tua chanol 2024. Mae hyn i'w gymharu â'r dyddiad cwblhau gwreiddiol, sef Hydref 2017. Roedd oedi cynnar oherwydd materion gweithredol, ond mae'r oedi diweddarach wedi bod oherwydd newidiadau i ddyluniad y polisi. Mae'r siart yn Atodlen 2 yn dangos yr oedi.</p> <p>Ystadegau Baich Achosion</p> <p>Mae ystadegau'r Adran gwaith a Phensiynau yn nhabl 2 yn dangos bod nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru wedi codi i 62,380 erbyn mis Hydref 2018, sy'n fwy na dwywaith y ffigur cyffelyb ar gyfer blwyddyn ynghynt (hynny yw, Hydref 2017). Mae nifer y bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn cyfateb i 5% o gyfanswm Prydain (1,317,320).</p>

³⁵ Dechreuwyd cyflwyno Credyd Cynhwysol yng Nghymru ar 7 Ebrill 2014 gyda hawliadau newydd gan grŵp cyfyngedig o geiswyr swyddi sengl, di-blant, yn Shotton. O Orffennaf 2014, yn Shotton, dechreuwyd cymryd hawliadau newydd gan gyplau nad oes ganddynt blant. Mae Credyd Cynhwysol ar gael i deuluoedd yn Shotton ers Ionawr 2015. O fis Chwefror 2015 i fis Mawrth 2016, ehangwyd Credyd Cynhwysol i weddill Cymru – dim ond am hawliadau newydd gan bobl sengl, pobl a fyddai fel arall yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Lwfans Ceisio Gwaith, gan gynnwys pobl â hawliadau Budd-dal Tai a hawliadau Credyd Treth Gwaith cyfredol.

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir					
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		Tabl 2: Nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol, Hydref 2014 – Hydref 2018					
			Hydref 2015	Hydref 2015	Hydref 2016	Hydref 2017	Hydref 2018
		Prydain	16,600	133,510	399,130	634,870	1,317,320
		Cymru	250	5,270	19,570	25,020	62,380
		Ffynhonnell: Stat-Xplore, yr Adran Gwaith a Phensiynau. Talgrynnir ffigurau i'r 10 agosaf.					
		Mae Tabl 3 yn dangos bod cyflwynaid cynnar Credyd Cynhwysol wedi'i ffocysu'n anghymesur ar wrywod, yr ifanc, a phobl sy'n edrych am waith. Mae hyn yn adlewyrchu'r meini prawf cymhwystra cyfyngedig oedd yn weithredol ar y pryd. Wrth i'r cyflwyno ehangu ac wrth i'r meini prawf cymhwystra ehangu, mae grwpiau eraill o'r ddemograffeg yn cynrychioli cyfran fwy a mwy o'r baich achosion.					
		Tabl 3: Nodweddion pobl ar Gredyd Cynhwysol, Cymru, Hydref 2014-Hydref 2018					
			% o nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru.				
			Hydref 2015	Hydref 2015	Hydref 2016	Hydref 2017	Hydref 2018
		O dan 30 oed	78	74	68	61	42
Gwryw	65	67	68	63	49		
Chwilio am waith	..	77	65	60	45		
Ffynhonnell: Stat-Xplore, yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nodiadau: Oherwydd y nifer fechan o bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru yn Hydref 2014, roedd eu rhannu fesul grŵp amodoldeb (gan gynnwys chwilio am waith) yn anystyrlon / amhosib ei ddangos.							
O'r cyfanswm o bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru yn Hydref 2018, roedd y cyfrannau mwyaf yng Nghaerdydd (15 y cant), Abertawe (14 y cant), Casnewydd (10 y cant), Sir y Fflint (9 y cant), Castell-nedd Port Talbot (9 y cant), a Wrecsam (8 y cant).							
Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd yn cyhoeddi ystadegau ar nifer yr aelwydydd sydd ar Gredyd Cynhwysol. Ym mis Awst 2018, roedd 47,560 o aelwydydd yng Nghymru ar Gredyd Cynhwysol, sy'n tua 5 y cant o'r 1 miliwn o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol ym Mhrydain. O'r aelwydydd hynny, roedd 39,530 (83 y cant) yn cael taliad Credyd Cynhwysol. Roedd nifer o resymau pam na fydd aelwyd yn derbyn taliad. Er enghraifft, pan fydd rhywun yn symud i mewn i waith, gall faint maent yn ei ennill olygu na fyddant bellach yn gymwys i dderbyn taliad Credyd Cynhwysol. Gan fod Credyd Cynhwysol yn ymateb i amgylchiadau newidiol, ac yn rhoi cymorth i bobl sydd mewn gwaith a phobl sydd allan o waith, gellir ailddechrau taliadau Credyd Cynhwysol hyd at chwe mis ar ôl taliad diwethaf aelwyd. Unwaith y bydd Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn, amcangyfrifwn y bydd tua 400,000 o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol ³⁶ .							

³⁶ Amcangyfrif Llywodraeth Cymru'n seiliedig ar ddata budd-daliadau oedran gwaith yr Adran Gwaith a Phensiynau a data credyd treth Cyllid a Thollau ei Mawrhydi. Mae'r amcangyfrif hwn hefyd yn cyd-fynd ag amcangyfrif [Cyngor ar Bopeth](#).

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir																			
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Ym mis Awst 2018, roedd 12 y cant o'r aelwydydd hyn ar Gredyd Cynhwysol. Ar ôl cyflwyno'n llawn, disgwyllir i oddeutu 7 miliwn o aelwydydd fod ar gredyd cynhwysol yn y Deyrnas Unedig gyfan (sy'n 1 o bob 3 teulu o oedran gwaith). Mae disgwyl i hyn gostio tua £60 biliwn y flwyddyn³⁷.</p> <p>Mae Tabl 4 yn dangos bod dros hanner (57 y cant) yr aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol yng Nghymru a oedd yn derbyn taliad ym mis Awst 2018 yn derbyn hawl tai. Roedd y cyfrannau a oedd yn derbyn hawliau eraill, megis hawliadau plentyn anabl a gofal plant, yn llawer llai.</p> <p>Tabl 4: Nifer yr aelwydydd yng Nghymru ar Gredyd Cynhwysol sy'n derbyn taliad, fesul hawl, Awst 2018</p> <table border="1" data-bbox="748 512 2175 651"> <thead> <tr> <th data-bbox="748 512 987 616">Gofalwr</th> <th data-bbox="987 512 1227 616">Plentyn</th> <th data-bbox="1227 512 1467 616">Gofal plant</th> <th data-bbox="1467 512 1706 616">Plentyn anabl</th> <th data-bbox="1706 512 1946 616">Tai</th> <th colspan="2" data-bbox="1946 512 2175 616">Gallu cyfyngedig i weithio</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td data-bbox="748 616 987 651">2,590</td> <td data-bbox="987 616 1227 651">13,230</td> <td data-bbox="1227 616 1467 651">600</td> <td data-bbox="1467 616 1706 651">790</td> <td data-bbox="1706 616 1946 651">22,630</td> <td colspan="2" data-bbox="1946 616 2175 651">3,410</td> </tr> </tbody> </table> <p>Ffynhonnell: Stat-Xplore, yr Adran Gwaith a Phensiynau. Nodiadau: Gall rhai aelwydydd dderbyn mwy nag un elfen (ee. yr elfen dai a'r elfen blentyn).</p> <p>Dyfarniadau Credyd Cynhwysol, ar gyfartaledd</p> <p>Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos mai £594 y mis oedd y swm Credyd Cynhwysol a dalwyd i aelwydydd yng Nghymru (£652 ym Mhrydain), a bod 63 y cant o ddyfarniadau'n cael eu talu i bobl sengl nad oedd ganddynt blant, tra bo dim ond 3 y cant o ddyfarniadau'n cael eu talu i gyplau nad oes ganddynt blant. Dros amser, mae cyfran gynyddol o ddyfarniadau Credyd Cynhwysol wedi'u talu i aelwydydd â phlant. Ym mis Awst 2017, talwyd 8 y cant o ddyfarniadau yng Nghymru i aelwydydd â phlant. Erbyn mis Awst 2018, roedd hyn wedi cynyddu i 33 y cant. Yr esboniad am hyn yw'r ffaith fod Credyd Cynhwysol dal wrthi'n cael ei gyflwyno i grwpiau ehangach o hawlwr, a bod llai o Ganolfannau Byd Gwaith yn derbyn hawliadau dim ond gan bobl sengl nad oes ganddynt blant.</p> <p>Trefniadau Talu Amgen</p> <p>Sefydli'r Trefniadau Talu Amgen os yw hawlwr yn ddyledus am ddau fis neu fwy, neu os yw'r hawlwr wedi tandalu'r rhent dro ar ôl tro ac wedi casglu ôl-ddyledion o swm sy'n gyfartal ag un mis o rent, neu'n fwy na hynny. O'r 22,630 o aelwydydd yng Nghymru sy'n derbyn taliad Credyd Cynhwysol gyda hawl i gael cymorth gyda chostau tai ym mis Awst 2018, mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos bod 20% (4,610) wedi cael eu costau tai wedi'u talu'n uniongyrchol i landlord (drwy Drefniadau Talu Amgen)³⁸.</p>						Gofalwr	Plentyn	Gofal plant	Plentyn anabl	Tai	Gallu cyfyngedig i weithio		2,590	13,230	600	790	22,630	3,410	
Gofalwr	Plentyn	Gofal plant	Plentyn anabl	Tai	Gallu cyfyngedig i weithio																
2,590	13,230	600	790	22,630	3,410																

³⁷ Waters, T. (2018) [Personal tax and benefit measures](#)

³⁸ Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata o adnodd Stat-Xplore yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Yn yr un modd, mae arolwg o hawlwr Credyd Cynhwysol gwasanaeth llawn ym Mhrydain a gomisiynwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos bod gan un rhan o bump o hawlwr sy'n derbyn taliadau Credyd Cynhwysol tuag at eu costau tai drefniadau talu amgen ar waith³⁹. Roedd y rheiny yr oedd incwm yr aelwyd yn llai na £10,000 yn fwy tebygol o fod â threfniadau talu amgen ar waith. Dywedodd bron i hanner (48 y cant) o'r rheiny sydd â threfniadau talu amgen ar waith eu bod wedi gofyn am hynny eu hunain, gyda menywod yn fwy tebygol eu bod wedi gofyn am drefniadau talu amgen na dynion (56 o fenywod o'i gymharu â 33 y cant o ddynion). Dywedodd ychydig dros un o bob tri (37 y cant) mai eu landlord a awgrymodd y trefniadau talu amgen, a dywedodd wyth y cant arall mae eu hyfforddwr gwaith a awgrymodd y trefniant.</p> <p>Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos mai dim ond 1 y cant (540) o aelwydydd yng Nghymru sy'n derbyn taliad Credyd Cynhwysol ym mis Awst 2018 a gafodd eu taliad wedi'i rannu dros y mis a'i dalu'n ddau neu'n bedwar rhandaliad drwy Drefniant Talu Amgen - Taliadau Mwy Aml. Ni chafodd fawr ddim aelwydydd eu taliad Credyd Cynhwysol wedi'i rannu rhwng aelodau cwpl, drwy Drefniant Talu Amgen - Rhannu Taliadau⁴⁰.</p> <p>Mae galwadau i rannu taliadau Credyd Cynhwysol cyplau fel mater o drefn yn hytrach na mewn amgylchiadau arbennig fel a wneir nawr (fe y mae'r nifer gyfyngedig o daliadau a rennir yn dangos). Mae Pwyllgor Dethol Senedd y DU ar Waith a Phensiynau hefyd wedi rhybuddio, fel rhan o'i ymchwiliad, ei fod wedi clywed tystiolaeth argyhoeddiadol y gallai taliadau Credyd Cynhwysol sengl wneud hawlwr sy'n dioddef cam-drin domestig yn agored i risg⁴¹. Mae'r Pwyllgor yn adrodd y gallai hawlwr Credyd Cynhwysol sy'n dioddef cam-drin domestig weld eu hincwm misol i gyd yn cael ei dalu i gyfrif banc eu partner. Gallai hyn gynnwys arian sydd ar gyfer y plant. Mae risg na fydd yr arian yn eu cyrraedd, sy'n golygu y byddai'n rhaid iddynt ddibynnu ar y partner sy'n cam-drin am eu holl anghenion sylfaenol - gallai hyn hefyd ei gwneud yn anoddach iddynt adael. Mae'r Pwyllgor yn nodi hefyd mai bwriad credyd cynhwysol yw adlewyrchu'r byd gwaith - fodd bynnag, nid yw cyflogeion, boed yn fenywod neu'n ddynion, yn gorfod cael eu cyflogau wedi'u talu i mewn i gyfrif banc eu partner, ac felly mae angen i'r Adran gwaith a Phensiynau wneud mwy i sicrhau bod taliadau Credyd Cynhwysol yn cael eu derbyn mewn ffordd deg gan bawb yn yr aelwyd sy'n hawlio.</p> <p>Rhagdaliadau</p> <p>Mae rhagdaliadau'r Credyd Cynhwysol yn daliadau budd-dal di-log ymlaen llaw ar gyfer y rheini sydd angen cymorth ariannol yn ystod y broses o drosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol neu wrth dderbyn Credyd Cynhwysol. Bydd angen i'r hawlwr fodloni'r meini prawf cymhwysra ar gyfer rhagdaliadau a byddant yn cael eu had-dalu dros gyfnod y cytunir arno.</p>

³⁹ IFF Research (2018) [Universal Credit Full Service Survey](#). Mae'r casgliadau hyn yn ymwneud â'r arolwg 2il gam a gynhelir wyth neu 9 mis ar ôl dechrau'r hawliad. Cynhaliwyd gwaith maes ym mis Awst a Medi 2017. Ail gam yr arolwg oedd cyfweiliadau gyda 1,004 o hawlwr.

⁴⁰ Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata o adnodd Stat-Xplore yr Adran gwaith a Phensiynau.

⁴¹ Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Waith a Phensiynau (2018) [Universal Credit and domestic abuse](#)

Diwygio lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau'n cynnig pedwar math o ragdaliadau Credyd Cynhwysol⁴²:</p> <ol style="list-style-type: none"> 'Rhagdaliad hawliad newydd': wedi'i anelu at hawlwr newydd sydd mewn angen ariannol - er mwyn rhoi cymorth iddynt nes eu bod yn derbyn eu taliad rheolaidd cyntaf o'r Credyd Cynhwysol. 'Rhagdaliad trosglwyddo budd-daliadau': wedi'i anelu at hawlwr newydd sy'n trosglwyddo o'u budd-daliadau presennol i'r Credyd Cynhwysol. Ar gyfer y math hwn o ragdaliad, nid oes yn rhaid i'r hawlwr ddangos angen ariannol. 'Rhagdaliad newid mewn amgylchiadau': wedi'i anelu at y rheini sydd eisoes yn derbyn Credyd Cynhwysol ac y mae eu hamgylchiadau wedi newid ac wedi arwain at gynnydd sylweddol yn eu hawl i fudd-dal, ond sydd mewn angen ariannol ac nad ydynt yn gallu aros nes diwedd cyfnod asesu i dderbyn y cynnydd (e.e. yn dilyn genedigaeth plentyn). 'Rhagdaliad cyllidebu': wedi'i anelu y rheini sydd eisoes yn hawlio'r Credyd Cynhwysol ac sydd angen help gyda threuliau ysbeidiol (e.e. prynu eitemau hanfodol fel dodrefn neu gyfarpar tŷ) neu gostau i'w cynorthwyo i ddechrau neu gadw gwaith (e.e. costau gofal plant ymlaen llaw). Rhaid bod yr hawlwr wedi bod yn derbyn taliadau Credyd Cynhwysol neu fudd-dal perthnasol am gyfnod parhaus o 6 mis, nad oes ganddynt enillion sy'n fwy na'r trothwy rhagnodedig dros y 6 Chyfnod Asesu blaenorol, ac nad oes ganddynt ragdaliad cyllidebu eisoes sydd heb ei ad-dalu. Os oes angen y rhagdaliad cyllidebu er mwyn helpu i gael neu gadw cyflogaeth, caiff y maen prawf cymhwysra 6 mis ei ddiystyru. <p>Mae ystadegau ad hoc yr Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer Prydain Fawr (ni chyhoeddir data ar lefel Cymru) yn dangos bod nifer y rhagdaliadau'n ymwneud â gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol wedi cynyddu'n sylweddol rhwng Mai 2016 (1,000) a mis Gorffennaf 2017 (12,800), sy'n adlewyrchu hyn y gwaith o gyflwyno'r Credyd Cynhwysol⁴³. Y swm cymedrig a dalwyd ymlaen llaw i hawlwr gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol ym mis Gorffennaf 2017 oedd £318. O'r rhagdaliadau hyn ym mis Gorffennaf 2017:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 65 y cant yn rhagdaliadau ar gyfer hawlwr newydd • Roedd 25 y cant yn rhagdaliadau cyllidebu • Caiff rhagdaliadau ar gyfer newid mewn amgylchiadau a throsglwyddo budd-daliadau eu talu'n llai aml (5 y cant a 4 y cant, yn y drefn honno). <p>Cafodd 75 y cant (9,700) o ragdaliadau gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol a dalwyd ym mis Gorffennaf 2017 eu talu i hawlwr newydd, gyda bron i hanner yr hawlwr newydd yn derbyn rhagdaliad.</p>

⁴² Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2017) [Universal Credit Statistical Ad Hoc: Payment Advances](#)

⁴³ Ibid

Diwygio lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p><i>Amseroldeb talu</i></p> <p>Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau⁴⁴ ar yr aelwydydd ym Mhrydain a oedd yn derbyn gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol ym mis Awst 2018, yn dangos bod 97 y cant ohonynt wedi derbyn rhywfaint o'r taliad ar amser (i fyny o 95 y cant ym mis Awst 2017), tra bod 94 y cant o'r aelwydydd wedi cael taliad llawn ar amser (i fyny o 85 y cant ym mis Awst 2017). Wrth edrych ar yr amseroldeb talu ar gyfer hawliadau newydd yn hytrach na phob hawliad, mae'r cyfradd yr aelwydydd sy'n derbyn taliad llawn neu daliad rhannol ar amser yn is. Yn ôl yr Adran Gwaith a Phensiynau, y rheswm am hyn yw bod yn rhaid i'r hawlydd a'r Adran Gwaith a Phensiynau gwblhau nifer o brosesau dilysu untro ar ddechrau hawliad er mwyn cadarnhau amgylchiadau presennol yr hawlydd (neu'r ddau hawlydd mewn cyd-hawliad) a'i/u hawl i dderbyn Credyd Cynhwysol. Mae gwirio hunaniaeth hawlydd yn un enghraifft o broses ddilysu, a gallai hyn olygu bod gofyn i'r person dan sylw fynd i apwyntiad yn y Ganolfan Waith. Mae'n bosibl y bydd hawlydd ond yn derbyn rhywfaint o'i daliad Credyd Cynhwysol ar amser gan nad yw'r prosesau dilysu wedi'u cwblhau eto ar gyfer elfen benodol o'r hawliad (e.e. yr elfen dai). Gallai hynny olygu bod y taliad sylfaenol yn cael ei wneud gyntaf ac wedyn y bydd yr elfennau eraill yn cael eu talu pan fydd hawl y person i'w derbyn wedi'i gadarnhau. Mae ystadegau'r Adran Gwaith a Phensiynau ar yr aelwydydd ym Mhrydain a oedd wedi gwneud hawliad newydd am Gredyd Cynhwysol gwasanaeth llawn, yn dangos bod 89 y cant wedi cael rhywfaint o'r taliad ar amser (i fyny o 86 y cant ym mis Awst 2017), tra bod 84 y cant wedi derbyn taliad llawn ar amser (i fyny o 74 y cant ym mis Awst 2017).</p> <p>Mae ystadegau eraill yr Adran Gwaith a Phensiynau yn rhoi gwybodaeth am hyd yr oedi cyn talu ar gyfer hawliadau newydd am Gredyd Cynhwysol a delir yn hwyr (h.y. mwy na 7 diwrnod ar ôl i'r Cyfnod Asesu cyntaf ddod i ben)⁴⁵. Mae'r ystadegau'n ymwneud â hawliadau newydd ym Mhrydain a oedd yn disgwyl taliad cyntaf ym mis Chwefror 2018. Yn ôl y data hwn:</p> <p><i>Taliad llawn ar amser</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwnaeth 83 y cant o hawliadau newydd am wasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol gael eu talu'n llawn ar amser (yn debyg i'r ffigurau uchod ar gyfer mis Awst 2018). • Cafodd 94 y cant o hawliadau newydd eu talu'n llawn o fewn 4 wythnos o'r dyddiad dyladwy. • Cafodd 97 y cant o hawliadau newydd eu talu'n llawn o fewn 8 wythnos o'r dyddiad dyladwy. <p><i>Taliad rhannol ar amser</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwnaeth 90 y cant o hawliadau newydd am wasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol gael rhywfaint o'r taliad ar amser (yn debyg i'r ffigurau uchod ar gyfer mis Awst 2018). • Cafodd 99 y cant o hawliadau newydd rhywfaint o'r taliad o fewn 4 wythnos i'r dyddiad dyladwy. • Cafodd 99 y cant o hawliadau newydd rhywfaint o'r taliad o fewn 8 wythnos i'r dyddiad dyladwy.

⁴⁴ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018) [Universal Credit Statistics](#)

⁴⁵ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018) [Universal Credit Statistical Ad Hoc: Length of Payment Delays for New Claims to Universal Credit](#)

Diwygio lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Tystiolaeth o effaith cyflwyno'r Credyd Cynhwysol hyd yn hyn</p> <p>Effaith ar ôl-ddyledion rhent</p> <p>Mae rhywfaint o'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai dyluniad y broses ar gyfer gweinyddu taliadau'r Credyd Cynhwysol, ac yn benodol yr elfen yn ymwneud â chostau tai, fod yn creu ôl-ddyledion rhent ychwanegol. Er enghraifft, mae'r cyhoeddiad '<i>Rolling out Universal Credit</i>⁴⁶' gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn sôn bod awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a landlordiaid wedi gweld cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent ers cyflwyno gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol. Caiff hyn ei briodoli i rai o nodweddion dylunio'r broses ar gyfer talu'r Credyd Cynhwysol, fel yr arhosiad cychwynnol am y taliad cyntaf, rhent yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r hawlydd (yn hytrach na'r landlord), a hawlwyd yn symud o daliadau budd-dal wythnosol neu bob pedair wythnos i daliad misol.</p> <p>Yn ogystal, mae Cartrefi Cymunedol Cymru, y corff aelodaeth ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru, wedi adrodd bod tenantiaid cymdeithasau tai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yng Nghymru eisoes ag ôl-ddyledion rhent o dros £1 miliwn, yn ôl eu harolwg ymhlith sampl o 29 o gymdeithasau tai yng Nghymru⁴⁷. Mae eu harolwg ymhlith 3,475 o bobl sy'n byw mewn cartrefi cymdeithasau tai yng Nghymru yn dangos bod gan bob person ôl-ddyled rhent o £420 ar gyfartaledd. Cynhaliwyd arolygon tebyg gan Ffederasiwn Cymdeithasau Tai yr Alban, Ffederasiwn Tai Cenedlaethol Lloegr a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Gogledd Iwerddon. Er ei bod yn bosibl bod gan denantiaid ôl-ddyledion rhent cyn symud i'r Credyd Cynhwysol, dengys yr arolwg o 65 cymdeithas dai yn Lloegr fod tenantiaid sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ddwywaith yn fwy tebygol o fod ag ôl-ddyledion rhent o'i gymharu â phob tenant arall. Roedd ôl-ddyled gan bron i dri chwarter (73 y cant) y tenantiaid a oedd yn rhan o'r arolwg ac yn derbyn Credyd Cynhwysol, o'i gymharu â llai na thraean (29 y cant) o holl denantiaid eraill yr arolwg⁴⁸. Dengys ymchwil gan Gyngor ar Bopeth fod pobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn fwy tebygol o fod â dyledion sy'n flaenoriaeth (gan gynnwys ôl-ddyledion rhent ac ôl-ddyledion y dreth gyngor) na'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol⁴⁹.</p> <p>Mae Cymdeithas Tai Bron Afon hefyd wedi nodi pryderon am effaith y Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent yn Nhorfaen⁵⁰. Ar ddechrau Ionawr 2018, credwyd bod oddeutu 525 o bobl wedi trosglwyddo o'u budd-daliadau blaenorol i'r Credyd Cynhwysol ers iddo gael ei lansio ym mis Gorffennaf 2017. Mewn cyfran sylweddol o'r achosion hyn, adroddwyd bod ôl-ddyledion rhent wedi cynyddu oherwydd y modd y cafodd Credyd Cynhwysol ei gyflwyno. Soniwyd bod sgiliau cyfrifiadurol a sgiliau llythrennedd yn broblemau mawr.</p>

⁴⁶ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2018) [Rolling out Universal Credit](#)

⁴⁷ Cartrefi Cymunedol Cymru (2018) [Tenantiaid tai cymdeithasol Cymru sy'n derbyn Credyd Cynhwysol mewn dros £1 miliwn o ôl-ddyledion rhent](#)

⁴⁸ Scottish Housing News (2018) [UK housing bodies warn 'flawed' Universal Credit is causing debt and hardship for families in social housing](#)

⁴⁹ Cyngor ar Bopeth (2017) [Universal Credit and Debt](#)

⁵⁰ South Wales Argus (2018) [Universal Credit roll-out could affect up to 1,200: Bron Afon CEO](#)

Diwygio lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Yn ogystal â dyluniad y broses ar gyfer talu Credyd Cynhwysol, nodwyd gan rai Ffederasiynau Tai bod toriadau i lefel y budd-daliadau (e.e. drwy'r terfyn dau blentyn a'r cap ar y budd-dal tai) hefyd wedi cyfrannu at y cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi mesurau lliniaru yn eu lle i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn (e.e. taliad dwy wythnos ychwanegol o Fudd-dal Tai, fel yr amlinellir isod). Er bod y newidiadau hyn wedi'u croesawu, mae rhai Ffederasiynau Tai wedi dadlau nad ydynt yn mynd yn ddigon pell⁵¹.</p> <p>Gwnaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau gomisiynu IFF Research i gynnal ymchwil feintiol dau gam gyda hawlwywyr gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol. Roedd yr arolwg ffôn hydredol hwn yn cwmpasu sawl maes, gan gynnwys rheoli costau tai. Cynhaliwyd cyfweiliadau â hawlwywyr rhwng Mawrth a Medi 2017⁵². Canfu'r ymchwil fod pedwar o bob deg o'r hawlwywyr yn nau gam yr arolwg ar ei hôl hi â'u biliau erbyn tua wyth i naw mis ar ôl hawlio. Roedd ychydig dros traean ag ôl-ddyledion o ran costau tai. O'r rheini, dywedodd bron i ddau draean (65 y cant) eu bod wedi mynd i ddyled ar ôl hawlio'r Credyd Cynhwysol.</p> <p>Roedd arwyddion bod y sefyllfa'n gwaethygu dros amser i rai hawlwywyr. Roedd saith o bob deg (71 y cant) o'r rheini a oedd mewn dyled tri mis ar ôl hawlio yn parhau i fod mewn dyled ar ôl wyth neu naw mis, a dywedodd 44 y cant fod y swm dyledus wedi cynyddu. Fodd bynnag, dywedodd tri o bob deg (29 y cant) o'r rheini a oedd yn parhau i fod mewn dyled fod y swm wedi lleihau, a dywedodd chwarter (27 y cant) y rheini a oedd mewn dyled yn ystod yr arolwg cyntaf eu bod wedi dal i fyny â'u taliadau erbyn yr ail arolwg.</p> <p>Roedd grwpiau penodol o hawlwywyr yn fwy tebygol o fod ag ôl-ddyledion yn y ddau arolwg: y rheini ag incwm aelwyd o lai na £10,000; y rheini â chyflwr iechyd hirdymor; y rheini sy'n rhentu oddi wrth landlordiaid cymdeithasol (y cyngor, awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai); y rheini sydd wedi derbyn rhagdaliad gan y Ganolfan Byd Gwaith yn y tri mis diwethaf cyn yr ail arolwg; a'r rheini sydd â Threfniant Talu Amgen yn ei le. Yn yr arolwg, dywedodd un o bob pump (22 y cant) o'r rheini a oedd yn derbyn taliadau tuag at eu costau tai fod ganddynt Drefniant Talu Amgen.</p> <p>Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd wedi ystyried effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent yn eu hymchwil gyda theuluoedd⁵³. Roedd yr ymchwil yn cynnwys dwy arolwg a chyfweiliadau ansoddol manwl. Roedd yr ymchwil ansoddol yn cynnwys cyfweiliadau dros y ffôn gyda 1,039 o hawlwywyr y Credyd Cynhwysol</p>

⁵¹ Tai Cymunedol Cymru (2018) [Tenantiaid tai cymdeithasol Cymru sy'n derbyn Credyd Cynhwysol mewn dros £1 miliwn o ôl-ddyledion rhent](#)

⁵² IFF Research (2018) [Universal Credit Full Service Survey](#). Yn yr arolwg cyntaf, cyfwelwyd 1,014 o hawlwywyr Credyd Cynhwysol dri i bedwar mis ar ôl dechrau eu hawliad. Gwnaed gwaith maes ym mis Mawrth a mis Ebrill 2017. Yn yr ail arolwg, a gynhaliwyd tua pum mis yn ddiweddarach, cyfwelwyd 1,004 o hawlwywyr. Roedd 589 o'r rhain yn gyfweiliadau hydredol dilynol gyda hawlwywyr a gyfwelwyd yn ystod yr arolwg cyntaf. Roedd 415 yn gyfweiliadau newydd gydag unigolion a ddechreuodd eu hawliad ar adeg debyg i'r rheini yn y sampl hydredol, ond na chafodd eu cyfweld yn yr arolwg cyntaf.

⁵³ Ipsos Mori (2017) [Universal Credit Test and Learn Evaluation: Families](#)

Diwygio lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>rhwng Rhagfyr 2015 a Mehefin 2016; cafodd 464 o hawlwr eu cyfweld eto rhwng Mawrth ac Awst 2016. Roedd yr ymchwil feintiol yn cynnwys cyfweiliadau manwl gyda 55 o hawlwr y Credyd Cynhwysol rhwng Gorffennaf ac Awst 2015; cafodd 48 o hawlwr eu cyfweld eto rhwng Rhagfyr 2015 a Ionawr 2016. Yn yr arolwg cyntaf, canfuwyd bod ychydig dros dau o bob pump (41 y cant) o rentwyr ag ôl-ddyledion rhent, a gwnaeth hyn ostwng i 31 y cant erbyn yr ail arolwg⁵⁴. Adroddodd y mwyafrif o hawlwr y Credyd Cynhwysol mai dyma'r tro cyntaf iddynt fod ag ôl-ddyledion rhent yn eu llety presennol (77 y cant yn yr arolwg cyntaf, 82 y cant yn yr ail arolwg). Yn yr arolwg cyntaf, dywedodd hanner yr hawlwr fod eu hól-ddyledion rhent wedi dechrau ar ôl iddynt gyflwyno eu hawliad cyfredol (49 y cant). Mae amryw resymau pam fod rhywun ag ôl-ddyledion, ond soniwyd yn benodol am y cyfnod aros o bum wythnos.</p> <p>Roedd y rhan fwyaf o'r rhesymau ar gyfer ôl-ddyledion rhent yn gysylltiedig â sefyllfa personol yr hawlydd ac incwm cyfyngedig. Yn yr arolwg cyntaf, nododd ychydig dros un o bob pump (21 y cant) eu bod wedi colli eu swydd yn ddiweddar, a soniodd un o bob naw am incwm isel neu anrhagweladwy. Soniodd un o bob wyth (12 y cant) am y cyfnod aros cychwynnol am daliad Credyd Cynhwysol, ac nododd cyfran debyg (13 y cant) oedi o ran derbyn eu taliadau oherwydd gwallau canfyddedig yn y system. Roedd y rhesymau'n debyg yn yr ail arolwg.</p> <p>Er bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi cyhoeddi'r dystiolaeth uchod, mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi datgan nad yw'r Adran wedi cynnal unrhyw ddadansoddiad cynrychioliadol cenedlaethol o bu'n a yw'r Credyd Cynhwysol yn creu ôl-ddyledion rhent ychwanegol⁵⁵. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil (a ddechreuodd ym mis Ionawr 2019) i adeiladu ar y dystiolaeth sydd eisoes ar gael, yn enwedig ar lefel Cymru, a bydd hyn yn cwmpasu'r sector rhentu preifat a'r sector rhentu cymdeithasol. Bydd yr ymchwil yn cymryd i ystyriaeth cymhlethdod ôl-ddyledion rhent, nad oes modd yn aml eu priodoli i un ffactor unigol. Yn ogystal, efallai bod rhai tenantiaid eisoes ar eu hól hi o ran eu rhent cyn gwneud hawliad am Gredyd Cynhwysol. Mae'r dystiolaeth uchod yn awgrymu ei bod yn bosibl bod y Credyd Cynhwysol yn achosi ôl-ddyledion rhent pellach i rai tenantiaid yn y sefyllfa hon. I'r rheini sy'n cael eu gwthio i ddyled ar ôl hawlio'r Credyd Cynhwysol, efallai mai'r system dalu a'r polisi ar ei gyfer sy'n peri problem (e.e. y cyfnod aros am daliad sy'n gysylltiedig â thalu ymlaen llaw, oedi arall etc) a/neu'r rheswm y maent wedi symud i'r Credyd Cynhwysol yn y lle cyntaf (e.e. colli swydd neu incwm, newid mewn amgylchiadau, cyflwr iechyd newydd etc), yn ogystal â ffactorau eraill.</p>

⁵⁴ Mae canfyddiadau'r ddau arolwg yn ymwneud â samplau gwahanol. Ar gyfer y cwestiwn penodol hwn, roedd 880 o rentwyr yn yr arolwg cyntaf a 438 o rentwyr yn yr ail arolwg. Mae'r adroddiad yn datgan, wrth edrych ar y rheini a gymerodd ran yn y dwy arolwg yn unig, fod dipyn yn llai o bobl ag ôl-ddyledion rhent erbyn yr ail arolwg o'i gymharu â'r arolwg cyntaf - 38 y cant a 31 y cant.

⁵⁵ Yn hytrach, maent wedi cynhyrchu dadansoddiad cyfyngedig gydag un cymdeithas dai, y maent yn bwriadu ei ymestyn i bum darparwr tai arall er mwyn datblygu dealltwriaeth well o effaith y Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent.

Diwygio lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Yr effaith ar fanciau bwyd</p> <p>Mae gwaith ymchwil gan Trussell Trust wedi tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng y Credyd Cynhwysol, caledi ariannol a'r defnydd o fanciau bwyd⁵⁷. Gan ddefnyddio data atgyfeiriadau drwy dalebau banciau bwyd Trussell Trust yn y Deyrnas Unedig ar gyfer 2017-18, canfu'r ymchwil, 12 mis ar ôl i'r Credyd Cynhwysol gael ei roi ar waith mewn ardal, fod banciau bwyd yn gweld cynnydd o 52 y cant⁵⁸ ar gyfartaledd yn y galw o'i gymharu â chynnydd o 13 y cant mewn ardaloedd lle nad oedd y Credyd Cynhwysol ar waith ynddynt eto, neu lle roeddent wedi bod ar waith am dri mis neu lai. Mae'r ymchwil yn honni bod eu dadansoddiad gwrthffeithiol yn cefnogi'r safbwynt na ellir priodoli'r cynnydd hwn i ffactorau hap o ran y detholiad o fanciau bwyd, a bod y cynnydd yn bodoli ar ôl cyfrif am amrywiadau tymhorol a rhai eraill. Cydnabyddir nad y Credyd Cynhwysol yw'r unig ffactor sy'n ysgogi cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd, ond mae Trussell Trust o'r farn ei fod yn ffactor arwyddocaol mewn nifer o ardaloedd. Mae eu dadansoddiad o ddata atgyfeiriadau i fanciau bwyd yn dangos bod y cyfnod pontio yn achos cael budd-daliadau (gan amlaf o ganlyniad i bobl sy'n trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol) yn gynyddol yn cyfrif am fwy o atgyfeiriadau. Canfu mae aros am y taliad cyntaf yw un o'r achosion pennaf, gan gynnwys diffyg cymorth i wneud cais ar-lein, y ffaith nad yw'r taliadau'n ddigonol i dalu am gostau byw, a threfniadau gweinyddu gwael.</p> <p>Hawlio ar-lein</p> <p>Comisiynwyd IFF Research gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gynnal arolwg ffôn hydredol o hawlwrwyr gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol. Roedd yr arolwg yn edrych ar brofiadau hawlwrwr wrth hawlio'r Credyd Cynhwysol ar-lein (gweler troednodyn 52 i gael gwybod am y fethodoleg a ddefnyddiwyd). Canfu'r arolwg bod 98 y cant o ymatebwyr wedi hawlio ar-lein. Roedd tua hanner ohonynt (54 y cant) wedi cofrestru eu cais ar-lein heb gymorth, a thua un o bob pump (21 y cant) wedi'i gwblhau ar-lein, ond gyda rhywfaint o gymorth. Fodd bynnag, roedd ychydig yn llai na thraean (30 y cant) o'r rheini a gofrestrodd eu cais ar-lein wedi'i chael yn anodd, yn enwedig y broses o gadarnhau hunaniaeth. Yn gyffredinol, roedd 43 y cant o hawlwrwr wedi dweud bod angen mwy o gymorth arnynt wrth gofrestru eu cais am y Credyd Cynhwysol, a 31 y cant wedi dweud y byddai angen mwy o gymorth parhaol arnynt wrth ddefnyddio eu cyfrif digidol ar gyfer y Credyd Cynhwysol.</p> <p>Yr effaith ar y farchnad lafur hyd yma</p> <p>Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi profi'r effaith y mae'r Credyd Cynhwysol yn ei chael ar gyfraniad y farchnad lafur drwy gymharu unigolion sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol ag unigolion tebyg sy'n hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith. Mae dadansoddiad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017 yn awgrymu bod y Credyd Cynhwysol yn cael effaith gadarnhaol ar y farchnad lafur o ran y grŵp cyfyng a oedd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad (hawlwrwr sengl a di-waith heb blant)⁵⁹.</p>

⁵⁶ Yn hytrach, maent wedi cynhyrchu dadansoddiad cyfyngedig gydag un cymdeithas dai, y maent yn bwriadu ei ymestyn i bum darparwr tai arall er mwyn datblygu dealltwriaeth well o effaith y Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent.

⁵⁷ Trussell Trust (2018) [The Next Stage of Universal Credit](#)

⁵⁸ Mae hyn yn seiliedig ar sampl o 38 o fanciau bwyd y pennwyd bod Credyd Cynhwysol wedi'i gyflwyno'n llawn iddynt am 12 mis neu fwy. Mae cyfanswm o fwy na 420 o fanciau bwyd yn rhwydwaith y Trussell Trust. Profwyd tri ffactor allweddol a allai effeithio ar y data, ac addaswyd ar eu cyfer lle bo angen (ee. peidio â chynnwys banciau bwyd sydd â bylchau yn eu cofnodion data, hepgor banciau bwyd newydd mewn cyfnod o dwf cynnar, a chael gwared ar effeithiau'r cynnydd mawr yn y data ar gyfer mis Rhagfyr).

⁵⁹ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2017) [Universal Credit Employment Impact Analysis](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Ar gyfartaledd, roedd hawlwy'r Credyd Cynhwysol 4 pwynt canran yn fwy tebygol o fod wedi bod yn gweithio ar ryw adeg o fewn y chwe mis cyntaf ar ôl iddynt hawlio. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ategu canfyddiadau'r dadansoddiad gweinyddol hwn drwy gynnwys canfyddiadau arolwg hefyd. Cynhaliwyd arolwg hydredol ymhlith hawlwy'r Credyd Cynhwysol a oedd wedi hawlio am y tro cyntaf rhwng canol mis Hydref a chanol mis Tachwedd 2014. Casglwyd sampl o hawlwy'r Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfer yr un cyfnod at ddibenion cymharu. Cafodd holl hawlwy'r arolwg eu hasesu yn wythnosol fesul grwpiau rhwng 27 Tachwedd a 23 Rhagfyr 2014. Ar gyfartaledd, cynhaliwyd y cyfweiliad cyntaf 5.5 wythnos ar ôl y dyddiad hawlio, ar gyfer y Credyd Cynhwysol a'r Lwfans Ceisio Gwaith. Roedd cam 2 yr arolwg yn asesiad dilynol o'r rheini a gytunodd y gellir ail gysylltu â nhw, ac fe'i cynhaliwyd tri mis yn ddiweddarach, rhwng 5 a 29 Mawrth 2015. Roedd yr arolwg yn cynnwys 900 o gyfweiliadau â hawlwy'r Credyd Cynhwysol yng nghanam 1 (461 yng nghanam 2); a 901 o gyfweiliadau â hawlwy'r Lwfans Ceisio Gwaith yng nghanam 1 (499 yng nghanam 2). Roedd y data wedi'u pwysoli i gynrychioli proffil hysbys yr hawlwydd cymwys. Canfu arolwg cam 2 fod y rheini a oedd yn derbyn y Credyd Cynhwysol ac nad oeddent yn gweithio mewn cyflogaeth am dâl wedi treulio 30 awr ar gyfartaledd yn chwilio am swyddi yn ystod yr wythnos flaenorol ac wedi gwneud cais am 18 o swyddi ar gyfartaledd yn ystod yr un cyfnod. Ar y llaw arall, roedd hawlwy'r Lwfans Ceisio Gwaith wedi treulio llawer llai o amser yn chwilio am swyddi (20 awr ar gyfartaledd yn ystod yr wythnos flaenorol), ond roeddent wedi gwneud ceisiadau am nifer debyg o swyddi, sef 19 ar gyfartaledd⁶⁰.</p> <p>Roedd arolwg diweddarach a gyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ym mis Mehefin 2018, ac a gynhaliwyd yn 2017, yn cynnwys tua 1,000 o hawlwy'r gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol a oedd wedi hawlio'r Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf ym mis Tachwedd neu ym mis Rhagfyr 2016⁶¹. Cynhaliwyd dau gam yr arolwg tua thri ac wyth mis ar ôl yr hawliad cyntaf. Yn ôl yr ymchwiliad nid oedd nifer o'r hawlwy'r yn cwblhau'r gweithgarwch gofynnol a bennwyd yn natganiad yr hawlwy'r o'u hymrwymiad i chwilio am swyddi, ac roeddent yn aml yn ei chael hi'n anodd i gyflawni'r maint o weithgarwch gofynnol a oedd yn ymwneud â chwilio am swyddi. Roedd yr ymchwiliad yn cymharu'r oriau yr oedd hawlwy'r yn dweud bod angen iddynt eu treulio yn erbyn yr oriau a dreuliodd yn ystod yr wythnos cyn yr arolwg. Roedd hynny'n dangos mai hanner nifer yr hawlwy'r yn unig a oedd wedi cwblhau'r oriau gofynnol neu wedi cwblhau mwy na'r oriau gofynnol. Y rheswm mwyaf cyffredin am beidio â chwblhau unrhyw weithgarwch i chwilio am waith oedd salwch neu gyflwr iechyd. Yng nghanam 1, roedd 40 y cant o'r ymatebwyr o'r farn bod cwblhau'r oriau gofynnol i chwilio am waith yn hawdd, tra bo 44 y cant o'r farn ei bod yn anodd i wneud hynny. Yng nghanam 2, roedd 43 y cant wedi dweud ei bod yn hawdd, a 37 y cant yn dweud ei bod yn anodd. Fodd bynnag, canfu'r ymchwiliad rywfaint o dystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol o ran dod o hyd i swyddi ar gyfer hawlwy'r Credyd Cynhwysol. Gwelwyd cyfran yr ymatebwyr mewn swydd â thâl yn cynyddu o tua chwarter (23 y cant) pan oeddent wedi hawlio'u Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf, i draean tua thri mis ar ôl hawlio, a 40 y cant erbyn wyth mis ar ôl</p>

⁶⁰ Ipsos Mori (2015) [Universal Credit Extended Gateway Evaluation](#)

⁶¹ IFF Research (2018) [Universal Credit Full Service Survey](#) Gweler troednodyn 52 uchod i gael rhagor o wybodaeth am y fethodoleg.

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p data-bbox="745 180 2152 244">hawlio. Ymhlith y rheini a oedd wedi cymryd rhan yn nau gam yr arolwg, roedd 13 y cant yn ddi-waith yn yr arolwg cyntaf (tri mis ar ôl hawlio), ond roeddent wedi cael gwaith erbyn yr ail arolwg (wyth mis ar ôl hawlio).</p> <p data-bbox="745 268 2092 336"><i>Newidiadau i bolisi Llywodraeth y DU mewn ymateb i broblemau a nodwyd yng nghyfarwyddiadau cynnar cyflwyno'r Credyd Cynhwysol</i></p> <p data-bbox="745 360 2152 528">Mewn ymateb i dystiolaeth ar effaith camau cynnar rhoi'r Credyd Cynhwysol ar waith, mae Llywodraeth y DU wedi gwneud nifer o newidiadau polisi i helpu i gefnogi'r rheini sydd eu hangen fwyaf. Roedd Datganiad yr Hydref 2016⁶² wedi cyhoeddi y byddai cyfradd tapr y Credyd Cynhwysol yn cael ei gostwng (gweler diwygiad 8 yn yr adroddiad hwn er mwyn cael rhagor o wybodaeth). Dilynwyd hynny gan y cyhoeddiadau canlynol yng Nghyllideb yr Hydref 2017⁶³:</p> <ul data-bbox="797 555 2168 967" style="list-style-type: none"> • O fis Ionawr 2018 ymlaen, mae'r rheini sydd angen cael y Credyd Cynhwysol, ac sydd â hawl sylfaenol i gael y Credyd Cynhwysol, wedi gallu cael hyd at werth mis o'r Credyd Cynhwysol o fewn pum diwrnod drwy flaenswm di-log. Mae cyfnod adennill y swm wedi'i estyn hefyd o chwe mis i 12 mis. Yn ogystal, roedd hawlwr newydd ym mis Rhagfyr 2017 yn gallu derbyn blaenswm a oedd yn 50 y cant o'u hawl misol ar ddechrau eu cyfnod hawlio, ac ail flaenswm a oedd yn golygu eu bod yn derbyn 100 y cant o'u hawl ym mis Ionawr 2018, cyn dyddiad eu taliad cyntaf. • O fis Chwefror 2018 ymlaen, mae'r cyfnod aros o saith diwrnod wedi'i ddileu, fel bod yr hawl i gael Credyd Cynhwysol yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y cais. • O fis Ebrill 2018 ymlaen, mae'r rheini sydd eisoes yn cael Budd-dal Tai wedi parhau i dderbyn eu dyfarniad ar gyfer y pythefnos cyntaf o hawlio'r Credyd Cynhwysol. • Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi'i gwneud yn haws i hawlwr sicrhau bod elfen tai eu dyfarniad yn cael ei thalu'n uniongyrchol i'w landlord. <p data-bbox="745 994 2168 1327">Yn ychwanegol, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ym mis Ebrill 2018 ac ym mis Mehefin 2018 y bydd amddiffyniadau ychwanegol ar gyfer rhai hawlwr lles, gan gynnwys: ychwanegiadau at yr amddiffyniad trosiannol i bobl sy'n trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol; estyn y cymorth sydd eisoes yn bodoli i ofalwr nad ydynt yn rhieni a mabwysiadwyr drwy greydau treth a'r Credyd Cynhwysol; a gwell amddiffyniadau i'r rheini sy'n derbyn y Premiwm Anabledd Difrifol ar hyn o bryd er mwyn cynnig cymorth ychwanegol wrth i'r Credyd Cynhwysol gael ei roi ar waith. Fodd bynnag, mae Cyngor ar Bopeth yn tynnu sylw at y ffaith y gallai hawliadau newydd y Credyd Cynhwysol gan bobl anabl sy'n byw ar eu pennau eu hunain heb ofalwr sy'n oedolyn olygu y byddant dros £180 y mis ar eu colled drwy hawlio'r Credyd Cynhwysol nag y byddent yn y system etifeddol. A hynny oherwydd bod y Premiwm Anabledd Difrifol wedi'i ddileu yn y Credyd Cynhwysol⁶⁴.</p>

⁶² Trysorlys ei Mawrhydi (2016) [Autumn Statement 2016](#)

⁶³ Trysorlys ei Mawrhydi (2017) [Autumn Budget 2017](#)

⁶⁴ Rahman, A. (2018) [Universal Credit for single disabled people](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Cafodd newidiadau pellach eu cyhoeddi yng Nghyllideb 2018⁶⁵ mewn ymateb i wersi a ddysgwyd yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol hyd yma:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y swm y gall aelwydydd â phlant, a phobl ag anableddau, eu hennill cyn i ddyfarniad eu Credyd Cynhwysol gael ei dynnu'n ôl - Y Lwfans Gweithio - yn cynyddu £1,000 o Ebrill 2019 (gweler diwygiad 11 yn yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth). • Bydd pecyn o gymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i hawlwr wrth iddynt drosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol - gan ategu cyhoeddiad Cyllideb yr Hydref 2017 y bydd hawlwr y Budd-dal Tai yn derbyn taliad ychwanegol a fydd yn cynnig cymorth am bythefnos yn ystod y cyfnod pontio i'r Credyd Cynhwysol. Bydd y ddarpariaeth hon yn cael ei hestyn i gynnwys elfennau cysylltiedig ag incwm o'r Lwfans Ceisio Gwaith, y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Cymorthdal Incwm. Bydd hwnnw mewn grym o Orffennaf 2020, a bydd tua 1.1 miliwn o hawlwr yn elwa arno. • I gefnogi pobl hunangyflogedig sy'n trosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol, caiff y cyfnod gras o 12 mis (y cyfnod cyn i Isafswm Incwm fod yn berthnasol)⁶⁶ ei estyn i bob person hunangyflogedig â thal er mwyn rhoi amser i hawlwr ddatblygu eu busnesau i lefel gynaliadwy. Caiff hynny ei gyflwyno o fis Orffennaf 2019 ymlaen, a'i weithredu'n llawn o fis Medi 2020 ymlaen. • O fis Hydref 2019 ymlaen, bydd y gyfradd uchaf y gellir gwneud didyniadau o ddyfarniad y Credyd Cynhwysol yn cael ei gostwng o 40 y cant i 30 y cant o'r lwfans safonol. Mae hynny'n ceisio sicrhau bod y rheini sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol yn cael eu cefnogi i ad-dalu dyledion mewn ffordd sy'n fwy cynaliadwy a hawdd ymdopi â hi. O fis Hydref 2021, caiff y cyfnod ar gyfer adennill blaensymiau ei estyn o 12 mis i 16 mis. <p>Roedd araith a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 11 Ionawr 2019 am ddyfodol y Credyd Cynhwysol yn amlinellu pedwar newid allweddol a fyddai'n cefnogi amrywiol anghenion hawlwr gwahanol ac yn bodloni materion a godwyd hyd yma sy'n ymwneud â gweithredu'r Credyd Cynhwysol⁶⁷:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymfudo a reolir - bydd cyflwyno cam nesaf y Credyd Cynhwysol yn cael ei drin yn ofalus fel ei fod yn gweithio i bob hawllydd. Bydd angen cael y pwerau i gynnal peilot a fydd yn cefnogi 10,000 o bobl drwy'r broses er mwyn dysgu sut i hwyluso'r cyfnod pontio orau cyn mynd â'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sicrhau ymfudo a reolir yn y dyfodol ger bron Senedd y DU. Yn ôl yr hyn a gynlluniwyd, bydd hynny'n dechrau o fis Gorffennaf 2019 ymlaen.

⁶⁵ Trysorlys ei Mawrhydi (2018) [Budget 2018](#)

⁶⁶ Lefel yr enillion wedi'i seilio ar yr hyn y byddai'r Adran Gwaith a Phensiynau'n ei ddisgwyl i berson cyflogedig ei derbyn mewn amgylchiadau tebyg yw Isafswm Incwm. Caiff ei gyfrifo gan ddefnyddio'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol, wedi'i luosogi gan nifer yr oriau y disgwylir i berson chwilio am waith a bod ar gael ar gyfer gwaith. Mae hefyd yn cynnwys didyniad tybiannol ar gyfer treth ac Yswiriant Gwladol. Os bydd enillion hunangyflogedig rhywun yn is na'r Isafswm Incwm, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn defnyddio'r Isafswm Incwm i gyfrifo dyfarniad y Credyd Cynhwysol yn lle'r hyn a enillir mewn gwirionedd.

⁶⁷ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2019) [Universal Credit: personal welfare speech](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyflwyno'r Credyd Cynhwysol (parhad)		<ul style="list-style-type: none"> • Trefniadau Talu Amgen (APAs) - Bydd mwy o hyblygrwydd ar gael o ran taliadau, yn enwedig ar gyfer rhenti ac amllder taliadau. Caiff system ar-lein ei datblygu ar gyfer landlordiaid preifat, fel eu bod yn gallu gwneud cais (os bydd angen) i daliadau rhent eu tenantiaid gael eu talu'n uniongyrchol iddynt. O ran y rheini sy'n ei chael hi'n anodd i ymdopi â thalu taliadau yn fisol, bydd Canolfan Byd Gwaith yn edrych ar sut i wella'r ddarpariaeth ar gyfer taliadau amlach ar gyfer hawlwr newydd. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn dechrau cyn hir, ac chyn gynted ag y bydd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio, maent yn bwriadu eu cyflwyno ymhellach. • Bydd mwy o gymorth i fenywod - mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwmo i sicrhau bod taliadau i aelwydydd yn mynd yn uniongyrchol i'r prif ofalwr (fel arfer, ond nid bob amser, y fenyw). I'r cyplau hynny sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd, mae tua 60 y cant o'r taliadau yn mynd i gyfrif banc y fenyw. Fodd bynnag, bydd mwy yn cael ei wneud i sicrhau bod y prif ofalwr yn derbyn taliad y Credyd Cynhwysol. Bydd y newidiadau hyn yn dechrau yn ddiweddarach eleni. Caiff cymorth gofal plant drwy'r Credyd Cynhwysol ei dalu mewn ôl-daliad ar ôl cael gwybod y costau gwirioneddol. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod y gallai hynny achosi anawsterau ariannol, ac y byddai rhai hawlwr yn cael trafferth i dalu ymlaen llaw neu i roi gwybod am eu costau mewn pryd. Felly, mewn achosion lle bydd costau gofal plant yn ystod y mis cyntaf yn atal hawlwr rhag dechrau gwaith, dylai'r Gronfa Cymorth Hyblyg gael ei defnyddio i helpu'r grŵp blaenoriaeth hwn i drosglwyddo i'r Credyd Cynhwysol. Yn ail, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu y dylent fod yn hyblyg pan na fydd rhieni'n gallu rhoi gwybod am gostau gofal plant eu plant yn uniongyrchol, fel bod y costau hynny'n cael eu had-dalu. • Newidiadau i'r ddau bolisi plant - gweler diwygiad 9 yn yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth. <p>Mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i amserlen cyflwyno'r Credyd Cynhwysol hefyd (gweler Ffigur 2 yn Atodiad 2).</p>
6. Rhewi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a Lwfansau Tai Lleol (LHA)	Ebrill 2016 (am bedair blynedd)	Mae'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio yn destun rhewiad uwchraddio dros gyfnod o bedair blynedd rhwng 2016-17 a 2019-20, fel y cyhoeddwyd yng Nghyllideb Haf 2015. Mae hyn yn golygu bod y swm arian yn parhau i fod yr un fath ag ydoedd yn 2015-16. Roedd sail resymegol Llywodraeth y DU yn seiliedig ar y ffaith bod y rhan fwyaf o fudd-daliadau wedi codi 21 y cant ers argyfwng ariannol 2008 o gymharu â'r cynnydd o 11 y cant mewn enillion cyfartalog. Roedd Llywodraeth y DU yn credu bod angen rhewi'r budd-daliadau er mwyn sicrhau ei bod hi'n werth i chi weithio ⁶⁸ .

⁶⁸ Trysorlys ei Mawrhyd (2015) [Summer Budget 2015](#) para 1.137

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
<p>Rhewi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau oedran gweithio, credydau treth a Lwfansau Tai Lleol (LHA) (parhad)</p>		<p>Mae'r rhewi pedair blynedd hwn yn dilyn toriadau cynharach. Yn 2011, newidiodd yr uwchraddio budd-daliadau diofyn o'r Mynegi Pris Manwerthu i'r Mynegai Pris Defnyddwyr, gyda rhai budd-daliadau allweddol wedi'u rhewi yn 2011-12 a 2012-13. Yna, yn 2014-15 a 2015-16, cafodd y rhan fwyaf o gynyddiadau budd-daliadau oedran gweithio eu cyfyngu i 1 y cant. Mae'r Resolution Foundation yn adrodd bod Budd-dal Plant nawr yn werth llai nag ydoedd yn Ebrill 1999, a thu hwnt i blentyn cyntaf teulu, bydd Budd-dal Plant yn Ebrill 2019 yn werth 14 y cant yn llai na phan gafodd ei gyflwyno (yn llawn) yn Ebrill 1979 – er gwaethaf y cynyddiadau mawr mewn cyfoeth cymdeithas ers hynny. Yn yr un modd, bydd Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) yn is yn Ebrill 2019 nag ydoedd yn Ebrill 1991⁶⁹.</p> <p>Y budd-daliadau sy'n cael eu rhewi am bedair blynedd yw: JSA; Credyd Plant a Threth Gweithio; LHA; Cymhorthdal Incwm; Budd-dal Plant; ESA Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith. Mae'r rhai nad ydynt yn cael eu rhewi'n cynnwys: Lwfans Mamolaeth; Tâl Salch Statudol; Tâl Mamolaeth a Thadolaeth Statudol; Tâl Rhiant a Rennir Statudol; Tâl Mabwysiadu Statudol; Premiymau Anabledd, Gofalwyr a Phensiynwyr, Budd-daliadau Anabledd, Gofalwyr a Phensiynwyr eraill; ESA Grŵp Cymorth. Mae'r rhewi'n berthnasol i holl elfennau cyfwerth y Credyd Cynhwysol. Mae union effaith y rhewi enwol yn dibynnu ar y llwybr chwyddiant, gan y byddai absenoldeb rhewiad yn golygu y byddai ffigurau chwyddiant CPI yn cael eu defnyddio i uwchraddio budd-daliadau. Mae'r ffigurau hyn wedi bod yn uwch nag a ddisgwyliid yn wreiddiol yn 2015 pan gyhoeddwyd y bwriad i rewi. Yn gyffredinol, mae'r toriad gwirioneddol i fudd-daliadau o'r rhewi pedair blynedd dros 6 y cant o gymharu â 4.6 y cant a ragwelwyd yn wreiddiol⁷⁰.</p> <p>Mae dadansoddiad gan y Resolution Foundation yn dangos bod 11 miliwn o gartrefi'r DU wedi gweld gostyngiad yn eu budd-daliadau rhwng 2016-17 a 2019-20 o ganlyniad i'r rhewi⁷¹. Nid yw rhewi'r budd-daliadau'n effeithio ar bawb yr un fath. Mae'r dadansoddiad yn dangos y bydd catrefi tlotach yn gweld y golled fwyaf mewn termau arian parod ac fel cyfran o'u hincwm, ac mai rhieni a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf. Bydd effaith gyffredinol y rhewi pedair blynedd yn golygu y bydd cwpl cyffredin gyda phlant yn hanner gwaelod y dosbarthiad incwm £580 yn dlotach yn 2019-20 na phe bai'r uwchraddio chwyddiant wedi digwydd ers 2016-17, ac amcangyfrifir bod y rhiant sengl incwm isel £710 ar ei golled. Amcangyfrifir y bydd y rhewi'n lleihau incwm cartrefi oedran gweithio £4.4 biliwn yn 2019-20 (sy'n llawer uwch na'r rhagolwg gwreiddiol o £3.9 biliwn). Daw rhan fawr (£1.5 biliwn) o'r arbediad hwn o rewi y flwyddyn nesaf yn unig, gyda chyplau incwm isel â phlant yn colli £200 ar gyfartaledd ac unig rieni incwm isel yn colli £250 ar gyfartaledd⁷².</p>

⁶⁹ Resolution Foundation (2018) [Despite the 'end of austerity', April promises another deep benefit cut](#)

⁷⁰ Ibid

⁷¹ Resolution Foundation (2018) [Falling inflation is good news for pay but confirms £200 hit for low-income families with kids](#)

⁷² Resolution Foundation (2018) [Despite the 'end of austerity', April promises another deep benefit cut](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
7. Dileu elfen teulu mewn credydau treth a'r Credyd Cynhwysol, a'r premiwm teulu mewn Budd-dal Tai, ar gyfer hawlwyf newydd	Ebrill 2016 ar gyfer Budd-dal Tai Ebrill 2017 ar gyfer credydau treth a'r Credyd Cynhwysol	<p>Nid yw'r rhai sy'n dechrau teulu ar ôl 6 Ebrill 2017 bellach yn gymwys am yr elfen deulu (elfen sylfaenol i deuluoedd sy'n gyfrifol am un neu fwy o blant neu bobl ifanc cymwys) mewn credydau treth. Nid yw'r elfen gyfwerth mewn Credyd Cynhwysol, a elwir yn premiwm plentyn cyntaf, ar gael i hawliadau newydd ar ôl y dyddiad hwn ychwaith. Cyn newid y polisi, byddai uchafswm hawliad plentyn cyntaf yn cynyddu £3,325 y flwyddyn, a phob plentyn dilynol wedyn yn cynyddu £2,780 y flwyddyn. Fodd bynnag, ni fydd plant cyntaf a anwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill yn derbyn y £545 (yr elfen deulu) mwyach. Cyflwynwyd newidiadau tebyg i'r Budd-dal Tai drwy ddileu'r premiwm teulu i blant a anwyd, neu hawliadau a wnaed, ar ôl Ebrill 2016.</p> <p>Mae cartrefi sydd wedi bod yn derbyn credydau treth neu Gredyd Cynhwysol gyda thoriad o lai na 6 mis wedi'u gwarchod, fel mae unig riant sydd eisoes ar Gredyd Cynhwysol sy'n rhan o gwpl gydag un hawlwydd ddim ar Gredyd Cynhwysol, a'r rhai sy'n symud o gredydau treth i Gredyd Cynhwysol. Mae'r colledion yn ddybiannol⁷³ felly ni fydd neb yn colli arian, ac mae yna eithriadau ar waith. Disgwylir y bydd y newid hwn yn arbed £2 biliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU yn y tymor hir, ac yn effeithio ar tua 4 miliwn o deuluoedd⁷⁴. Disgwylir i'r niferoedd sy'n cael eu heffeithio yng Nghymru godi i tua 200,000 o deuluoedd yn y tymor hir, gan ddefnyddio stoc 2014-15 o deuluoedd sy'n deryn Credydau Treth Plant i gynrychioli'r boblogaeth sy'n cael ei heffeithio⁷⁵.</p>
8. Gostwng cyfradd tapro'r Credyd Cynhwysol o 65 y cant i 63 y cant	Ebrill 2017	Fel y cyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2016, gostyngwyd cyfradd tapro'r Credyd Cynhwysol, sy'n penderfynu pa mor gyflym mae pobl yn colli eu budd-daliadau wrth iddynt gynyddu eu horiau gwaith. Mae'r gostyngiad o 65 y cant i 63 y cant yn golygu bod y rhai ar incwm isel ar Gredyd Cynhwysol yn cadw 2c yn fwy am bob £1 ychwanegol maent yn ei ennill. Mae'r newid hwn, y disgwylir iddo gynyddu gwariant £700 miliwn yn 2020-21 ⁷⁶ , yn hwb cymharol afch i incwm gan fod o fudd i tua tri miliwn o gartrefi yn y DU. Mae dadansoddiad y Resolution Foundation yn dangos bod y manteision mwyaf o'r gostyngiad yn y gyfradd dapro tua £500 y flwyddyn i deulu sy'n ennill £30,000 y flwyddyn (ond mae llai na 10 y cant o deuluoedd ar Gredyd Cynhwysol yn ennill mwy na'r swm hwn) ⁷⁷ .
9. Cyfyngu elfen plentyn credydau treth a'r Credyd Cynhwysol i ddau blentyn	Ebrill 2017	Nod y polisi yw sicrhau tegwch rhwng hawlwyf budd-daliadau a'r rhai sy'n cefnogi eu hunain drwy waith yn unig. Cynt, gallai teulu dderbyn elfen plentyn (£2,780 y flwyddyn ar hyn o bryd) ar gyfer pob plentyn cymwys o dan y prawf modd. O Ebrill 2017, mae cymorth drwy elfen plentyn y Credyd Treth Plant wedi'i gyfyngu i ddau blentyn sy'n golygu nad yw unrhyw blant dilynol a anwyd ar/ar ôl 6 Ebrill 2017 yn gymwys am fwy o gymorth. Gall teuluoedd dderbyn elfen plentyn ar gyfer mwy na dau o blant os cafodd y plant eu geni cyn 6 Ebrill 2017. Mae cymorth o dan y Credyd Cynhwysol hefyd wedi'i gyfyngu i ddau blentyn. I'r rhai sydd eisoes yn hawlio'r Credyd, ni fydd unrhyw gynnydd ar gyfer plant dilynol a anwyd ar/ar ôl 6 Ebrill 2017. Mae hawliadau newydd

⁷³ Mae colled ddamcaniaethol yn mesur yr hawliad y byddai hawlwyf wedi bod yn gymwys amdano pe na bai'r polisi wedi newid, yn hytrach na hawlwyf yn colli incwm yr oeddynt eisoes yn ei dderbyn (h.y. colli arian parod).

⁷⁴ Hood, A., Keiller, A.N., a Waters, T. (2017) [Significant cuts to two parts of the benefit system to be phased in from next week](#)

⁷⁵ Amcangyfrif Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar CThEM (2016) [Child and Working Tax Credits Statistics Finalised Annual Awards 2014-15 – Geographical Analysis](#)

⁷⁶ HM Treasury (2018) [Budget 2018 Universal Credit](#)

⁷⁷ Resolution Foundation (2016) [Bending the rules](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyfyngu elfen plentyn credydau treth a'r Credyd Cynhwysol i ddau blentyn (parhad)		<p>am y Credyd gan deuluoedd sydd â mwy na dau o blant wedi'u hailgyfeirio i gredydau treth nes Chwefror 2019 (oni bai eu bod yn cyflwyno ail hawliad gan eu bod yn cael y Credyd o fewn y 6 mis diwethaf). Roedd y polisi yn mynd i fod yn berthnasol i unrhyw un a oedd yn gwneud hawliad newydd am y Credyd o Chwefror 2019, waeth a oedd eu plant wedi'u geni (oni bai bod amgylchiadau arbennig yn berthnasol – gweler isod). Ond ar 11 Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai teuluoedd sy'n gwneud hawliad newydd am y Credyd a'u plant i gyd wedi'u geni cyn gweithredu'r polisi (h.y. 6 Ebrill 2017) yn cael eu heithrio o'r polisi hwn (byddai 15,000 o deuluoedd yn elwa yn ôl DWP). Mae hyn yn mynd i'r afael ag 'ôl-weithredu'. Ond yn achos teuluoedd sydd â thrydydd plentyn wedi'i eni ar ôl Ebrill 2017, ni fydd y newid yn cael unrhyw effaith nac yn newid effaith hirdymor y polisi gan y bydd pob plentyn wedi'i eni ar ôl Ebrill 2017 yn y pen draw.</p> <p>Mae eithriadau ar gyfer achosion eithriadol yn cynnwys: genedigaethau lluosog; plant wedi'u mabwysiadu a fyddai yng ngofal Awdurdod Lleol fel arall; rhai sy'n byw gyda ffrindiau neu deulu yn y tymor hir ac a fyddai mewn perygl o fynd i'r system ofal fel arall, neu pan mae gan blentyn (o dan 16 oed) sy'n byw gyda'i rieni neu ofalwyr blentyn ei hun; a'r rhai sydd â thrydydd plentyn o ganlyniad i dreisio neu fod yr hawlydd mewn perthynas o reolaeth a gorfodaeth â rhiant biolegol y plentyn adeg beichiogi⁷⁸. Mae cartrefi sydd wedi bod yn derbyn credydau treth neu'r Credyd Cynhwysol gyda thoriad o lai na 6 mis wedi'u gwarchod hefyd. Mae pob plentyn ag anabledd yn parhau i dderbyn yr Elfen Plentyn Anabl neu Elfen Plentyn Anabl Difrifol y credydau treth a'r elfennau cyferth yn y Credyd Cynhwysol. Mae'r polisi'n dreiglol. Er enghraifft, os yw'r plentyn hynaf yn cyrraedd oedran lle nad yw bellach yn gymwys am Credyd Treth Plant, a bod yna drydydd plentyn yn y teulu wedi'i eni ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017, bydd y plentyn hwnnw'n gymwys am yr elfen unigol.</p> <p>Nid yw'r mesur hwn yn effeithio ar elfen gofal plant y Credyd Treth Gweithio neu'r Credyd Cynhwysol, ac nid yw'n effeithio ar gymorth Budd-dal Plant, sydd â chyfradd wythnosol o £20.70 ar hyn o bryd ar gyfer y plentyn hynaf/unig blentyn a £13.70 y plentyn ar gyfer unrhyw blant ychwanegol⁷⁹.</p> <p>Mae cyhoeddiad gan CThEM a DWP⁸⁰ yn dangos bod 73,530 o aelwydydd Credyd Treth Plant y DU ac aelwydydd gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol Prydain wedi'u heffeithio gan y polisi hwn ar 2 Ebrill 2018. O'r holl aelwydydd (865,000) gyda thrydydd plentyn neu blentyn dilynol yn hawlio Credyd Treth Plant neu'r Credyd Cynhwysol (yn cynnwys plant a anwyd cyn 6 Ebrill 2017), roedd tua 9 y cant wedi'u heffeithio gan y polisi hwn ar 2 Ebrill 2018. Bydd y niferoedd yr effeithir arnynt yn cynyddu gydag amser wrth i fwy o gartrefi gyda dau blentyn neu fwy sy'n hawlio'r Credyd Treth Plant neu'r Credyd Cynhwysol gael plentyn sydd wedi'i eni ar/ar ôl 6 Ebrill 2017.</p>

⁷⁸ Ibid

⁷⁹ Gweler [Claim Child Benefit](#) am ragor o wybodaeth. Efallai y bydd rhaid i deuluoedd dalu treth os yw eu hincwm unigol dros £50,000 y flwyddyn.

⁸⁰ CThEM ac Adran Gwaith a Phensiynau(2018) [Child Tax Credit and Universal Credit Claimants – Statistics related to the policy to provide support for a maximum of two children](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyfyngu elfen plentyn credydau treth a'r Credyd Cynhwysol i ddau blentyn (parhad)		<p>O'r 73,530 o aelwydydd Credyd Treth Plant a'r aelwydydd gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol yn y DU a effeithwyd gan y polisi hwn ar 2 Ebrill 2018, nid oedd 70,620 (96 y cant) yn derbyn yr elfen plentyn neu swm am o leiaf un plentyn yn eu cartref, tra bod 2,900 (4 y cant) aelwydydd wedi eu heithrio. Roedd yr eithriadau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 2,440 (84 y cant) o aelwydydd oedd â genedigaethau lluosog • 270 (9 y cant) o aelwydydd oedd yn derbyn gofal gan rywun heblaw rhieni • 190 (7 y cant) o aelwydydd lle roedd y fam wedi beichiogi yn sgil rhyw nad oedd wedi cydsynio iddo. • Mae nifer yr achosion gydag eithriad ar gyfer mabwysiadu yn is na'r trothwy cyhoeddi (4 aelwydyd neu lai). <p>O'r aelwydydd Credyd Treth Plant a'r aelwydydd gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol yn y DU a effeithwyd gan y polisi hwn, roedd 59 y cant mewn gwaith (wedi'u diffinio fel cymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith o fewn y system credyd treth, neu'n derbyn incwm cyflogaeth o fewn y Credyd Cynhwysol. Roedd mwyafrif (62 y cant) yr aelwydydd hyn yn cynnwys dau oedolyn, gyda'r gweddill (38 y cant) yn aelwydydd un oedolyn.</p> <p>Roedd tua 3,000 (5 y cant) o'r aelwydydd Credyd Treth Plant ac aelwydydd gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol yn y DU a effeithiwyd gan y polisi hwn yn byw yng Nghymru yn Ebrill 2018. Roedd tua 120 (4 y cant) o'r aelwydydd hyn yn derbyn eithriad. Nid oedd y 2,880 o aelwydydd eraill (96 y cant) yn derbyn yr elfen plentyn neu swm am o leiaf un plentyn ar eu haelwyd. Yn holl wledydd y DU, aelwydydd â genedigaeth lluosog oedd y math mwyaf cyffredin o eithriad, sef 93 y cant o aelwydydd yng Nghymru. Nid yw cyfran yr aelwydydd â mathau eraill o eithriadau yng Nghymru wedi'i darparu ar y pwynt hwn yn sgil talgrynnu ac atal ychydig o achosion.</p> <p>O ystyried y newid a gyhoeddwyd yn Ionawr 2019, nid oes disgwyl i'r effaith hirdymor gael ei theimlo'n llawn nes canol y 2030au. Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd y polisi hwn yn arbed tua £2 bliwn y flwyddyn (yn nhermau heddiw) i Drysorlys y DU yn y tymor hir, gan effeithio ar 700,000 o deuluoedd yn y DU (os yw'r boblogaeth yn debyg i'r hyn ydyw ar hyn o bryd a dim diwygiadau lles pellach). Byddai'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan yr uchafswm dau blentyn yn cael £3,000 yn llai ar gyfartaledd nag y byddent yn ei gael fel arall⁸¹. Gan fod y toriad hwn ond yn berthnasol i enedigaethau newydd a hawliadau newydd, mae hon yn golled dybiannol, yn fesur o'r hawliad y byddai hawlwyd wedi bod yn gymwys amdano pe na bai'r polisi wedi newid, yn hytrach na hawlwyd yn colli incwm roeddynt yn ei dderbyn (h.y. colled arian parod). Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd y toriad hwn yn cynyddu tlodi plant y DU (yn seiliedig ar fesurau swyddogol Llywodraeth y DU ac ar ôl costau tai) tua 300,000, yn dibynnu ar ba fesur tlodi a ddefnyddir. Yng Nghymru, mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd yn cynyddu cyfradd tlodi absoliwt cyffredinol (ar ôl costau tai) yng Nghymru 0.6 pwynt canran yn 2019-21⁸².</p>

⁸¹ Waters, T. (2019) [Reform to two-child limit addresses retrospection, but does not change long-run cut to support for big families](#)

⁸² Hood, A. a Waters, T. (2017) [Living standards, poverty and inequality in the UK: 2017-18 to 2021-22](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cyfyngu elfen plentyn credydau treth a'r Credyd Cynhwysol i ddau blentyn (parhad)		Mae Asesiad Effaith DWP ⁸³ yn nodi y gall menywod fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio na dynion gan fod cyfran uwch o aelwydydd un rhiant (rhan fwyaf yn fenywod) yn derbyn y Credyd Treth Plant. Gall cartrefi lleiafrifoedd ethnig fod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio hefyd gan eu bod yn fwy tebygol o dderbyn y budd-daliadau hyn a chael teuluoedd mawr ar gyfartaledd. O'r cartrefi sy'n derbyn budd-daliadau lles, y rhai ag anabledd sy'n lleiaf tebygol o gael plant, ac felly'n lleiaf tebygol o gael eu heffeithio.
10. ESA	<p>Cysoni cyfradd Grŵp Gweithgaredd Cysylltiedig â Gwaith (WRAG) â JSA ar gyfer hawliadau newydd – Ebrill 2017</p> <p>Cywiro gwallau yn yr ESA a thalu taliadau dyledus o fis Awst 2017, gyda ymrwymiad i ddatrys hyn erbyn Ebrill 2019</p>	<p>Budd-dal i bobl sydd â galluogrwydd cyfyngedig i weithio am eu bod yn anabl neu'n sâl. Mae'r Credyd Cynhwysol wrthi'n disodli'r ESA cysylltiedig ag incwm. Mae taliadau ESA (ac elfen Galluogrwydd Cyfyngedig ar gyfer Gwaith y Credyd Cynhwysol) i rai yr ystyrir eu bod yn gallu cwblhau gweithgareddau cysylltiedig â gwaith (h.y. rhai yn y WRAG) wedi'u cysoni â JSA a chyfradd safonol y Credyd Cynhwysol. Mae hyn wedi bod yn berthnasol i hawliadau newydd ers 3 Ebrill 2017 yn unig. Mae cyfradd Grŵp Cymorth ESA/Galluogrwydd Cyfyngedig ar gyfer Gwaith y Credyd Cynhwysol a chyfradd Gweithgaredd Cysylltiedig â Gawith yn parhau i gael eu talu i'r rhai â'r cyflyrau a'r anabledau iechyd mwyaf difrifol sy'n cyfyngu ar waith.</p> <p>Mae DWP yn amcangyfrif y bydd 500,000 o deuluoedd Prydain yn cael eu heffeithio yn y tymor hir gan ddefnyddio stoc hawlwr WRAG i gynrychioli'r boblogaeth gaiff ei heffeithio, a bydd y golled dybiannol i'r rhai yr effeithir arnynt tua £28 yr wythnos gan arbed tua £640 miliwn y flwyddyn i Drysorlys y DU yn 2020-21⁸⁴. Gan ddefnyddio data cyfwerth i Gymru, amcangyfrifwn y bydd tua 35,000 o hawlwr wedi'u heffeithio yng Nghymru⁸⁵. Colled dybiannol yw mesur o'r hawliad y byddai hawlwr wedi bod yn gymwys amdano pe na bai'r polisi wedi newid yn hytrach na hawlwr yn colli incwm yr oeddynt yn ei dderbyn (h.y. colled arian parod). Mae grwpiau incwm isel yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan eu bod yn fwy tebygol o dderbyn y budd-dal hwn.</p> <p>O Ebrill 2017, cyflwynodd DWP nifer o fesurau i gefnogi hawlwr ESA yn y WRAG ac yng ngrŵp Galluogrwydd Cyfyngedig ar gyfer Gwaith y Credyd Cynhwysol i gael swyddi, fel y nodwyd ym Mhapur Gwyrdd 'Improving Lives: the Future of Work, Health and Disability'⁸⁶.</p> <p>Ym Mawrth 2018, cyhoeddodd y NAO ganfyddiadau eu hymchwiliad i un achos mawr o gamgymeriad tandalu gyda'r ESA, sy'n ymwneud â phobl y trosglwyddwyd eu hawliad budd-dal cyfredol i ESA ac oedd â hawl i dderbyn ESA cysylltiedig ag incwm ond a gafodd ESA seiliedig ar gyfraniad yn unig⁸⁷. Arweiniodd y</p>

⁸³ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2015) [Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment of Tax Credits and Universal Credit, changes to child element and family element](#)

⁸⁴ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2015) [Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment to remove the ESA Work-Related Activity Component and the UC Limited Capability for Work element for new claims](#)

⁸⁵ Gwefan [ONS Nomis](#), Data Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

⁸⁶ Yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Iechyd (2017) [Improving Lives – The Future of Work, Health and Disability](#) (Dolen Gymraeg: [Gwella Bywydau – Dyfodol Gwaith, Iechyd ac Anabledd](#))

⁸⁷ Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2018) [Investigation into errors in Employment and Support Allowance](#)

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
ESA (parhad)		<p>camgymeriad hwn at bobl yn colli allan ar daliadau premiwm anabledd ychwanegol (e.e. premiymau anabledd uwch, anabledd difrifol, gofalwr a phensiynwr). Mae'r NAO yn amcangyfrif bod DWP wedi tandalu 70,000 o bobl a drosglwyddwyd i EA o fudd-daliadau eraill ers 2011. Byddem yn disgwyl i tua 6 y cant (tua 4,000) o'r bobl hynny fod yng Nghymru ar sail data DWP ar nifer y bobl ar ESA yng Nghymru fel cyfran o'r rhai ar ESA ym Mhrydain i gyd rhwng 2011-2017 (ffynhonnell: Stat-Xplore DWP). Mae'r NAO yn adrodd bod y tandaliad cyfartalog yn debygol o fod tua £5,000. Fodd bynnag, bydd llawer mwy yn ddyledus i rai pobl. Mae'r adroddiad yn nodi bod adolygiad o sampl o 1,000 o achosion yn awgrymu efallai bod tua £2,500 yn ddyledus i 45,000 o hawlwr oedd â hawl i'r premiwm anabledd uwch yn unig a bod tua £11,500 yr un yn ddyledus i'r rhai sydd â hawl i'r premiwm anabledd difrifol. Ymhellach, efallai bod tua £20,000 yn ddyledus i nifer fach o hawlwr. Dechreuodd DWP gysylltu â phobl a gwneud taliadau o Awst 2017 ac mae wedi ymrwymo i gywiro'r camgymeriad hwn a thalu ôl-daliadau erbyn Ebrill 2019.</p> <p>I ddechrau, roedd hawlwr ond yn mynd i gael ôl-daliadau yn dyddio'n ôl i 21 Hydref 2014 yn unig (h.y. dyddiad penderfyniad y tribiwnlys cyfreithiol, gan fod DWP yn honni bod y penderfyniad yn eu hatal rhag talu tandaliadau oedd yn perthyn i'r cyfnod cyn y dyddiad hwn). Amcangyfrifodd DWP bod tua 100 miliwn - £150 miliwn o dandaliadau wedi'u cronni cyn 21 Hydref 2014, na fyddai'n gallu eu talu. Roedd tua £340 miliwn i'w dalu i hawlwr am y cyfnod ar ôl 21 Hydref 2014. Fodd bynnag, yn dilyn pwysau gan grwpiau fel y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, a gymerodd gamau cyfreithiol⁸⁸, cyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018 y byddai tandaliadau mor bell yn ôl â 2011 yn cael eu talu⁸⁹. Mae hynny'n mynd â'r cyfanswm y mae disgwyl i DWP ei ad-dalu i tua £500 miliwn. Fodd bynnag, mae adroddiad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y DU yn dweud nad yw DWP yn bwriadu talu unrhyw iawndal i hawlwr i adlewyrchu gwerth coll budd-daliadau wedi'u pasbortio (e.e. presgripsiynau'r GIG, triniaeth ddeintyddol a phrydau ysgol am ddim)⁹⁰.</p>
11. Cynnydd mewn rhai lwfansau gwaith y Credyd Cynhwysol	Ebrill 2019	<p>Cyhoeddodd Cyllideb Haf 2015 Llywodraeth y DU ostyngiad mawr mewn faint roedd teuluoedd yn gallu ei ennill cyn bod credydau treth/Credyd Cynhwysol yn dechrau cael eu tynnu (a elwir yn 'drothwyon incwm' mewn credydau treth a 'lwfansau gwaith' yn y Credyd Cynhwysol), i'w gweithredu o Ebrill 2016. Cafodd y trothwy incwm credyd treth ei ostwng o £6,420 i £3,850 a chyhoeddwyd y byddai'r Credyd Cynhwysol yn cal ei dynnu yn llawer cynt (yn syth ar gyfer cartrefi nad oeddynt yn anabl heb blant). Roedd hyn yn golygu gostyngiad o hyd at £2,770 y flwyddyn mewn dyfarniadau Credyd Cynhwysol i deuluoedd sy'n gweithio, er bod yr union effaith yn amrywio yn ôl math o gartref a deiliadaeth tai. Mae amcangyfrifon yr IFS⁹¹ yn dangos y byddai'r gostyngiad hwn wedi lleihau gwariant tua £3 biliwn yn 2020-21, gyda thua tri miliwn o deuluoedd yn colli ychydig dros £1,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Roedd toriadau o'r fath yn effeithio ar deuluoedd sy'n gweithio. Er bod y rhai tlotaf yn cael eu gwarchod, mae'r cymelliadau i deuluoedd i gael rhywun mewn gwaith yn wannach.</p>

⁸⁸ Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2018) [Charity takes legal action against DWP for disabled claimants' arrears](#)

⁸⁹ Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant (2018) [CPAG legal action leads to full arrears for disabled claimants](#)

⁹⁰ Senedd y DU (2018) [Employment and Support Allowance](#)

⁹¹ Hood, A. (2015) [Benefit changes and distributional analysis](#). IFS Post-Budget Analysis

Diwygio Lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiadau a'r effaith a amcangyfrifir
Cynnydd mewn rhai lwfansau gwaith y Credyd Cynhwysol (parhad)		<p>Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn dirymu toriadau trothwyon incwm y credyd treth. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn wahaniaeth yn y tymor hir gan fod Credyd Cynhwysol yn disodli credydau treth, ac nid oedd y dirymiad yn effeithio ar y Credyd. Fodd bynnag, cyhoeddodd Cyllideb 2018 Llywodraeth y DU gynnydd mewn rhai lwfansau gwaith y Credyd Cynhwysol o Ebrill 2019 (£1.7 biliwn o wariant blynyddol ychwanegol yn 2023-24), gan ddarparu hwb o £630 i rai teuluoedd sy'n gweithio (y rhai â phlant neu hawliwyr anabl), sy'n gwneud iawn am hanner y toriad gwreiddiol. Mae'r IFS yn amcangyfrif y bydd y newid hwn o fudd i 2.4 miliwn o deuluoedd, ac yn gadael lwfansau gwaith ar gyfer rhentwyr yn uwch nag oeddynt cyn Cyllideb yr Haf 2015, ond yn is ar gyfer perchen-feddianwyr (ac eithrio teuluoedd nad ydynt yn anabl heb blant sydd â lwfansau gwaith o sero o hyd)⁹².</p> <p>Mae'r Resolution Foundation yn adrodd bod y newid hwn yn gynyddol, gyda'r mwyafrif llethol (86 y cant) o wariant o fudd i aelwydydd incwm isel. Fodd bynnag, er bod effeithiau hirdymor y cynnydd yn lwfans gwaith y Credyd Cynhwysol yn gwella'r darlun dosbarthiadol, nid yw'r enillion o'r newid hwn yn ddigonol i wneud iawn am effaith blwyddyn derfynol rhewi budd-daliadau i'r cartrefi ar yr incwm isaf⁹³. Mae'r IFS hefyd yn gwneud y pwynt mai cynnydd bychan yw hwn mewn haelioni o gymharu â'r toriadau i fudd-daliadau oedran gweithio a gyflwynwyd ers 2015 a'i fod yn fach o gymharu â'r toriadau sydd eto i ddod (gweler Ffigur 1 yn Adroddiad 5 yr adroddiad hwn)⁹⁴.</p>

⁹² Waters, T. (2018) [Personal tax and benefit measures](#)

⁹³ Resolution Foundation (2018) [How to spend it – Autumn Budget 2018 response](#)

⁹⁴ Johnson, P. (2018) Autumn Budget 2018: IFS analysis. [Paul Johnson's Opening Remarks](#)

3. Gwrthdroi polisi

Diwygiad polisi a wrthdroyd	Dyddiad cyflwyno arfaethedig	Amlinelliad o'r diwygiad a'r effaith a amcangyfrifwyd
<p>1. Newidiadau i gymorth tai'r Credyd Cynhwysol ar gyfer pobl ifanc 18-21 oed</p>	<p>Ebrill 2017</p>	<p>Cyhoeddwyd yng Nghyllideb Haf 2015 na fyddai gan rai⁹⁵ pobl ifanc 18 i 21 oed sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol yn gymwys o 1 Ebrill 2017 hawl i gael cymorth gyda chostau tai. Fodd bynnag, ar ddiwedd Mawrth 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'n diwygio'r rheoliadau fel bod pob person ifanc 18 i 21 oed yn gallu hawlio cymorth gyda chostau tai o fewn y Credyd Cynhwysol⁹⁶.</p> <p>Amcangyfrifwyd y byddai'r mesur hwn yn arbed £40 miliwn y flwyddyn i'r Trysorlys yn 2021-22. Disgwyliwyd i'r colledion ar lefel unigol fod yn rhai tybiannol yn bennaf gan fod y polisi'n ymwneud â cheisiadau newydd. Mae colled tybiannol yn mesur y cymorth y byddai'r hawlwr wedi bod â hawl iddo pe na bai'r polisi wedi'i newid, yn hytrach na bod hawlwr yn colli incwm yr oeddent eisoes wedi bod yn ei dderbyn (h.y. colli arian). Byddai'r colled ar lefel unigol wedi dibynnu ar rwymedigaeth yr hawlwr o ran rhent, sy'n amrywio'n eang yn dibynnu lle maent yn byw.</p> <p>Amcangyfrifwyd mewn Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gan yr Adran Gwaith a Phensiynau y byddai'r newid polisi hwn wedi effeithio ar oddeutu 1,000 o bobl ym Mhrydain yn 2017-18, gan gynyddu i 11,000 erbyn 2020-21⁹⁷. Yn dilyn ein cais diweddar am amcangyfrifion ar gyfer Cymru, gwyddom fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi amcangyfrif bod hawlwr yng Nghymru yn cynrychioli oddeutu 5% o'r llwyth achosion ym Mhrydain, sy'n golygu y byddai wedi effeithio ar tua 500 o hawlwr yng Nghymru erbyn 2020-21. Gwnaethom hefyd gynnal ein dadansoddiad ein hunain o effaith bosibl y newid hwn, gan amcangyfrif y byddai tua 650 o bobl yng Nghymru wedi'u heffeithio yn y tymor hir, sy'n debyg i amcangyfrif yr Adran Gwaith a Phensiynau, a byddent wedi bod yn destun i amodau economaidd (e.e. y farchnad lafur) a ffactorau demograffig.</p> <p>Ym mis Ionawr 2018, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ddatganiad ystadegol sy'n dangos bod 96 y cant o bobl ifanc 18-21 oed ym Mhrydain a oedd wedi gwneud cais am costau tai o dan y Credyd Cynhwysol rhwng Ebrill a Mehefin 2017, wedi ei gael. O'r rhain, roedd gan 50 y cant blant dibynnol, sy'n eithrio hawlwr o'r polisi⁹⁸.</p>

⁹⁵ Cynlluniwyd nifer o eithriadau. Gweler y ddolen ganlynol am ragor o wybodaeth. [Housing costs for 18 to 21 year olds](#)

⁹⁶ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018) [Housing support for young people](#)

⁹⁷ Inside Housing (2017) [Up to 11,000 affected by under-21 benefit cap by 2021](#)

⁹⁸ Yr Adran Gwaith a Phensiynau (2018) [Removal of automatic entitlement to housing costs for 18-21 year olds in Universal Credit](#)

Diwygiad polisi a wrthdrowyd	Dyddiad cyflwyno arfaethedig	Amlinelliad o'r diwygiad a'r effaith a amcangyfrifwyd
<p>2. Budd-dal Tai: cyfyngu rhenti'r sector cymdeithasol i gyfraddau Lwfansau Tai Lleol (LHA) cyfwerth yn y sector preifat</p> <p>Y bwriad hefyd oedd gweithredu cyfraddau LHA yn y sector tai â chymorth a sefydlu cronfa ddatganoledig i gwrdd â'r diffyg rhwng cyfraddau LHA a chost y ddarpariaeth.</p>	<p>Ar gyfer anghenion tai cyffredinol, roedd y cap i fod ar waith o Ebrill 2019 ar gyfer pob tenant ar Gredyd Cynhwysol, ac i denantiaid Budd-dal Tai y cafodd eu tenantiaethau eu rhoi ar waith neu eu hadnewyddu ers Ebrill 2016.</p> <p>Bwriadwyd rhoi'r cap ar waith ar gyfer yr holl denantiaethau tai â chymorth o Ebrill 2019.</p>	<p>Cyhoeddodd yr Adolygiad o Wariant a Datganiad yr Hydref yn 2015 fwrriad i gapio faint o rent y bydd Budd-dal Tai yn ei dalu yn y sector rhentu cymdeithasol i lefel berthnasol LHA, sef y gyfradd a delir i'r rhan fwyaf o rentwyr preifat sydd ar Fudd-dal Tai (cyfradd safonol a bennir ar 30ain canradd rhenti marchnad ar gyfer tai ag ystafelloedd gwely maint gwahanol o fewn Ardal Marchnad Rentu Eang). Dywedodd y cyhoeddiad hefyd y byddai'r newid yn cynnwys Cyfradd Llety a Rennir ar gyfer hawlwyd sengl dan 35 nad oes ganddynt blant dibynnol. Roedd y cap yn mynd i arbed £530 miliwn i Lywodraeth y DU yn 2020-21. Cynlluniwyd ar gyfer Taliad Disgresiwn at Gostau Tai ychwanegol.</p> <p>Yn wreiddiol roedd y newid hwn i fod yn berthnasol i denantiaethau a lofnodwyd ar ôl 1 Ebrill 2016, gyda'r hawl Budd-dal Tai yn newid o 1 Ebrill 2018. Fodd bynnag, ar gyfer anghenion tai cyffredinol cyhoeddodd Datganiad yr Hydref yn 2016 y byddai'r cap yn cael ei roi ar waith o fis Ebrill 2019 ar gyfer yr holl denantiaid ar Gredyd Cynhwysol, ac i denantiaid Budd-dal Tai y cafodd eu tenantiaethau eu rhoi ar waith neu eu hadnewyddu er mis Ebrill 2016. Bwriadwyd rhoi'r cap ar waith ar gyfer yr holl denantiaethau tai â chymorth o fis Ebrill 2019.</p> <p>Adeg eu gweithredu, byddai'r cyfraddau wedi bod yn berthnasol i'r holl breswylwyr tai â chymorth a oedd yn cael Budd-dal Tai. Ar yr un pryd, bwriadwyd cyflwyno model cyllido newydd lle y byddai awdurdodau lleol yn Lloegr yn clustnodi cyllid er mwyn cwrdd â'r diffyg rhwng cyfraddau LHA a'r gost o ddarparu tai â chymorth. Roedd Cymru a'r Alban hefyd i fod i gael dyraniad cyllid. Byddai taliadau gwasanaethau cymwys a rhenti craidd wedi cael eu hariannu trwy Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol hyd at y lefel LHA berthnasol, a byddai'r gronfa ddatganoledig newydd yn cwrdd â'r diffyg. Ni fyddai'r Gyfradd Llety a Rennir ar gyfer hawlwyd dan 35 wedi bod yn berthnasol i breswylwyr mewn tai â chymorth.</p> <p>Roedd landlordiaid y sector cymdeithasol yn bryderus y byddai'r cap LHA yn y sector rhentu cymdeithasol yn arwain at ddiffyg rhwng y rhenti dyledus a hawl pobl i gael Budd-dal Tai, a allai, yn ei dro, arwain at ôl-ddyledion rhent ac effeithio ar ffrydiau refeniw landlordiaid. Ymhellach, fe fyddai risg digartrefedd yn codi ar gyfer y tenantiaid dan sylw. O gofio'r pryderon hyn, ym mis Hydref 2017 cyhoeddodd Llywodraeth y DU na fyddai cyfraddau LHA yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer tai cymdeithasol anghenion cyffredinol, ac na fyddent yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer tai â chymorth⁹⁹.</p> <p>Ym mis Awst 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai Budd-dal Tai yn cael ei gadw ar gyfer pawb a oedd yn byw mewn tai â chymorth¹⁰⁰. Mae hyn yn groes i fwrriad blaenorol y llywodraeth i ddatganoli cymorth i awdurdodau lleol yn Lloegr a gweinyddiaethau datganoledig (fel y nodir uchod).</p>

⁹⁹ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2017) [Local Housing Allowance and the social rented sector](#)

¹⁰⁰ Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Kit Malthouse AS a Justin Tomlinson (2018) [All supported housing funding to be retained in welfare system](#)

4. Effaith gronnus diwygiadau treth a lles

Diwygiad lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad a'r effaith debygol
Holl effaith newidiadau treth a lles	Ymdrinnir â diwygiadau a gyhoeddwyd rhwng Mai 2010 ac Ionawr 2018	<p>Mae dadansoddiad a wnaed gan Landman Economics ac Aubergine Analysis ar ran y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol¹⁰¹, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, yn crynhoi'r casgliadau ynghylch effaith bosibl diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU, yn cynnwys ar lefel Cymru. Mae'r dadansoddiad yn ymdrin ag effaith gronnus diwygiadau treth a lles a gyhoeddwyd rhwng mis Mai 2010 a mis Ionawr 2018. Felly, ni chaiff unrhyw newidiadau treth a lles a gyhoeddwyd ers hynny eu hystyried yn y dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, mae dadansoddiad mwy diweddar gan IFS, ar lefel y DU, yn dangos mai ychydig o wahaniaeth mewn gwirionedd, ar gyfartaledd, a welir mewn incwm aelwydydd yn sgil newidiadau treth a lles a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2018. Y disgwyl o hyd yw y bydd effaith gyffredinol polisïau treth a budd-daliadau Llywodraeth y DU, a roddwyd ar waith ers mis Mai 2015, yn hynod anflaengar, gyda'r effeithiau mwyaf yn cael eu teimlo gan y bobl sydd ar yr incwm isaf, ac yn enwedig rhai â phlant¹⁰².</p> <p>Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn amcangyfrif y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amcangyfrifir y bydd aelwydydd yng Nghymru yn colli 1.5 y cant o'u hincwm net ar gyfartaledd (neu oddeutu £480 y flwyddyn) yn sgil y diwygiadau o ran treth, lles a'r Cyflog Byw Cenedlaethol a gyhoeddwyd ers 2010. Y colledion cyfwerth ar gyfartaledd ar gyfer aelwydydd yn Yr Alban a Lloegr yw oddeutu £580 y flwyddyn (1.7 y cant o incwm net) a £700 y flwyddyn (1.9 y cant o incwm net), yn ôl eu trefn. Ar y cyfan, mae'r newidiadau hyn yn anflaengar, gyda'r effeithiau mwyaf yn cael eu teimlo gan y bobl sydd ar yr incwm isaf. • Mae'r effeithiau dosbarthiadol yng Nghymru a'r Alban yn llai negyddol nag yn Lloegr ar gyfer aelwydydd yn hanner isaf y dosbarthiad incwm. Mae dau brif ffactor wrth wraidd hyn: presenoldeb polisïau a gyflwynwyd gan Lywodraethau Cymru a'r Alban i liniaru effaith toriadau mewn budd-daliadau a chredydau treth ar aelwydydd (e.e. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS)); a lefelau rhenti uwch ar gyfartaledd ar gyfer hawlwy'r Budd-dal Tai yn Lloegr mewn cymhariaeth â Chymru a'r Alban, sy'n golygu bod effaith y cyfyngiadau ar Fudd-dal Tai wedi bod yn waeth yn Lloegr. Mae'r data hefyd yn awgrymu bod cyflwyno Credyd Cynhwysol yn arwain at gynnydd mwy mewn incwm net ymhlith yr aelwydydd tlotaf yng Nghymru nag a welir yn yr Alban neu yn Lloegr. Fe welir hyn gan fod y dadansoddiad yn proffwydo cynnydd mwy yn y defnydd o Gredyd Cymhwysol ymhlith hawlwy'r incwm isel yng Nghymru nag yn yr Alban neu yn Lloegr. • Mae aelwydydd â phlant yn gweld colledion llawer mwy o ganlyniad i'r diwygiadau treth a lles nag aelwydydd heb blant.

¹⁰¹ Reed, H., and Portes, J. (2018) [The cumulative impact of tax and welfare reforms](#) (Fersiwn Gymraeg: Effaith cronol diwygiadau treth a lles)

¹⁰² Waters, T. (2018) [Personal tax and benefit measures](#); Norris Keiller, A., a Waters, T. (2018) [Distributional analysis](#)

Diwygiad lles	Dyddiad cyflwyno	Amlinelliad o'r diwygiad a'r effaith debygol
Holl effaith newidiadau treth a lles	Ymdrinnir â diwygiadau a gyhoeddwyd rhwng Mai 2010 ac Ionawr 2018	<ul style="list-style-type: none"> • Mae hyn yn arbennig o wir yn achos teuluoedd un rhiant yng Nghymru sy'n colli oddeutu £3,720 y flwyddyn ar gyfartaledd, a hefyd teuluoedd mawr. Mae teuluoedd a chanddynt dri neu fwy o blant yng Nghymru yn colli oddeutu £4,110 y flwyddyn ar gyfartaledd. • Amcangyfrifir y bydd tlodi plant cymharol yng Nghymru (ar ôl costau tai) yn cynyddu'n sylweddol, gyda'r diwygiadau'n gwthio 50,000 yn ychwaneg o blant i dlodi erbyn 2021-22 (cynydd o oddeutu 8 pwynt canran o 29.6% i 37.4%, gan gynyddu nifer y plant sydd mewn tlodi plant cymharol o oddeutu 200,000 i 250,000¹⁰³). Bydd gweithredu'r polisi lle y cyfyngir y credydau i ddau blentyn, a gyhoeddwyd ar ôl i adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gael ei gyhoeddi, yn cael effaith ar amseru effeithiau o'r fath, gan na ddisgwylir i effaith hirdymor y polisi gael ei deimlo'n awr tan ganol y 2030au (gweler diwygiad 9 yn yr adroddiad hwn am fwy o wybodaeth). • Ceir effaith anghymesur o negyddol ar incwm nifer o grwpiau gwarchoddedig, yn cynnwys pobl anabl, rhai grwpiau ethnig, a menywod, a cheir effeithiau arbennig o negyddol ar grwpiau croestoriadol a chanddynt amryfal anfanteision (er enghraifft teuluoedd un rhiant â phlant anabl). Yng Nghymru, fe allai aelwydydd sydd ag o leiaf un oedolyn anabl a phlentyn anabl gollu oddeutu £5,270 y flwyddyn ar gyfartaledd (dylid ystyried y rhain yn oramcangyfrifon gan nad ydynt yn ystyried newidiadau polisi dilynol a fydd o fudd i bobl anabl, e.e. Rheoliad yr Uchel Lys ar asesiadau Taliad Annibyniaeth Personol). Bydd menywod yn colli oddeutu £350 y flwyddyn ar gyfartaledd, tra y bydd dynion yn ennill oddeutu £15. Ym Mhrydain Fawr, bydd aelwydydd Bangladeshaid yn colli oddeutu £4,400 y flwyddyn, mewn cymhariaeth ag aelwydydd Gwyn, neu aelwydydd ag oedolion o wahanol ethnigrwydd, a fydd yn colli rhwng £500 a £600 y flwyddyn ar gyfartaledd. Oherwydd maint y samplau a arolygwyd, ni fyddai dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd ar lefel Cymru wedi bod yn ddibynadwy. • At ei gilydd, mae'r effeithiau negyddol hyn wedi deillio o newidiadau i'r system fudd-daliadau, yn arbennig trwy rewi cyfraddau budd-daliadau pobl o oedran gweithio, cyflwyno newidiadau i fudd-daliadau anabledd a lleihau cyfraddau Credyd Cynhwysol. Disgwylir i hanner aelwydydd Cymru, bron iawn, fod ar eu colled yn sgil y diwygiadau cyffredinol i drethi uniongyrchol, taliadau trosglwyddo a'r Cyflog Byw Cenedlaethol. <p>Dengys dadansoddiad cynharach gan Lywodraeth Cymru, ynghyd ag ymchwil a wnaed gan Brifysgol Sheffield Hallam, mai Cymoedd De Cymru¹⁰⁴, heb fawr o syndod – sy'n cynnwys yr ardaloedd yng Nghymru lle y gwelir y cyfraddau uchaf o bobl o oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau – yw'r ardaloedd a fydd yn dioddef waethaf yng Nghymru yn sgil y newidiadau lles mawr a gyhoeddwyd ers 2010¹⁰⁵</p>

¹⁰³ Mae'r senario llinell sylfaen yn tybio nad oes unrhyw un o'r diwygiadau i'r system trethi-trosglwyddo er 2010 wedi digwydd, a bod gwerth system 2009-10 yn hytrach wedi'i gynyddu gan chwyddiant at 2021-22. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer senario'r diwygiadau'n berthnasol i'r sefyllfa ar ôl i'r holl ddiwygiadau a gyflwynwyd er etholiad Mai 2010 gael eu rhoi ar waith.


¹⁰⁴ Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Torfaen, a Chasnewydd.

¹⁰⁵ Llywodraeth Cymru (2014) [Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru – Dadansoddiad Cam 3](#); Beatty, C. a Fothergill, S. (2014) [The impact of welfare reform on the valleys](#)

5. Toriadau lles sydd i ddod

- Dim ond yn rhannol y mae llawer o'r toriadau i fudd-daliadau a gyhoeddwyd ers 2015 wedi'u rhoi ar waith, fel y gwelir yn y siart isod. Mae'r toriadau mewn budd-daliadau sydd eto i ddod oddeutu £4 biliwn y flwyddyn.

Ffigur 1 – Arbedion a ragwelir yn sgil mesurau nawdd cymdeithasol a gyhoeddwyd ers Mehefin 2010



Note: Effect of move to CPI indexation held constant from 2015-16 onwards; Excludes triple lock.

Source: Office for Budget Responsibility *Policy Measures Database*, various *Economic and Fiscal Outlook*; IFS calculations.

© Institute for Fiscal Studies

Ffynhonnell: Waters, T. (2018) [Personal tax and benefit measures](#). Cyflwyniad yn nigwyddiad briffio'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar ôl cyllideb 2018

6. Casgliadau

Yn yr adroddiad hwn cyflwynir tystiolaeth, dadansoddiad ac ystadegau sydd wedi deillio o waith ymchwil allweddol yn ymwneud ag effaith sylweddol diwygiadau unigol i fudd-daliadau lles a roddwyd ar waith eisoes a'r rhai a fydd yn parhau i gael eu cyflwyno yn ystod y blynyddoedd nesaf gan Lywodraeth y DU. Mae graddfa'r toriadau lles hyn yn y dyfodol wedi'u hegluro. Ystyriwyd hefyd effaith gronnyd y diwygiadau hyn i fudd-daliadau lles, ynghyd â diwygiadau treth a chyflwyno'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Ymhellach, mae achosion lle y mae Llywodraeth y DU wedi newid a dadwneud polisïau wedi cael eu trafod.

Mae Llywodraeth y DU wedi gweithredu nifer o ddiwygiadau sylweddol i fudd-daliadau lles a chredydau treth trwy gyfrwng Deddf Diwygio Lles 2012 a Deddf Lles a Gwaith 2016, gyda thoriadau lles sylweddol eto i ddod. Y diwygiad pwysicaf yw cyflwyno'r Credyd Cynhwysol, sy'n newid mawr iawn i strwythur y system fudd-daliadau ar gyfer pobl o oedran gweithio. Mae diwygiadau allweddol eraill a drafodir yn cynnwys cyflwyno Taliad Annibyniaeth Personol (PIP), rhewi'r rhan fwyaf o fudd-daliadau a gaiff pobl o oedran gweithio am bedair blynedd, a chyfyngu ar elfen plant y credydau treth a'r Credyd Cynhwysol i ddau blentyn. Dengys yr adroddiad hwn fod y newidiadau hyn, ynghyd ag amrywiaeth o newidiadau lles eraill, yn cael gwahanol effaith ar wahanol bobl, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u nodweddion.

Er bod pob un o'r diwygiadau lles unigol yn arwain at eu heffeithiau eu hunain ar aelwydydd, fel y trafodir yn Adran 2 yr adroddiad hwn, mae'n arbennig o ddefnyddiol ystyried effaith gyffredinol yr holl ddiwygiadau hyn (ochr yn ochr â diwygiadau treth a diwygiadau yn y Cyflog Byw Cenedlaethol), oherwydd mae modd i amryfal ddiwygiadau effeithio ar aelwydydd.

Ar sail dadansoddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gwyddom fod aelwydydd yng Nghymru yn colli oddeutu 1.5 y cant o'u hincwm net ar gyfartaledd (neu oddeutu £480 y flwyddyn) yn sgil yr holl ddiwygiadau mewn treth, lles a'r Cyflog Byw Cenedlaethol a gyhoeddwyd ers 2010 (hyd at fis Ionawr 2018). Disgwylir i hanner aelwydydd Cymru, bron iawn, fod ar eu colled yn sgil yr holl ddiwygiadau a ddadansodwyd.

Ar y cyfan, pobl ar yr incwm isaf sy'n teimlo'r effeithiau mwyaf. Mae aelwydydd â phlant yn cael colledion llawer mwy o ganlyniad i ddiwygiadau treth a lles nag aelwydydd heb blant. Amcangyfrifir y bydd tlodi plant cymharol yng Nghymru yn cynyddu'n sylweddol, gyda'r diwygiadau'n gwthio 50,000 yn ychwaneg o blant i dlodi erbyn iddynt gael eu rhoi ar waith yn llwyr. Hefyd, ceir effaith anghymesur o negyddol ar incwm nifer o grwpiau gwarchoddedig, yn cynnwys pobl anabl, rhai grwpiau ethnig, a menywod, ac effeithiau arbennig o negyddol ar grwpiau croestoriadol a chanddynt amryfal anfanteision.

Dengys dadansoddiad mwy diweddar gan IFS, ar lefel y DU, mai cymharol ychydig o wahaniaeth a gaiff newidiadau treth a lles a gyhoeddwyd yng Nghyllideb 2018 ar incwm aelwydydd, ar gyfartaledd. Y disgwyl o hyd yw y bydd effaith gyffredinol polisïau treth a lles Llywodraeth y DU, a roddwyd ar waith ers mis Mai 2015 yn anflaengar iawn, gyda phobl ar yr incwm isaf, ac yn enwedig rhai â phlant, yn teimlo'r effeithiau mwyaf.

Caiff yr effeithiau negyddol eu sbarduno i raddau helaeth gan newidiadau i'r system budd-daliadau lles, fel rhewi cyfraddau budd-daliadau pobl o oedran gweithio. Er bod rhai polisïau budd-daliadau lles wedi'u newid neu eu dadwneud gan Lywodraeth y DU, mae

rhai wedi dadlau nad yw'r camau hyn yn mynd yn ddigon pell. Mae graddfa'r toriadau lles sydd eto i ddod hefyd yn peri pryder mawr.

Mae gan Lywodraeth y DU gyfrifoldeb dros ddatblygu polisiau diwygio lles a gweinyddu budd-daliadau lles. Nid oes gan Lywodraeth Cymru yr holl adnoddau sydd ar gael i ymdrin ag effaith lawn y newidiadau hyn. Fodd bynnag, mae'n parhau i liniaru, pan fo modd, ac mae wedi buddsoddi arian ychwanegol, er enghraifft, mewn gwasanaethau cynghori rheng flaen, DAF, CTRS, a phrydau ysgol am ddim. Bydd casgliadau'r adroddiad hwn yn cael eu defnyddio i geisio cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisiau ar liniaru effaith y diwygiadau lles.

Atodiad 1


Cyflwyno gwasanaeth llawn Credyd Cynhwysol yng Nghymru fesul awdurdod lleol

Mis	Ardal awdurdod lleol	Swyddfa Canolfan Byd Gwaith
Ebrill 2017	Sir y Fflint	Y Fflint Yr Wyddgrug Shotton
Gorffennaf 2017	Torfaen	Cwmbrân Pont-y-pŵl
Hydref 2017	Castell-nedd Port Talbot	Castell-nedd Port Talbot
	Wrecsam	Wrecsam
Tachwedd 2017	Casnewydd	Casnewydd
Rhagfyr 2017	Abertawe	Gorseinon Treforys Abertawe
Chwefror 2018	Caerdydd	Tŷ Alex Stryd Siarl
Ebrill 2018	Sir Ddinbych	Y Rhyl
Mehfin 2018	Pen-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr Porthcawl Maesteg
	Conwy	Bae Colwyn Llandudno
	Merthyr Tudful	Merthyr Tudful
	Sir Fynwy	Y Fenni Cil-y-coed Cas-gwent
Gorffennaf 2018	Blaenau Gwent	Abertyleri Glynebwy
Medi 2018	Caerffili	Bargoed Y Coed Duon Caerffili
	Sir Benfro	Hwlfordd Aberdaugleddau Doc Penfro
Hydref 2018	Gwynedd	Machynlleth <i>(mae hefyd yn gwasanaethu Cyngor Sir Powys, felly aeth yn fyw gydag ardaloedd eraill Powys ym mis Hydref)</i>
	Powys	Aberhonddu Llandrindod Y Drenewydd Machynlleth (mae hefyd yn gwasanaethu Cyngor Gwynedd) Y Trallwng Ystradgynlais
	Bro Morgannwg	Y Barri Penarth

Mis	Ardal awdurdod lleol	Swyddfa Canolfan Byd Gwaith
Tachwedd 2018	Rhondda Cynon Taf	Aberdâr Llantrisant Pontypridd Porth Tonypanydy Treorci
Rhagfyr 2018	Ynys Môn	Amlwch Caergybi Llangefni
	Sir Gaerfyrddin	Rhydaman Caerfyrddin Llanelli
	Ceredigion	Aberystwyth Aberteifi
	Cyngor Gwynedd	Bangor Caernarfon Dolgellau Porthmadog Pwllheli

Atodiad 2

Ffigwr 2 – oedi wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol



Ffynhonnell: Waters, T. (2018) [Personal tax and benefit measures](#). Cyflwyniad yn nigwyddiad briffio'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid ar ôl cyllideb 2018